Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 36/2018

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018

# Gwerthusiad o Gymunedau am Waith

## Rhan 3: Adroddiad ar Ganlyniadau ac Effeithiau sy'n dod i'r Amlwg

© Hawlfraint y Goron 2018 ISBN Digidol 978-1-78937-356-1

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymunedau am Waith: Asesiad o’r Deilliannau a’r Effeithiau sy’n Dod i’r Amlwg

Einir Burrowes, Dateb / OB3

Duncan Holtom, People and Work

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid o anghenraid farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Sian Williams
Yr Is-Adran Cymunedau
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-Car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: Sian.Williams50@llyw.cymru

## Cynnwys


Rhestr tablau 2

Rhestr ffigurau 2

*Geirfa* 4

1. Cyflwyniad 5

Y Dull 5

Strwythur yr adroddiad hwn 9

2. Cyflwyniad i Gymunedau am Waith a Datblygiadau ers cyflawni'r Gwerthusiad o Brosesau 10

Cymunedau am Waith a'r asiantaethau sy'n ei darparu 10

Y model cyflawni 12

Targedau a Chyllidebau'r Rhaglen 14

Datblygiadau ers Cyflawni'r Gwerthusiad o Brosesau 17

3. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Cysylltiadau 20

Cyflwyniad 20

Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu 20

Cysylltiadau fesul ardal CaW 25

Cysylltiadau yn ôl grwpiau targed o gyfranogwyr 27

4. Rhwystrau, dyheadau, cymhelliant a chefnogaeth y cyfranogwyr 35

Cyflwyniad 35

Rhwystrau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant 35

Cymhelliant pobl i gysylltu â CaW 41

Y cymorth a ddarparwyd a'r gweithgareddau a gyflawnwyd 43

5. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Deilliannau 53

Cyflwyniad 53

Perfformiad yn erbyn y proffiliau a'r targedau o ran deilliannau swyddi 53

Perfformiad yn erbyn y targedau o ran cymwysterau 73

Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer symud i mewn i addysg neu hyfforddiant 75

Cynnydd yn erbyn y targedau gweithgarwch chwilio am waith 75

Y deilliannau canolradd a gyflawnwyd 75

Y deilliannau meddal a gyflawnwyd 77

6. Costau'r Rhaglen a Gwerth am Arian 81

Cyflwyniad 81
Gwariant ar y rhaglen o gymharu â'r cyllidebau 81
Dangosyddion gwerth am arian 82
7. Casgliadau ac Argymhellion 88
Cyflwyniad 88
Gweithrediad y rhaglen 89
Perfformiad y rhaglen: cysylltiadau 90
Perfformiad y rhaglen: deilliannau 95
Theori Newid y rhaglen 99
Cyfraniad y rhaglen at y Themâu Trawsbynciol 103
Effeithiau'r rhaglen a'i gwerth am arian 103

## Rhestr tablau

Tabl 2.1: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 2015-2020 .............................. 15
Tabl 2.2: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 2015-20 .................................. 16
Tabl 2.3: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 1 2015-20.................................... 16
Tabl 2.4: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 3 2015-20.................................... 17
Tabl 4.1: Nifer a chyfran y cyfranogwyr sy'n derbyn mathau penodol o gymorth/sy'n cyflawni mathau penodol o weithgarwch ........................................................ 44
Tabl 6.1: Dadansoddiad o'r costau yn ôl blaenoriaeth yn Hydref 2017 ....................... 81

## Rhestr ffigurau

Ffigur 2.1: Siwrnai'r cyfranogwyr ........................................................................... 13
Ffigur 3.1: Cyfran y cysylltiadau a broffiliwyd a gyflawnwyd yn ôl blaenoriaeth a grŵp targed ............................................................................................................. 21
Ffigur 3.2: Niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a'r proffil llinell syth ar draws oes cylch y rhaglen............................................................................................................. 22
Ffigur 3.3: Niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a phroffil recriwtio llinell syth ar draws oes y rhaglen............................................................................................................. 23
Ffigur 3.4: Dosbarthiad cyfranogwyr CaW fesul grŵp oedran ..................................... 31
Ffigur 3.5: Y gyfran o gyfranogwyr a'u cymhwyster uchaf ar bob lefel ........................ 32
Ffigur 5.1: Y gyfran o ddeilliannau swyddi a gyflawnwyd yn ôl blaenoriaeth a grŵp targed ............................................................................................................. 54

Ffigur 5.2: Nifer y deilliannau swyddi Blaenoriaeth 1 a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â’r proffil a bennwyd a’r proffil llinell syth o ran deilliannau swyddi ar draws oes y rhaglen ..... 55
Ffigur 5.3: Nifer y deilliannau swyddi Blaenoriaeth 1 a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â’r proffil a bennwyd a’r proffil llinell syth o ran deilliannau swyddi ar draws oes y rhaglen ..... 56
Ffigur 5.4: Y deilliannau swyddi a gyflawnwyd o gymharu â'r cyfraddau trosi a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes ..... 57
Ffigur 5.5: Y gyfran o gyfranogwyr sy’n symud i mewn i gyflogaeth yn ôl yr amser a dreuliwyd ar CaW ..... 61
Ffigur 5.6: Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr sy'n cyflawni deilliannau swyddi..... 62
Ffigur 5.7: Y gyfran o gyfranogwyr o grwpiau targed CaW a symudodd i mewn i gyflogaeth..... 63
Ffigur 5.8: Y gyfran o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi peri iddynt fod yn... ..... 76
Ffigur 5.9: Y gyfran o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi peri iddynt…..... 78
Ffigur 6.1: Cymhariaeth o'r gost a ragwelwyd a'r gwir gost fesul cyfranogwr ..... 84
Ffigur 6.2: Cymhariaeth o'r gost a ragwelwyd a'r gwir gost yn ôl deilliannau swyddi... 86

## Geirfa

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ALMP | Darpariaeth Marchnad Lafur Weithgar |
| BME | Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CAB | Cyngor Ar Bopeth |
| CaW | Cymunedau am Waith |
| CG | Cymunedau yn Gyntaf |
| CSCS | Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu |
| FfCChC | Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru |
| CV | Cwricwlwm Vitae |
| DBS | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| EBS | System Bwcio Electronig |
| EI | Pobl Economaidd Anweithgar |
| ESA | Lwfans Cyflogaeth a Chymorth |
| ESF | Cronfa Gymdeithasol Ewrop |
| ESOL | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill |
| UE | Undeb Ewropeaidd |
| EW | Dwyrain Cymru |
| FSF | Cronfa Gymorth Hyblyg |
| HGV | Cerbyd Nwyddau Trymion |
| IS | Cymhorthdal Incwm |
| JSA | Lwfans Ceisio Gwaith |
| JCP | Canolfan Byd Gwaith |
| CCA | Corff Cyflawni Arweiniol |
| LTU | Pobl Ddi-waith Tymor Hir |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| PaCE | Gofal Plant a Chyflogaeth i Rieni |
| SIA | Awdurdod y Diwydiant Diogelwch |
| ToC | Theori Newid |
| WEFO | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| WWV | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd |
| YEPF | Y Fframwaith Cysylltu a Datblygu Ieuenctid |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Medi 2016, penododd Llywodraeth Cymru OB3, Dateb, yr Uned Pobl a Gwaith a'r Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth i gyflawni gwerthusiad o'i menter Cymunedau am Waith (CaW), sef darpariaeth marchnad lafur weithgar (ALMP) a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

1.2 Nodau'r gwerthusiad yw:

- egluro'r theori newid ar gyfer CaW a datblygu'r model rhesymeg sydd wrth wraidd y rhaglen
- asesu sut mae'r rhaglen wedi cael ei sefydlu a sut mae'n cael ei gweithredu
- darparu syniad o effeithiolrwydd cyffredinol y rhaglen.

1.3 Cyflawnwyd y gwerthusiad mewn tri cham rhwng Hydref 2016 a Chwefror 2018. Cyhoeddwyd adroddiad Cam 1, a oedd yn pennu'r theori newid a'r model rhesymeg ar gyfer CaW ym mis Ebrill 2017, a'r adroddiad Cam 2 a oedd yn gwerthuso'r broses yn Rhagfyr 2017[1]. Hwn yw'r trydydd adroddiad, a'r olaf, ac mae'n tynnu ar y theori newid wrth asesu'r deilliannau y mae'r rhaglen wedi eu cyflawni hyd yn hyn, a'r effeithiau sy'n dechrau dod i'r amlwg.

**Y Dull**

1.4 Cyflawnwyd y rhan yma o'r rhaglen werthuso rhwng Hydref 2017 a Chwefror 2018. Roedd yn cwmpasu saith prif elfen o waith, sef:

- Arolwg o ddogfennaeth y rhaglen.
- Arolwg o ddau adroddiad ymchwil a oedd yn edrych ar y costau cyflawni a oedd ynghlwm wrth ymyraethau eraill sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus ac sy'n rhannu uchelgeisiau tebyg i CaW. Yn benodol:
    - Papur Blaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) WEFO 2007-13 a oedd yn edrych ar ymyraethau Cydgyfeiriant Blaenoriaeth

[1] Ar gael yn http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-communities-Work/?lang=en

2 a Chystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol Blaenoriaeth 1 (Cynyddu Cyflogaeth a Lleihau Anweithgarwch Economaidd) (2017)[2]

  - Arolwg o lenyddiaeth a gyflawnwyd i fwydo datblygiad y rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion (2017)[3].

- Dadansoddi'r gronfa ddata o gyfranogwyr a ddiweddarwyd yn Ionawr 2018. Mae'r gronfa ddata'n cael ei diweddaru dipyn wrth dipyn, sy'n golygu bod y cofnodion mewn perthynas â chyfranogwyr yn Nwyrain Cymru'n cael eu diweddaru rhyw fis ar ôl rhai Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gwneir hyn er mwyn lleddfu baich gwaith timau gweinyddol Llywodraeth Cymru, y Cyrff Cyflawni Arweiniol a'r Adran Gwaith a Phensiynau sydd ynghlwm wrth goladu a phrosesu'r data. O ganlyniad, adeg dadansoddi roedd y gronfa ddata'n cynnwys cofnodion am gyfranogwyr Dwyrain Cymru hyd Tachwedd 2017 ac am gyfranogwyr Gorllewin Cymru a'r Cymoedd hyd Ionawr 2018.

- Cynnal cyfweliadau ffôn â thri o randdeiliaid allanol.

- Cynnal cymysgedd o gyfweliadau wyneb yn wyneb a dros y ffôn â 14 o reolwyr gweithredol â throsolwg o CaW.

- Cyflawni pecyn o waith maes ansoddol mewn 10 o'r 52 ardal CaW. Dewiswyd y sampl o ardaloedd i gynnig cydbwysedd yn nhermau dosbarthiad daearyddol, ansawdd y gwaith partneriaeth ar lefel leol (gan ddefnyddio asesiadau Llywodraeth Cymru) a pherfformiad yn nhermau niferoedd y cyfranogwyr a gysylltwyd a'r deilliannau a gyflawnwyd ar draws y gwahanol grwpiau targed o gyfranogwyr[4]. Ni ellir dweud bod y sampl yn ystadegol gynrychiadol, ond mae'n rhoi syniad o berfformiad y rhaglen ar draws gwahanol rannau o Gymru. O fewn pob clwstwr a ddewiswyd, roedd y gwaith maes a gyflawnwyd yn cynnwys:

---

[2] Heb ei gyhoeddi adeg ysgrifennu.
[3] http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151021-review-development-new-adult-employability-programme-en.pdf
[4] Roedd y sampl a ddewiswyd yn cynnwys cymysgedd o glystyrau sy'n perfformio ar lefel uwch ac is yn fwriadol.

- dethol sampl o gyn-gyfranogwyr a chyfranogwyr cyfredol. Cafodd y samplau a ddewiswyd eu strwythuro i gynnwys:
    - cyfranogwyr yr oedd cronfa ddata'r rhaglen yn dangos eu bod wedi symud ymlaen i mewn i gyflogaeth
    - cyfranogwyr nad oeddent wedi symud ymlaen i gyflogaeth, ond yr oedd cronfa ddata'r rhaglen yn dangos eu bod wedi cyflawni deilliannau canolradd (e.e. gwella'u cyflogadwyedd, chwilio am swyddi)
    - cyfranogwyr nad oeddent wedi symud ymlaen i gyflogaeth ac na nodwyd eu bod wedi cyflawni deilliannau canolradd wrth ymadael er eu bod wedi treulio dros 6 mis gyda CaW.

- Cysylltu â chyfanswm o 336 o gyn-gyfranogwyr a chyfranogwyr cyfredol dethol i ofyn iddynt gyfrannu at y gwaith. Er mwyn annog unigolion i gysylltu â'r gwaith ymchwil, gofynnwyd i staff rheng flaen CaW gysylltu â'u cyfranogwyr (blaenorol a chyfredol) i roi sicrwydd iddynt am hygrededd y tîm ymchwil ac annog iddynt gymryd rhan.

- Cyfweld â rheolwyr cyflawni'r CCA a'r DWP. Cyfrannodd cyfanswm o 12 o unigolion at yr elfen yma o'r gwaith maes

- Siarad fesul un â staff cyflawni CaW yr oedd y cyfranogwyr dethol wedi gweithio gyda nhw. Cynhaliwyd cyfweliadau â chyfanswm o 37 o staff sy'n darparu CaW.

- Siarad â 70 o gyn-gyfranogwyr a chyfranogwyr cyfredol.

- Adolygu portffolios 60 o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau.

- Drafftio papurau gwaith mewnol ar glystyrau a chyfranogwr i ategu'r dystiolaeth a gasglwyd gan y gwahanol unigolion a gafodd eu cyfweld a phortffolios y cyfranogwyr a adolygwyd.

- Cyfosod canfyddiadau'r gwaith maes a gyflawnwyd.

1.5 Roedd y sampl o gyfranogwyr a ddewiswyd wedi ei gogwydo'n fwriadol at y rhai a oedd wedi cyflawni deilliannau o ran swyddi neu ddeilliannau canolradd, felly ni ellir ystyried ei fod yn hollol gynrychiadol o'r holl gyfranogwyr. Mae hi'n bosibl bod ffactorau eraill wedi cyflwyno elfen o duedd dethol i'r sampl o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym ni hefyd, er enghraifft:

- mae hi'n bosibl bod y rhai a oedd yn teimlo eu bod wedi elwa ar y rhaglen yn fwy tebygol o ymateb i geisiadau am gyfweliadau na'r unigolion a oedd yn teimlo nad oeddent wedi elwa cymaint

- mae hi'n bosibl y gallai'r ffaith y defnyddiwyd staff CaW i hyrwyddo cysylltiad â'r gwaith ymchwil olygu bod gan y rhai a gafodd eu cyfweld gennym ni berthnasau gwell/mwy hirsefydlog â staff CaW na'r boblogaeth gyfan

- mae hi'n bosibl y gallai unigolion na welodd fudd parhaus o'r rhaglen fod yn gyndyn i gymryd rhan.

1.6 Adeg cychwyn y gwaith ymchwil yn wreiddiol, rhagwelwyd y byddai data o'r arolwg o Gyfranogwyr yr ESF ar gael i fwydo'r rhan yma o'r gwerthusiad. Rhagwelwyd y byddai'r data o'r arolwg o Gyfranogwyr yr ESF yn darparu gwybodaeth am gymhelliant unigolion i gyfranogi, eu hanes o ran cyflogaeth cyn cysylltu, a'r ffactorau oedd yn eu rhwystro rhag cychwyn gwaith. Disgwyliwyd hefyd y byddai'n darparu rhyw syniad o'r sgiliau yr oedd cyn-gyfranogwyr wedi eu caffael (heblaw'r rhai a dystiolaethwyd trwy gymwysterau), y manteision yr oedd y cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi eu cael trwy CaW (e.e. hyder yn eu galluoedd, eglurder ynghylch eu dewisiadau), effaith ganfyddedig CaW ar gyfleoedd cyfranogwyr i ddod o hyd i waith yn y dyfodol, a gwybodaeth am amodau cyflogaeth y rhai sydd wedi dod o hyd i waith (gan gynnwys faint oedden nhw'n ei ennill).

1.7 Am y gohiriwyd lansiad Arolwg Cyfranogwyr yr ESF, nid oedd y data ar gael mewn pryd i fwydo'r adroddiad hwn. Er mwyn casglu gwybodaeth ar hyd y llinellau a ddisgrifiwyd uchod, dyluniwyd offerynnau ymchwil gyda'r nod o fwydo trafodaethau ansoddol â chyn-gyfranogwyr a chyfranogwyr cyfredol i

gynnwys elfen o gwestiynu caeedig a ddyluniwyd i efelychu'r hyn a ymgorfforwyd i Arolwg Cyfranogwyr yr ESF. Er na all data a gasglwyd yn y modd yma gymryd lle data'r arolwg (yn nhermau sylwedd, cwmpas na dibynadwyedd), fe'i defnyddiwyd i helpu i glustnodi a delweddu'r themâu a drafodir yn yr adroddiad.

**Strwythur yr adroddiad hwn**

1.8 Cyflwynir yr adroddiad hwn ar ffurf saith pennod fel a ganlyn:

- pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
- pennod dau: cyflwyniad i CaW a datblygiadau yn y rhaglen ers gwerthuso'r broses yng Ngham 2
- pennod tri: perfformiad y rhaglen hyd yn hyn - cysylltiadau
- pennod pedwar: rhwystrau, dyheadau a chymhelliant y cyfranogwyr a'r cymorth a gawsant
- pennod pump: perfformiad y rhaglen hyd yn hyn - deilliannau
- pennod chwech: costau'r rhaglen a gwerth am arian
- pennod saith: casgliadau ac argymhellion.

## 2. Cyflwyniad i Gymunedau am Waith a Datblygiadau ers cyflawni'r Gwerthusiad o Brosesau

2.1 Yn y bennod hon, rydyn yn cyflwyno trosolwg fer o CaW ac yn trafod datblygiadau a wnaed i'r rhaglen ers y gwerthusiad prosesau. Cyflwynir y bennod mewn pedair rhan fel a ganlyn:

- trosolwg o CaW a'r asiantaethau sy'n ei darparu
- y model cyflawni
- targedau a chyllidebau'r rhaglen
- datblygiadau i'r rhaglen ers y gwerthusiad o brosesau ac allbwn.

### Cymunedau am Waith a'r asiantaethau sy'n ei darparu

2.2 Ymyrraeth i'r farchnad lafur dan nawdd Llywodraeth Cymru yw Cymunedau am Waith (CaW). Ei fwriad yw gwella cyflogadwyedd a chyflogaeth y bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur. Mae'r rhaglen yn targedu tri grŵp penodol o gyfranogwyr:

- pobl dros 25 oed sy'n ddi-waith yn y tymor hir
- pobl dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar
- pobl ifanc 16-25 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET).

2.3 Y disgwyl yw y bydd y rhaglen yn cefnogi unigolion o'r grwpiau hyn sy'n wynebu rhai o'r rhwystrau canlynol rhag gweithio:

- y rhai heb fawr o sgiliau neu heb unrhyw sgiliau
- y rhai â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (gan gynnwys cam-drin sylweddau)
- y rhai sy'n dod o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (yn Nwyrain Cymru yn unig)
- y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu ofal plant
- y rhai sydd o aelwydydd heb waith.

2.4 Yn ogystal, mae'r rhaglen yn anelu at gefnogi pobol economaidd anweithgar dros 54 oed.

2.5 Ffocws CaW yw unigolion sy'n byw mewn 52 ardal, sydd rhyngddynt yn cynrychioli'r 10 y cant cymuned mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn ôl diffiniad Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011[5].

2.6 Ariennir CaW o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) 2014-20 ar gyfer Dwyrain Cymru (EW) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (WWV), a hynny o dan ddwy flaenoriaeth wahanol:

- Echel Blaenoriaeth 1: 'trechu tlodi trwy gyflogaeth gynaliadwy'. Yn fwy manwl, bwriad CaW yw mynd i'r afael ag Amcan Penodol 1.1 o fewn Rhaglen EW, ac Amcan Penodol 1.2 yn Rhaglen WWV, sef 'cynyddu cyflogadwyedd pobl economaidd anweithredol a phobl ddi-waith tymor hir sydd dros 25 oed ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth'[6] .
- Echel Blaenoriaeth 3: 'cyflogaeth ymhlith pobl ifanc' yn Rhaglen EW a 'chyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc' yn Rhaglen WWV. Yn fwy penodol, mae CaW yn ymdrechu i fynd i'r afael ag Amcan Penodol 3.1 yn y ddwy raglen, sef 'lleihau nifer y bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)'[7].

2.7 Y bwriad hefyd yw i CaW fynd i'r afael â themâu trawsbynciol yr ESF, sef cyfleoedd cyfartal a prif-ffrydio rhywiol; datblygu cynaliadwy; a threchu tlodi a dieithrwch cymdeithasol.

2.8 Llywodraeth Cymru yw 'prif fuddiolwr' CaW, tra bo'r DWP a Chyrff Darparu Arweiniol (LDBs) yn 'gyd-noddwyr', er mai'r DWP yn unig sy'n cyfrnanu arian cyfatebol. Mae CaW yn gweithredu ochr yn ochr â darpariaeth arall sy'n targedu pobl nad ydynt mewn cyflogaeth, gan gynnwys Rhaglen Waith y DWP[8] [9], rhaglen PaCE [10] y Llywodraeth, ac o Ebrill 2018, Cymunedau am Waith Plus (yr Grant Cyflogaeth gynt).

[5] Adolygwyd y Fynegai yn 2014.
[6] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru, t.95.
[7] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Weithredol Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn Nwyrain Cymru, t.95.
[8] Nid yw'r bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn gymwys i gymryd rhan yn CaW.
[9] Daeth cyfeiriadau at y Rhaglen Waith i ben yn Ebrill 2017.

2.9 Timau o gynghorwyr 'ar secondiad' o'r DWP, a staff a gyflogir gan yr 19 Corff Darparu Arweiniol (mentoriaid a gweithwyr brysbennu) sy'n darparu'r gwasanaethau ar lefel leol. Lleolir y timau lleol hyn mewn lleoliadau cymunedol, yn aml wedi eu cydleoli gyda gwasanaethau eraill, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mor hygyrch â phosibl i'r cyfranogwyr a dargedir.

**Y model cyflawni**

2.10 Mae Ffigur 2.1 isod yn cynnig trosolwg o'r siwrnai y mae disgwyl i gyfranogwyr ei dilyn trwy CaW, ac mae'r paragraffau a ganlyn yn trafod elfennau o'r siwrnai hon yn fwy manwl[11].


2.11 Rhagwelwyd y byddai CaW yn darparu gwasanaeth holistig a di-dor o gysylltiad i gyflogaeth, gan gydnabod y byddai natur a hyd y cymorth sydd ei angen i symud i mewn i gyflogaeth yn amrywio o un unigolyn i'r llall, yn dibynnu ar eu hanghenion a'u pellter o'r farchnad lafur adeg ymuno. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar anghenion y cleient ac er y gall hyn ymestyn o ymgysylltu hyd at gyflogaeth, anogir timau i gyfeirio cyfranogwyr at gefnogaeth arall lle mae hynny'n fwy priodol.

2.12 Y bwriad yw y dylai cynghorwyr, yn bennaf, weithio gyda chyfranogwyr sy'n agosach at y farchnad lafur, gan gynnig cymorth sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys 'cyfrifiadau gwell eich byd', cyfeirio cyfranogwyr at gyrsiau hyfforddiant byr, cymorth i chwilio am waith a llunio CVs/ymgeisio am swyddi.

2.13 Y disgwyl yw y bydd mentoriaid yn canolbwyntio gyfranogwyr sy'n bellach o'r farchnad lafur a sy'n wynebu rhwystrau mwy cymhleth, a all ofyn am gyfeiriadau at ymyraethau arbenigol e.e. tai, iechyd meddwl, problemau personol (hunan barch isel, rheoli dicter, cam-drin sylweddau) neu rwystrau eraill. Yn unol â hynny, bwriedir i gymorth y mentoriaid bara'n hirach na chymorth y cynghorwyr fel rheol.

[10] Nod PaCE yw symud rhieni di-waith ac economaidd anweithgar (gan gynnwys pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant) i mewn i waith. Pae PaCE yn gweithredu y tu hwnt i'r ardaloedd CaW, gan dargedu rhieni mewn achosion lle gofal plant yw'r brif rwystr i gyflogaeth.
[11] Ceir ddisgrifiad llawnach o siwrnai cyfranogwyr trwy CaW yn adroddiad Cam 2: Prosesau ac Allbwn.

## Ffigur 2.1: Siwrnai'r cyfranogwyr



2.14 Gall cyfranogwyr gyrchu rhaglenni hyfforddiant hyblyg sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu darparu'n lleol trwy ffynonellau'r brif ffrwd a/neu CG. Yn ogystal, lle nad oes dim byd priodol ar gael trwy ffynonellau cyfredol neu'r brif ffrwd, gall y cyfranogwyr, trwy eu mentor neu gynghorydd, ofyn am raglenni hyfforddiant sy'n cael eu caffael a'u rheoli'n ganolog a'u darparu gan ddarparydd argadwedig Llywodraeth Cymru yn unswydd er mwyn darparu hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr CaW.

2.15 Mae cronfa rwystrau ar gael i helpu cyfranogwyr i oresgyn y rhwystrau olaf i gyflogaeth, trwy eu galluogi i dalu am bethau fel dillad i'w gwisgo i gyfweliad neu offer i ddechrau gweithio, costau teithio neu ofal plant tymor byr.

2.16 Mae'r cyfranogwr wedi cwblhau'r rhaglen pan fydd wedi cychwyn cyflogaeth, cychwyn addysg amser-llawn, neu pan fydd yn penderfynu nad yw'n dymuno cymryd rhan mwyach. Mae yna opsiwn hefyd i gynghorwyr neu fentoriaid derfynu cysylltiad y cyfranogwr â’r rhaglen, er enghraifft os yw’n teimlo bod y rhwystrau'n rhy helaeth i'w goresgyn trwy gymorth CaW. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofynion penodol o ran am ba hyd y gall cynghorwyr a mentoriaid weithio gyda'r cyfranogwyr: yn hytrach, anghenion yr unigolyn a'i barodrwydd i gysylltu'n adeiladol sy'n bwydo hyn.

**Targedau a Chyllidebau’r Rhaglen**

2.17 Lansiwyd CaW ym mis Mai 2015, gyda'r bwriad y byddai'r rhaglen yn rhedeg tan o leiaf Mawrth 2018. Yn Ionawr 2017, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y byddai CaW yn parhau tan Fawrth 2020.

2.18 Mae Tablau 2.1 a 2.2 yn crynhoi'r targedau deilliant sylfaenol a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn y drefn honno dros oes pum mlynedd y rhaglen.

**Tabl 2.1: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 2015-2020**

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 1 | | Dwyrain Cymru[12] | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd[13] | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|
| | | 2015-20 | 2015-20 | 2015-20 |
| **Pobl Economaidd Anweithgar** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 7,540 | 22,355 | 29,895 |
| 2 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 1,317 | 3,900 | 5,217 |
| 3 | Deilliant: chwilio'n ymarferol am waith wrth ymadael | 533 | 1,588 | 2,121 |
| 4 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 1,318 | 3,906 | 5,224 |
| 5 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 1,487 | 4,400 | 5,887 |
| **Pobl ddi-waith tymor hir** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg neu hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 6 | Cyfranogwyr | 3,772 | 11,177 | 14,949 |
| 7 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 649 | 1,919 | 2,568 |
| 8 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 608 | 1,807 | 2,415 |
| 9 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 701 | 2,077 | 2,778 |
| **Cyfanswm** (dros 25 oed), nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant ac sydd â rhwystrau cymhleth i gyflogaeth | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 11,312 | 33,532 | 44,844 |
| 2 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth gan gynnwys hunangyflogaeth wrth ymadael | 1,966 | 5,819 | 7,785 |
| 3 | Deilliant: chwilio'n ymarferol am waith wrth ymadael | 533 | 1,588 | 2,121 |
| 4 | Deilliant: ennill cymhwyster neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael | 1,926 | 5,713 | 7,639 |
| 5 | Deilliant: cynyddu cyflogadwyedd trwy gwblhau lleoliad profiad gwaith neu gyfle i wirfoddoli | 2,188 | 6,477 | 8,665 |

[12] Achos Busnes dros Ymestyn Cyfnod Gweithredol CaW f2.0, t.21.
[13] Achos Busnes dros Ymestyn Cyfnod Gweithredol CaW f2.0, t.22.

**Tabl 2.2: Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 2015-20**

| Targedau Deilliant Sylfaenol Blaenoriaeth 3 | | **Dwyrain Cymru** | **Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | **Cymru Gyfan** |
|---|---|---|---|---|
| Pobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET | | | | |
| 1 | Cyfranogwyr | 1,758 | 5,679 | 7,437 |
| 2 | Deilliant: ennill cymwysterau wrth ymadael. | 343 | 1,102 | 1,445 |
| 3 | Deilliant: mewn addysg neu hyfforddiant wrth ymadael. | 169 | 917 | 1,086 |
| 4 | Deilliant: cychwyn cyflogaeth wrth ymadael. | 503 | 1,582 | 2,085 |

2.19 Mae Tablau 2.3 a 2.4 yn pennu'r cyllidebau a gymeradwywyd ar gyfer Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3, yn y drefn honno, dros oes y rhaglen CaW.

**Tabl 2.3: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 1 2015-20**

| Blaenoriaeth 1 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Cyfanswm y Costau Gweithredu | £12,798,075 | £38,584,486 | £51,382,561 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £5,915,059 | £12,438,480 | £18,353,539 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | £483,978 | £1,451,935 | £1,935,913 |
| ESF | £6,399,038 | £24,694,071 | £31,093,109 |
| Cyfradd Ymyrraeth[14] | 50% | 64% | 60% |
| Cost fesul cyfranogwr | £1,311 | £1,151 | £1,146 |
| Cost fesul cyfranogwr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth | £6,510 | £6,631 | £6,600 |

[14] Mae hyn yn ymwneud â chyfraniad ESF i gostau cymwys net y rhaglen, a fynegir fel canran.

**Tabl 2.4: Costau a Ffynonellau Cyllid Blaenoriaeth 3 2015-20**

| Blaenoriaeth 3 | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|
| Costau | | | |
| Cyfanswm y Costau Gweithredol | £4,871,978 | £14,741,289 | £19,613,267 |
| Ffynhonnell y cyllid | | | |
| Llywodraeth Cymru | £2,314,994 | £4,943,880 | £7,258,874 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | £120,995 | £362,984 | £483,979 |
| ESF | £2,435,989 | £9,434,425 | £11,870,414 |
| Cyfradd Ymyrraeth | 50% | 64% | 60% |
| Cost fesul cyfranogwr | £2,771 | £2,596 | £2,637 |
| Cost fesul cyfranogwr sy'n symud ymlaen i gyflogaeth | £9,656 | £9,318 | £9,407 |

### Datblygiadau ers Cyflawni'r Gwerthusiad o Brosesau

2.20 Er mai allbynnau a chanlyniadau'r rhaglen yw ffocws yr elfen hon o'r gwerthusiad, rydym yn trafod yma pwyntiau a wnaethpwyd gan reolwyr gweithredol a staff rheng flaen ynghylch datblygiad y rhaglen ers i'r gwerthusiad proses gael ei gwblhau.

2.21 Mae tystiolaeth i awgrymu bod y rhaglen wedi datblygu ac aeddfedu ymhellach ers i'r gwaith maes gwerthuso proses gael ei wneud. Yn benodol:

- Cyfarwyddyd Gweithredol: nododd y gwerthusiad proses bod y Cyfarwyddyd Gweithredol yn glir ac yn ddefnyddiol ar y cyfan, ond teimlai staff rheng flaen bod cyfle i adfywio agweddau yng sgil profiad. Cyhoeddwyd dogfen Cyfarwyddyd Gweithredol wedi'i diweddaru ym mis Hydref 2017 a chroesawyd hyn yn fawr iawn gan staff rheng flaen. Teimlwyd bod y ddogfen ddiwygiedig yn llawer mwy cynhwysfawr na'r rhifyn cynharach ac yn rhoi mwy o eglurder mewn nifer o feysydd allweddol.

- Dogfennaeth y rhaglen: croesawodd staff rheng flaen fod 'offeryn asesu anghenion swyddogol' wedi ei gyflwyno, er bod rhai yn cyfaddef nad oeddent eto wedi dechrau ei ddefnyddio.

- Integreiddio timau cyflawni CaW: nododd y gwerthusiad proses nad oedd timau darparu rheng flaen yn gweithio gyda'i gilydd yn gydlynol mewn nifer o ardaloedd, gyda dyraniad targedau ymgysylltu a chanlyniad ar wahân i gynghorwyr a mentoriaid yn nodwedd arbennig o ymwthiol o’r rhaglen. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi gwella yn hyn o beth, diolch i raddau helaeth i bwyslais Lywodraeth Cymru ar 'dargedau tîm' a digwyddiadau rhanddeiliaid sy'n caniatáu i ymarferwyr rannu arferion da a thrafod materion sy'n peri problemau.

- Archebu a rheoli darpariaeth hyfforddiant: cyfeiriodd y gwerthusiad proses at nifer o broblemau wrth archebu a chael mynediad at hyfforddiant gan y darparwr a gytundebwyd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant yn benodol ar gyfer cyfranogwyr CaW a PaCE. Mae system archebu electronig (EBS) bellach wedi'i sefydlu ac mae hyn yn caniatáu i staff rheng flaen weld y mathau o gyrsiau sydd ar gael, i drefnu i gyfranogwyr gymryd rhan mewn darpariaeth benodol a gweld y cynnydd a wnaed neu gymwysterau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr. Roedd staff cyflenwi rheng flaen yn teimlo bod hyn wedi bod yn gam mawr ymlaen.

- Darparu hyfforddiant: bu cynnydd yn y nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant a gaffaelir ac a rheolir yn ganolog. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn dal yn anghyson, gyda rhai ardaloedd yn derbyn gwell gwasanaeth nag eraill. Mae'r darparwr a gaffaelwyd yn parhau i weithio gyda rheolwyr CaW a thimau rheng flaen i ddod o hyd i ffyrdd o roi darpariaeth hyfforddiant hyfyw ymlaen dros Gymru gyfan, ond mae gwaith i'w wneud er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson, yn enwedig mewn ardaloedd llai poblog.

- Cau Cymunedau'n Gyntaf (CG): nododd gwerthusiad proses fod cau rhaglen CG yn destun pryder i lawer o staff CaW. Ymddengys bod lefel y

pryder ynglŷn â chau CG erbyn hyn wedi diswyddo ac mae rhai staff rheng flaen yn gweld cyfle i adeiladu ar CfW i ddatblygu pecyn integredig o gymorth cyflogadwyedd, yn dilyn cyflwyno CaW+ ym mis Ebrill 2018[15].

2.22 Mae gan Lywodraeth Cymru gofnodion cronfa ddata cynhwysfawr o fanylion y cyfranogwyr, fel sy'n ofynnol gan WEFO. Cynhelir y cofnodion hyn mewn taenlenni Excel, y fformat a ragnodir gan WEFO. O ystyried y nifer fawr a chynyddol o gyfranogwyr sy'n ymwneud â CaW, rydym yn cwestiynu ai Excel yw'r feddalwedd fwyaf priodol ar gyfer y diben hwn. Credwn fod achos dros fudo cofnodion cyfranogwyr i gronfa ddata bwrpasol ac, felly, hwyluso prosesau gwirio, normaleiddio a holi data.

[15] Bydd Cymunedau am Waith a Mwy (a gyfeirwyd ato i ddechrau fel y Grant Cyflogadwyedd) yn darparu cyllid o fis Ebrill 2018 ymlaen i sicrhau bod y seilwaith a'r mecanweithiau cefnogi lleol sy'n sail i CaW yn cael eu cadw ar ôl cau CG. Bydd hefyd yn darparu cefnogaeth fentora ychwanegol fydd wedi'i anelu at bobol nad ydynt yn gweithio, ond nad ydynt chwaith yn cyrraedd meini prawf cymhwyster CaW. Fel CaW, bydd pwyslais Cymunedau am Waith a Mwy yn ymwneud â symud unigolion tuag at waith ac, ar y cyfan, ceir fynediad at y gwasanaethau trwy broses brysbennu CaW.

# 3. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Cysylltiadau

## Cyflwyniad

3.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried i ba raddau y mae CaW wedi cysylltu'r cyfranogwyr a fwriadwyd, ac yn trafod perfformiad mewn perthynas â grwpiau penodol o gyfranogwyr. Rydyn ni'n ystyried y tebygolrwydd y bydd y rhaglen yn cyflawni ei thargedau cysylltu erbyn iddi ddod i ben ym Mawrth 2020.

3.1 Cyflwynir y bennod mewn tair adran fel a ganlyn:

- Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu
- Cysylltiadau fesul ardal CaW
- Cysylltiadau yn ôl grŵp cyfranogwyr targed/nodweddion gwarchodedig.

## Perfformiad yn erbyn y prif dargedau cysylltu

3.2 Erbyn Hydref 2017, roedd dros 12,000 o unigolion wedi cysylltu â CaW ers lansio'r rhaglen ym Mai 2015, a oedd yn cynnwys dros 2,500 yn Nwyrain Cymru a dros 9,500 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd[16] [17]. Mae Ffigur 3.1 yn dangos y gyfran o’r niferoedd a bennwyd yn y proffil cysylltu cyfranogwyr a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017, gan wahaniaethu rhwng y cyfranogwyr a gafodd eu recriwtio o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3.

*Cysylltu cyfranogwyr economaidd anweithgar*

3.3 Roedd niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr economaidd anweithgar a recriwtiwyd ar lefel o 78 y cant o'r niferoedd a broffiliwyd yn Hydref 2017. Roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd dipyn yn gadarnach nac yn Nwyrain Cymru, gydag 82 y cant o gymharu â 62 y cant.

---


[16] Pecyn Gwybodaeth Fonitro CaW, Tachwedd 2017: mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y wybodaeth reoli fisol y mae'r DWP a'r CCA yn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ac nid ydynt yn gyson â'r ffigurau diweddaraf a gyflwynwyd i WEFO trwy’r gronfa ddata o gyfranogwyr. Mae ffigurau’r gronfa ddata o gyfranogwyr yn dueddol o fod ychydig ar ei hôl hi o ran gwybodaeth reoli, ac felly nid ydynt mor gyfoes.

[17] Roedd hyn wedi cynyddu i 13,530 erbyn diwedd Chwefror 2018, er bod y ffigur yn dal i fod yn y broses o gael ei ddilysu adeg paratoi'r adroddiad hwn.

*Cysylltu pobl ddi-waith tymor hir*

3.4 Roedd niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr di-waith tymor hir a recriwtiwyd ychydig bach yn fwy cadarn o gymharu â'r proffil na'r cyfranogwyr economaidd anweithgar, ac roedd y rhain i gyfrif am 90 y cant o'r cysylltiadau a broffiliwyd erbyn Hydref 2017. Eto, roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd dipyn yn gadarnach nag yn Nwyrain Cymru, â 95 y cant o gymharu â 76 y cant.

**Ffigur 3.1: Cyfran y cysylltiadau a broffiliwyd a gyflawnwyd yn ôl blaenoriaeth a grŵp targed**




*Ffynhonnell: Pecyn Gwybodaeth Monitro CaW, Tachwedd 2017*

*Cysylltu â phobl ifanc a oedd yn NEET*


3.5 Roedd y darlun mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET) yn arbennig o galonogol am fod y cysylltiadau ar lefel o 141 y cant o'r niferoedd a broffiliwyd. Yma eto, roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd dipyn yn gadarnach nag yn Nwyrain Cymru, gyda'r niferoedd a gyflawnwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfwerth â 147 y cant o'r proffil, a'r rhai yn Nwyrain Cymru'n 121 y cant.

*Y rhagolygon o ran cyflawni targedau'r rhaglen ar gyfer 2020*

3.6 Mae'r proffiliau a bennwyd yn rhagdybio y bydd yna gynnydd mawr mewn cysylltiadau rhwng canol 2017 a diwedd y rhaglen yn 2020. Wrth asesu'r tebygolrwydd o gyflawni'r targedau cysylltu, rydyn ni'n ystyried sut y mae'r perfformiad hyd yn hyn yn cymharu â phroffil llinell syth o gysylltiadau (h.y. o ragdybio y bydd y cysylltiadau'n aros yn gyson ar draws cylch oes y rhaglen), yn ogystal â'r proffiliau. Mae hyn yn cynnig mesuriad o'r cynnydd sydd ei angen mewn cysylltiadau er mwyn cyflawni targedau 2020.

3.7 Mae Ffigur 3.2 yn dangos bod niferoedd cyffredinol y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 dipyn yn brin o'r niferoedd sydd eu hangen i gyflawni targedau cysylltu cyffredinol y rhaglen[18].

**Ffigur 3.2: Niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a'r proffil llinell syth ar draws oes cylch y rhaglen**[19]




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2018*


3.8 Roedd perfformiad yn erbyn targedau 2020 yn gadarnach yn Nwyrain Cymru ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, y rhai economaidd anweithgar a'r rhai di-waith tymor hir, er ei bod yn wannach o gymharu â'r proffil o gysylltiadau hyd yn hyn. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhwng cromlinau'r proffiliau

[18] h.y. 29,895 o unigolion economaidd anweithgar a 14,949 o bobl ddi-waith tymor hir.
[19] Mae'r ffigurau proffil ar gyfer Dwyrain Cymru rhyw 1,280 yn brin o'r targed a bennwyd yn y Cynllun Busnes (10,032 yn hytrach nag 11,312) ac mae'r ffigurau ar gyfer Gorllewin Cymru 3,532 yn brin (30,000 yn hytrach na 33,532).

cysylltu ar gyfer Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gydag ymgysylltiadau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi eu proffilio i gyflymu ar bwynt ychydig bach yn hwyrach nag yn Nwyrain Cymru.

3.9 Mae Ffigur yn dangos bod y darlun mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET) dipyn yn fwy calonogol, o ran bod y cysylltiadau hyd yn hyn yn cynrychioli 62 y cant o dargedau'r rhaglen ar gyfer 2020[20] a 123 y cant o'r niferoedd sydd eu hangen erbyn Hydref 2017 i gyflawni targed diwedd y rhaglen.

**Ffigur 3.3: Niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 a gysylltwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a phroffil recriwtio llinell syth ar draws oes y rhaglen**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2018*

3.10 Roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd dipyn yn gadarnach nag yn Nwyrain Cymru mewn perthynas â Blaenoriaeth 3, gyda'r niferoedd a gyflawnwyd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfwerth â 120 o'r cysylltiadau oedd eu hangen erbyn 2017 o gymharu ag 82 y cant yn Nwyrain Cymru.

[20] h.y. 7,437 o bobl ifanc NEET.

3.11 Er bod y niferoedd y bobl ddi-waith tymor hir ac sy'n economaidd anweithgar sy'n cysylltu â'r rhaglen yn amlwg ar ei hôl hi o ran ble mae angen iddynt fod er mwyn cyflawni targedau'r rhaglen ar gyfer 2020, roedd yna lefel o optimistiaeth ymysg rheolwyr CaW a staff cyflawni'r rheng flaen y bydd cyfradd y cysylltiadau'n cynyddu dros oes y rhaglen ac y bydd hyn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i gau'r blwch â thargedau diwedd y rhaglen. Rhoddwyd nifer o resymau am hyn:

- Gweithrediad y rhaglen: mae oedi wrth gyflwyno'r rhaglen i bob ardal wedi cyfyngu ar berfformiad hyd yn hyn. Er taw'r bwriad o'r cychwyn cynaf oedd cyflwyno CaW fesul tipyn, cymerodd mwy o amser na'r disgwyl i roi'r trefniadau ar waith mewn rhai ardaloedd. Nodwyd hefyd bod 'brand' CaW wedi cymryd amser i fwrw gwreiddiau, ond mae sefydliadau partner/asiantau cyfeirio yn fwy ymwybodol ohono ac mae llafar gwlad yn parhau i fagu momentwm fel ffynhonnell cyfeirio.

- Newidiadau i fudd-daliadau lles: mae effeithiau'r diwygiadau i fudd-daliadau, fel newidiadau i'r Credyd Trethi Plant, eisoes yn gyrru cleientiaid newydd at y timau CaW. Fel y dywedodd un o'r bobl a gafodd gyfweliad: 'pobl nad ydynt erioed wedi ein defnyddio ni o'r blaen... nawr mae rhaid iddynt am taw gwaith yw'r unig ddewis sydd ar gael iddynt'. Y disgwyliad hefyd oedd y byddai cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol yn gwneud bywyd yn 'anos o lawer' ar bobl sy'n byw ar fudd-daliadau ac y byddai'n eu gorfodi i fynd i chwilio am waith, gan wthio pobl tua CaW.

- Y disgwyl oedd y byddai yna fwy o ffocws ar CaW wrth i'r cymorth cyflogaeth a oedd yn arfer bod ar gael trwy CG ddod i ben, wrth i'r Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy ategol gael ei chyflwyno ac wrth i'r rhaglen Esgyn ddirwyn i ben. Tybiwyd hefyd y byddai mwy o ffocws ar CaW ymysg asiantaethau cyfeirio fel y Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru wrth i 'agenda cyflogadwyedd' Llywodraeth Cymru fagu momentwm.

3.12 Fodd bynnag, roedd yna gydnabyddiaeth hefyd o’r ffactorau gwrthbwysol a allai lesteirio recriwtio dros y misoedd nesaf:

- Gallai cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol wyro sylw staff rheng flaen JCP o gyfeirio cleientiaid at CaW, yn y tymor byr o leiaf.
- Cystadleuaeth am gleientiaid o du rhaglenni a phrosiectau eraill a ariennir gan yr ESF, er ei bod yn nodedig, lle'r oedd y trefniadau brysbennu'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau CaW, nad oedd hyn i’w gweld yn gymaint o fygythiad.
- Yr angen am ddirwyn y rhaglen i ben yn 2020, â'r goblygiad y bydd angen dirwyn recriwtio i ben neu gwtogi'n sylweddol arno yn ystod y flwyddyn olaf a mwy.

3.13 Diddorol yw nodi, o ystyried y pryder a nodwyd am effaith negyddol bosibl cau CG yn yr adroddiad gwerthuso prosesau, taw nifer fechan yn unig o'r cyfranogwyr a soniodd y byddai dirwyn CG i ben yn cael effaith negyddol ar recriwtio i CaW dros yr ychydig fisoedd olaf.

**Cysylltiadau fesul ardal CaW**

3.14 Mae'r prif ddarlun a gyflwynwyd uchod yn celu’r amrywiadau sylweddol a welir mewn perfformiad ar draws yr ardaloedd CaW mewn perthynas â'r proffiliau cysylltu. Gwelwyd gwahaniaethau mewn perfformiad o fewn yr ardaloedd CaW hefyd, yn nhermau cysylltu grwpiau penodol o gyfranogwyr (pobl economaidd anweithgar, pobl ddi-waith tymor hir a phobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET).

3.15 Nid oedd y gwerthusiad yn gallu clustnodi'n bendant pam fod cymaint o amrywiad. Fodd bynnag, roedd hi'n debyg bod y ffactorau sydd i'w gweld yn gysylltiedig â pherfformiad cadarn yn cynnwys:

- Timau cyflawni rheng flaen sy'n fedrus, yn brofiadol ac sydd â chysylltiadau da. Mae staff sydd wedi ymuno â'r rhaglen â phrofiad o weithio ym meysydd cyflogadwyedd neu waith ieuenctid yn gallu elwa

ar y cysylltiadau sydd ganddynt eisoes a defnyddio eu henw da i fwydo cysylltiadau CaW.

- Gallu aelodau unigol o dimau CaW i feithrin cysylltiadau â chleientiaid ac i feithrin enw da mewn cymunedau'n gyflym, gan ddenu cyfeiriadau trwy lafar gwlad.
- Perthnasau ffafriol o fewn timau CaW, sy'n hwyluso atgyfeiriadau cleient effeithiol a llwythau achos priodol (sy'n ddigonol ond y gellir eu rheoli).
- Cysylltiadau cadarn â sefydliadau partner ac yn benodol â CG, JCP a phartneriaethau'r Fframwaith Cysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) (neu gyrff cyfatebol). Mae hyn yn helpu i godi a chynnal ymwybyddiaeth am CaW mewn rhai clystyrau, ac felly'n helpu i gynhyrchu atgyfeiriadau, er bod cysylltiadau â gwahanol sefydliadau'n amrywio o ran eu cadernid, hyd yn oed ar lefel clwstwr.
- Argaeledd safleoedd allgymorth sy'n weladwy yn eu cymunedau, yn hygyrch, yn anffurfiol ac y mae'r cyfranogwyr targed yn ymddiried ynddynt.
- Dywedwyd bod gwasanaethu ardaloedd â phoblogaethau dwys yn ei gwneud yn haws ac yn llai beichus o ran amser i gyrraedd y darpar-gyfranogwyr.
- Amser i'r rhaglen fwrw gwreiddiau. Roedd nifer o'r ardaloedd yn y chwartil uchaf yn nhermau cysylltiadau wedi sefydlu'r rhaglen yn gynnar, ac roedd nifer o'r ardaloedd yn y chwartil isaf yn hwyr i lwyr weithredu'r rhaglen.

**Astudiaeth Achos – Imran**[21]

Gŵr ifanc anabl a ddaeth i'r DU fel ffoadur yn 16 oed yw Imran. Ar ôl dysgu Saesneg, aeth Imran i goleg lleol lle enillodd gymhwyster lefel 3. Ochr yn ochr â hyn, cymerodd ran mewn gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol dros elusen leol er mwyn gwella ei Saesneg a datblygu ei sgiliau rhyngbersonol a gwaith. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth Imran i gysylltiad â mentor ieuenctid a oedd yn gweithio yn y tîm gwasanaethau ieuenctid lleol ar y pryd. Datblygodd Imran

[21] Defnyddir ffugenwau yn yr holl astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn

barch mawr at y mentor ieuenctid, a daeth i feddwl amdano fel rhywun y gallai droi ato.

Ar ôl cwblhau ei gymhwyster, dechreuodd Imran chwilio am waith, gan droi at sefydliadau fel Gyrfa Cymru am gymorth. Erbyn hynny, roedd y mentor ieuenctid wedi ymadael â'r tîm gwasanaeth ieuenctid i gymryd swydd gyda CaW, ond cysylltodd Imran ag ef trwy e-bost i ofyn am eirda i ategu un o'r ceisiadau niferus yr oedd yn eu cyflwyno am swyddi.

Cafodd Imran ateb gan y mentor ieuenctid ar unwaith yn cynnig cymorth iddo yn ei ymdrechion i ddod o hyd i waith. Roedd Imran yn falch o'r cynnig, am ei fod yn teimlo bod y cymorth a gafodd gan asiantaethau eraill yn arwynebol ac yn llai na defnyddiol - 'heb fod anghwrtais, rhoeson nhw gymorth i mi fel y maen nhw... anfonwch linc at hyn a'r llall... dy'n nhw ddim yn rhoi cymorth go iawn... maen nhw'n dweud wrthych beth yw'r triciau, ond dy'n nhw ddim yn eich helpu i'w wneud e'.

Dywedodd Imran yn onest nad oedd yn rhy sicr bryd hynny sut y gallai'r mentor ieuenctid ei gynorthwyo, ond am ei fod yn gwybod o brofiad sut roedd y gweithiwr ieuenctid yn gweithredu, roedd yn ffyddiog y byddai'n gwneud ei orau glas i'w helpu. Disgrifiodd y mentor ieuenctid ddechrau gweithio gydag Imran o dan y rhaglen CaW fel 'dechrau lle'r oedden ni wedi gadael pethau'.

3.16 Fodd bynnag, nid oedd yna unrhyw berthynas amlwg i'w gweld rhwng y ffactorau hyn a pherfformiad, er enghraifft, roedd rhai clystyrau â thimau cyflawni nad oeddent wedi eu hintegreiddio'n dda yn dal i berfformio'n gadarn. Yn yr un modd, roedd cysylltiadau'n uchel mewn rhai ardaloedd a oedd â phoblogaethau llai/mewn ardaloedd gwledig.

**Cysylltiadau yn ôl grwpiau targed o gyfranogwyr**

3.17 Y tu hwnt i'r tri phrif grŵp mae CaW am eu cynorthwyo (pobl dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith tymor hir a phobl ifanc sy'n NEET), mae'r rhaglen yn targedu nifer o is-grwpiau fel a ddisgrifiwyd ym mhennod

dau. Ni chafodd unrhyw dargedau cysylltu penodol eu pennu ar gyfer yr is-grwpiau hyn, felly nid yw'n bosibl asesu cynnydd yn erbyn proffil. Fodd bynnag, yn achos rhai grwpiau, gellir cymharu'r gyfran o gyfranogwyr o bob grŵp sydd wedi eu cysylltu â'r rhaglen â'r boblogaeth ar led, ac mewn rhai achosion, â'r boblogaeth yn yr ardaloedd penodol y mae CaW yn gweithredu ynddynt hefyd.

*Rhyw*

3.18 Mae'r cydbwysedd o ddynion (48 y cant) a menywod (52 y cant) sy'n cysylltu â CaW yn gyson, i bob pwrpas, â'r boblogaeth ehangach o fewn yr ardaloedd CaW a Chymru ar led. Mae'r cydbwysedd o ddynion a menywod sy'n cyfranogi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn adlewyrchu patrwm Cymru gyfan, ond mae menywod i gyfrif am gyfran ychydig yn uwch o gyfranogwyr yn Nwyrain Cymru (55 y cant), a dynion am gyfran ychydig yn is (45 y cant).

3.19 Menywod (56 y cant) sydd i gyfrif am gyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 na dynion (44 y cant) hefyd. Mae hyn yn gyson â'r ffaith taw menywod sydd i gyfrif am 66 y cant o'r cyfranogwyr economaidd anweithgar, a byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod hyn, i ryw raddau, am fod mamau am gychwyn gwaith yn sgil cyfnod o ofalu am eu plant ifanc, â rhai cynghorwyr (Cynghorwyr Cyflogaeth i Rieni) yn cael eu neilltuo i weithio gyda rhieni'n bennaf. Mae'r gwrthwyneb yn wir yn achos Blaenoriaeth 3, lle dynion ifanc sydd i gyfrif am 54 o'r cyfranogwyr, â 46 y cant yn fenywod. Gellir priodoli'r gyfran uwch o gyfranogwyr gwrywaidd ym Mlaenoriaeth 3 yn rhannol i'r ffaith fod cyfran uwch o ddynion ifanc (16-24 oed) na menywod ifanc[22] heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, a'u bod yn chwilio am gymorth gan CaW felly. Mae hi'n bosibl hefyd bod dynion ifanc yn cael eu denu at CaW gan y posibilrwydd y gall y rhaglen eu cynorthwyo i gael yr ardystiadau gwaith sydd eu hangen arnynt am fathau penodol o swyddi e.e. yn y diwydiannau adeiladu neu ddiogelwch. Fel y gwelir yn nes ymlaen yn yr

[22] StatsCymru (Gorffennaf 2017) Mae amcangyfrifon am bobl ifanc 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yng Nghymru, yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd, a grwpiau oedran dethol yn dangos bod 12.5 y cant o ddynion ifanc 16-24 oed yn NEET o gymharu ag 8.2 y cant o fenywod ifanc.

adroddiad, mae cyfran uwch o gyfranogwyr gwrywaidd Blaenoriaeth 3 na rhai benywaidd yn llwyddo i ennill ardystiadau sy'n gysylltiedig â gwaith.

3.20 Y bwriad hefyd oedd y byddai'r rhaglen yn 'herio gwahaniaethu galwedigaethol trwy gynyddu niferoedd y menywod a'r dynion sy'n hyfforddi neu sy'n ail-hyfforddi mewn meysydd nad ydynt yn rhai traddodiadol'[23]. Nid yw cronfa ddata CaW yn darparu gwybodaeth am natur yr hyfforddiant y mae'r cyfranogwyr unigol yn ei gyflawni, ac felly nid oes modd dweud o'r gronfa ddata a yw'r cyfranogwyr yn dilyn hyfforddiant mewn meysydd traddodiadol ai peidio. Fodd bynnag, mae ein gwaith maes ansoddol yn awgrymu bod yr hyfforddiant a ddilynir, ar y cyfan, yn tueddu i ddilyn patrymau gweddol sefydlog, gyda menywod yn fwy tebygol o ddilyn hyfforddiant mewn meysydd sy'n ymwneud ag iechyd, a hynny'n aml er mwyn cael cymwysterau i wneud gwaith sy’n cyd-fynd â'u cyfrifoldebau gofal plant. Ar y llaw arall, mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddilyn hyfforddiant mewn meysydd fel adeiladu a diogelwch. Fodd bynnag, roedd yna ambell i eithriad i hyn ymysg y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau.

**Astudiaeth Achos: Helen**

Menyw yn ei thridegau â gorffennol cythryblus yw Helen. Dioddefodd trais domestig a phroblemau difrifol gyda chyffuriau, a hyd yn oed nawr, cysylltiad rhannol yn unig sydd ganddi gyda’i phlentyn. Mae hyn oll wedi cael effaith ddifrifol ar Helen, a phan ddaeth i gwrdd â'r cynghorydd CaW am y tro cyntaf, roedd hi'n dioddef o iselder dwys ac nid oedd ganddi fawr o hyder ynddi hi eu hun.

Er gwaethaf ei sefyllfa fregus dros ben, roedd gan Helen nod glir iawn - roedd hi am fod yn yrrwr Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV). Ond cyn y gallai Helen gymryd unrhyw gamau ystyrlon tuag at ei nod, roedd angen tipyn sylweddol o gymorth ei chynghorydd arni i roi trefn ar ei bywyd. Dywedodd Helen fod 'jyst cwrdd â hi [y cynghorydd] wedi fy helpu'n emosiynol... mae hi fel modryb i mi'.

[23] Cynllun Busnes WWV B1, F1.0, t.22.

Er gwaethaf ei gorffennol cythryblus, roedd Helen yn teimlo bod cynghorydd CaW wedi ei chymryd o ddifri o'r diwrnod cyntaf un, a rhoddodd hyn anogaeth i Helen i'w gwthio ei hun. Ymhen ychydig wythnosau, trefnodd y cynghorydd hyfforddiant HGV i Helen, yn ogystal â chyllid i dalu am drwydded a phrawf. Nid oedd y sefydliadau yr oedd Helen wedi bod yn gweithio gyda nhw yn y gorffennol wedi gallu ariannu gweithgarwch fel hyn, na darparu cymorth ar y lefel a gafodd gan yr ymgynghorydd.

Ar ôl llwyddo yn y prawf HGV, aeth Helen a'r cynghorydd ati i chwilio am swyddi gyrru yn yr ardal. Cafodd gynnig swydd gan gwmni oedd yn agos iawn at ei chartref ac roedd hi ar fin cychwyn yn y swydd yn fuan ar ôl i ni gyfarfod. Yn y cyfamser, roedd hi'n dilyn hyfforddiant CSCS gyda chymorth CaW er mwyn sicrhau bod ganddi'r cymwysterau priodol pe bai eu swydd gyrru HGV yn mynd â hi i safleoedd adeiladu.

Roedd Helen yn glir iawn na fyddai byth wedi gallu cychwyn gyrfa fel gyrrwr lori heblaw bod y cynghorydd mor agored i’w syniadau, a'i pharodrwydd i helpu Helen i ddod o hyd i ffordd o wireddu ei huchelgais digon anarferol.


*Oedran*

3.21 Mae Ffigur 3.5 yn dangos dosbarthiad oedran holl gyfranogwyr CaW ar draws Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3 yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n dangos bod pobl ifanc i gyfrif am gyfran uwch o'r cyfranogwyr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd nac yn Nwyrain Cymru (fel y mae'r gyfran uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ei ddangos), a bod pobl 25 i 54 oed i gyfrif am gyfran uwch o gyfranogwyr yn Nwyrain Cymru. Pobl dros 54 oed sydd i gyfrif am wyth y cant o holl gyfranogwyr CaW. O ystyried bod hwn yn darged penodol ymysg y cyfranogwyr economaidd anweithgar, mae'r lefel yma o gysylltiad rhywfaint yn is nag y gellid ei ddisgwyl o feddwl taw pobl 50 i 64 oed sydd i gyfrif am 31 o'r holl bobl economaidd anweithgar yng Nghymru[24].

[24] StatsCymru, Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth / Arolwg o'r Llafurlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd, Ionawr 2017.

3.22 Yn wir, mae cyfranogwyr economaidd anweithgar i gyfrif am gyfran lai o gyfranogwyr dros 54 oed na'r cyfranogwyr di-waith tymor hir, ar lefel o 44 y cant o gymharu â 56 y cant o'r holl gyfranogwyr yn y grŵp oedran yna. Unigolion economaidd anweithgar sydd i gyfrif am y mwyafrif llethol o'r cyfranogwyr 25 i 44 oed, fodd bynnag, tra bod cyfranogwyr di-waith tymor hir i gyfrif am fwyafrif bychan o'r holl gyfranogwyr dros 45 oed.

**Ffigur 3.4: Dosbarthiad cyfranogwyr CaW fesul grŵp oedran**




*Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata o Gyfranogwyr: Chwefror 2018*

3.23 O dan y pennawd proffiliau oedran cyfranogwyr, mae yna ambell i wahaniaeth nodedig o ran dosbarthiad oedran dynion a menywod. Dynion sydd i gyfrif am gyfran uwch o'r cyfranogwyr 16-24 oed (fel y trafodwyd eisoes ym mharagraff 3.17), tra bod menywod i gyfrif am gyfran uwch o'r cyfranogwyr 25 i 44 oed. Drwyddi draw, mae menywod 25 i 44 oed i gyfrif am 59 y cant o'r holl fenywod sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, o gymharu â 39 y cant o'r holl gyfranogwyr gwrywaidd. Mae'r ffigur hwn yn codi i 68 y cant o'r holl gyfranogwyr benywaidd yn Nwyrain Cymru. Mae hi'n ddigon posibl bod hyn, ynghyd â'r crynhoad o gyfranogwyr economaidd anweithgar yn y grwpiau oedran 25-34 oed, yn adlewyrchu llwyddiant y rhaglen wrth gysylltu mamau economaidd anweithgar y mae eu plant yn nesáu at oedran ysgol.


*Prinder neu ddiffyg sgiliau*

3.24 Wrth gydnabod nad yw'r ddau beth yn cyd-fynd bob tro, mae diffyg cymwysterau wedi cael ei fabwysiadu fel mesur procsi am ddiffyg sgiliau ymysg y rhai sy'n cysylltu â'r rhaglen CaW. Ar y sail yma, at ddibenion CaW derbynnir 'na fyddai gan berson â lefel isel o sgiliau gymhwyster uwch na lefel 2 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW)[25].

3.25 Mae Ffigur 3.4 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr sydd â chymhwyster uchaf ar bob lefel. Mae'n dangos nad oedd gan 86 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 unrhyw gymhwyster dros lefel 2, ac felly yn ôl y diffiniad a fabwysiadwyd ar gyfer CaW, ystyrir bod ganddynt lefel isel o sgiliau. Roedd gan gyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr economaidd anweithgar na'r rhai di-waith tymor hir gymwysterau dros lefel 2.

3.26 Daeth darlun tebyg i'r amlwg mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 3, ag 87 y cant ohonynt heb unrhyw gymwysterau dros lefel 2. Fodd bynnag, roedd gan gyfran ychydig bach yn uwch o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 na rhai Blaenoriaeth 1 gymwysterau ar lefel 2.

**Ffigur 3.5: Y gyfran o gyfranogwyr a'u cymhwyster uchaf ar bob lefel**




*Ffynhonnell: Cronfa ddata CaW, Chwefror 2018*

[25] Canllawiau Gweithredol CaW (2017) t.42.

3.27 Ar y cyfan, roedd menywod ychydig bach yn fwy tebygol na dynion o feddu ar gymwysterau ar lefel 2 neu'n uwch.

*Salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio*

3.28 Mae'r gyfran o gyfranogwyr CaW sydd â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio (26 y cant) yn uwch na'r boblogaeth ar led (17 y cant)[26], ond nid yw'r gwahaniaeth (naw pwynt canrannol) mor fawr ag y gellid ei ddisgwyl o ystyried bod ffocws CaW ar unigolion economaidd anweithgar.

3.29 Wrth edrych tua'r dyfodol, gallai cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol arwain at gynnydd yn nifer hawlwyr yr ESA sy'n chwilio am gymorth i'w paratoi ar gyfer y byd gwaith.

*Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig*

3.30 Nod penodol y rhaglen yw 'cydweithio'n agos â chymunedau BME i oresgyn rhwystrau i gyfleoedd am hyfforddiant neu gyflogaeth'[27]. Mae'r cynllun busnes yn nodi y bydd y rhaglen yn gweithredu mewn pump o'r ardaloedd â'r dwysedd uchaf o ran trigolion BME yng Nghymru, felly mae'n rhesymol tybio y dylai CaW ddenu niferoedd anghyfartal o uchel o gyfranogwyr o gefndiroedd BME. Dyma oedd yr achos yn Nwyrain Cymru, lle mae 19 y cant o'r cyfranogwyr yn hanu o gefndiroedd BME, sy'n uwch o dipyn na'r gynrychiolaeth o bobl BME o fewn poblogaeth ehangach Dwyrain Cymru (8 y cant[28]). Bu perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig yn is, gyda 2 y cant o'r cyfranogwyr yn hanu o gefndiroedd BME, o gymharu â 3 y cant[29] ar draws poblogaeth ehangach y rhanbarth.

*Cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant*

3.31 Drwyddi draw, roedd gan 37 y cant o'r cyfranogwyr gyfrifoldebau gofalu neu ofal plant adeg ymuno â CaW, ac roedd y mwyafrif llethol (96 y cant) o'r rheiny'n brif ofalwyr plant o dan 18 oed.  Fodd bynnag, roedd yna wahaniaeth mawr yn y gyfran o gyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd â chyfrifoldebau

---

[26] Gan ddefnyddio'r categori 'cyfyngu ar waith yn unig' a'r categori "DDA ac anabledd sy'n cyfyngu ar waith".
[27] Cynllun Busnes WWV B1 V1.0, t.21.
[28] Stats Cymru, Arolwg o'r Gweithlu Lleol/Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: Ethnigrwydd yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, Ionawr 2017.
[29] Ibid.

gofalu, gyda 60 y cant o'r cyfranogwyr benywaidd yn nodi bod ganddynt gyfrifoldebau gofalu o gymharu â chwta 13 y cant o ddynion. Roedd y gyfran o fenywod â chyfrifoldebau gofalu ychydig bach yn uwch yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

*Aelwydydd heb waith*

3.32 Drwyddi draw, roedd 69 y cant o'r cyfranogwyr yn byw mewn aelwydydd heb waith, er bod y gyfran hon rhywfaint yn uwch ymhlith y menywod na'r dynion ar lefel o 73 y cant o gymharu â 63 y cant. Roedd y cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd yn Nwyrain Cymru ychydig bach yn fwy tebygol o fyw ar aelwydydd heb waith na'r rhai yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

# 4. Rhwystrau, dyheadau, cymhelliant a chefnogaeth y cyfranogwyr

## Cyflwyniad

4.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n trafod y gwahanol fathau o rwystrau a oedd yn wynebu'r cyfranogwyr, a'u perthynas â chymhelliant a dyheadau'r cyfranogwyr. Wedyn rydyn ni'n edrych ar wahanol fathau o gymorth a ddarperir a pha mor effeithiol yr oedd y cymorth hwn wrth fynd i'r afael â rhwystrau ac wrth alluogi'r cyfranogwyr i wireddu eu dyheadau o ran cyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant.

4.2 Cyflwynir y bennod mewn tair adran fel a ganlyn:

- Rhwystrau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant
- Cymhelliant a dyheadau'r cyfranogwyr
- Y cymorth a ddarperir a'r gweithgareddau a gyflawnir.

## Rhwystrau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant

4.3 Nododd y Theori Newid a oedd yn sail i raglen CaW amrywiaeth o rwystrau i waith a allai wynebu'r cyfranogwyr, gan gynnwys:

*Rhwystrau o ran sefyllfa neu rwystrau anuniongyrchol fel:*

- cyfrifoldebau gofal plant
- rhwystrau o ran cludiant
- diffyg cymwysterau
- diffyg sgiliau sylfaenol a hanfodol
- diffyg sgiliau effeithiol i chwilio am waith ac ymgeisio am waith
- cam-drin cyffuriau ac alcohol
- anableddau corfforol

*Rhwystrau seicolegol neu uniongyrchol fel:*

- problemau iechyd meddwl
- diffyg hyder/hunan-barch
- diweithdra sydd wedi ymwreiddio a dibyniaeth ar fudd-daliadau
- disgwyliadau afrealistaidd
- diffyg gobaith a dyheadau.

4.4 Mae ein gwaith maes ansoddol (yn ystod y gwerthusiad o brosesau yng ngham dau, a'r gwerthusiad o ddeilliannau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg yng ngham 3) wedi dangos bod y rhwystrau y mae'r cyfranogwyr yn eu hwynebu yn amrywio'n sylweddol ac maent yn aml yn lluosog, sy'n adlewyrchu holl amrywiaeth yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

4.5 Er bod angen trin y wybodaeth a gasglwyd yn ystod ein gwaith maes ansoddol â rhywfaint o bwyll o ystyried nad yw'n gadarn yn ystadegol, mae'n awgrymu bod y rhwystrau yn aml yn rhyng-gysylltiedig. Maent yn pwyntio hefyd ar rai gwahaniaethau o ran i ba raddau y mae mathau penodol o rwystrau yn effeithio ar ddynion a menywod. Er enghraifft, roedd y menywod a gafodd eu cyfweld gennym ni'n fwy tebygol o fod wedi bod â chyfrifoldebau gofalu ac, yn gysylltiedig â hynny o bosibl, nid oedd ganddynt brofiad gwaith perthnasol neu ddiweddar. Roedd lefelau isel o hunanhyder yn amlycach ymysg menywod hefyd, yn yr un modd â phroblemau sy'n gysylltiedig ag iselder a gorbryder, gan gynnwys pryderon am arian, ac o ran a fyddai gwaith yn talu digon i wneud iawn am golli eu budd-daliadau.

4.6 Ar y llaw arall, roedd y dynion a gafodd eu cyfweld gennym ni i'w gweld yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau o ran eu sefyllfa fel diffyg cludiant i'r gwaith, bod yn gyfyngedig o ran eu dewisiadau gwaith oherwydd anhwylderau iechyd corfforol, a diffyg achrediad neu drwyddedau angenrheidiol i gyflawni swyddi penodol. Wrth gwrs, mae hi'n bosibl bod dynion yn wynebu rhwystrau mwy meddal hefyd, ond roeddent yn fwy cyndyn i ddatgelu diffyg hyder neu broblemau iechyd meddwl, er enghraifft. Mae'r deunyddiau ehangach yn tystio

i hyn, gan ddangos bod dynion sy'n dioddef problemau iechyd meddwl yn llai tebygol o geisio cymorth meddygol[30]

*Rhwystrau o ran sefyllfa neu rwystrau anuniongyrchol*

4.7 Ymysg y rhwystrau mwyaf cyffredin yr oedd y bobl a gafodd eu cyfweld gennym ni yn eu hwynebu roedd y rhwystrau ymarferol iawn ('o ran sefyllfa') o ran bod â chyfrifoldebau gofalu (gofal plant gan fwyaf) a diffyg cludiant (cyhoeddus a phreifat) a fyddai'n galluogi'r cyfranogwyr i gyrchu'r swyddi sydd ar gael.

*Cyfrifoldebau gofalu*

4.8 Roedd mwy na thraean (38 y cant) o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym ni yn ystod drydedd ran y gwerthusiad yn teimlo bod cyfrifoldebau gofalu'n rhwystr i waith. Mae hynny'n gyfran is na'r 47 y cant o'r holl gyfranogwyr CaW sydd â chyfrifoldebau gofalu.

4.9 Roedd y mwyafrif (41 neu 59 y cant) o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym ni a oedd yn gweld cyfrifoldebau gofalu fel rhwystr i waith yn fenywaidd, a bron i ddau draean o'r rheiny’n famau sengl (26). Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn y grŵp yma am ddod o hyd i waith a fyddai'n caniatáu iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau gofal plant, er bod nifer ohonynt yn glir nad oeddent wir yn bwriadu gweithio nes i'w plentyn ifancaf ddechrau ysgol. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu gosod plant ifanc gyda darparwyr gofal plant neu nid oeddent yn fodlon gwneud hynny, a’u bod am ofalu am eu plant eu hunain yn hytrach.

*Cludiant*

4.10 Roedd ychydig yn llai na thraean o'r cyfranogwyr a ddaeth i'n rhan yn teimlo bod diffyg cludiant yn rhwystr i gyflogaeth. Roedd dynion (62 y cant) yn sylweddol fwy tebygol o weld diffyg cludiant fel rhwystr na menywod (18 y cant), ac mae'n bosibl bod hynny'n adlewyrchu natur y gwaith roedd dynion a menywod yn dyheu i'w gyflawni. Hwyrach nad yw'n syndod bod rhwystrau o

[30] Gweler, er enghraifft, https://www.mentalhealth.org.uk/news/survey-people-lived-experience-mental-health-problems-reveals-men-less-likely-seek-medical

ran cludiant a theithio yn fwy cyffredin ymysg cyfranogwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwy anghysbell a llai poblog.

**Astudiaeth Achos: Gareth**

Dyn sengl yn ei bumdegau canol yw Gareth, ac mae'n byw mewn ardal cymharol wledig. Nid yw'n gyrru ac mae'n dibynnu ar gludiant cyhoeddus, sy'n gyfyngedig yn ei ardal.

Treuliodd Gareth ei yrfa gynnar yn gwasanaethu yn y lluoedd, ond ers hynny mae e wedi treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio mewn diwydiant ac ar safleoedd adeiladu. Mae'r gwaith wedi dod yn gynyddol fyrhoedlog mewn blynyddoedd diweddar, ac roedd Gareth wedi bod yn ddi-waith am ryw 18 mis pan gyfeiriodd JCP e at CaW. Roedd Gareth wedi ymgeisio am nifer o swyddi adeiladu a diogelwch yn ei ardal leol, ond roedd wedi bod yn aflwyddiannus am nad oedd cludiant annibynnol ganddo. Yn ei hanfod, nid oedd modd iddo gyrraedd y swyddi a oedd ar gael ar gludiant cyhoeddus h.y. nid oedd modd iddo gyrraedd y safleoedd gwaith mewn pryd ar y bws, neu roedd gofyn iddo yrru rhwng safleoedd i wneud y gwaith.

4.11 Mewn rhai achosion, roedd canfyddiadau’r cyfranogwyr eu bod yn wynebu rhwystrau o ran cludiant yn cyd-fynd â’r safbwynt nad oedd unrhyw gyfleoedd addas am swyddi ar gael yn lleol.

*Cymwysterau, sgiliau a phrofiad*

4.12 Roedd diffyg profiad gwaith perthnasol neu ddiweddar yn rhwystr cyffredin i waith ymysg y bobl a gafodd eu cyfweld gennym, a hefyd diffyg cymwysterau perthnasol neu'r achrediad/trwyddedau sydd eu hangen i gyrchu rhai swyddi e.e. cardiau'r Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) a thrwyddedau Awdurdod y Diwydiant Adeiladu (SIA).

4.13 Roedd nifer o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym o gefndiroedd BME ac nid oedd ganddynt fawr o sgiliau iaith Saesneg. Yn achos cyfranogwyr BME yn gyffredinol, dadleuwyd bod y 'rhwystr iaith yn beth anferth' sy'n cael ei

ddwysáu gan y ffaith fod darpariaeth ESOL yn aml wedi ei orlethu ac nid yw'n ddigon dwys i ganiatáu i ddysgwyr gaffael sgiliau iaith Saesneg yn gyflym.

*Salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio*

4.14 Nododd chwarter o'r cyfranogwyr a ddaeth i'n rhan bod ganddynt salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Roedd y rhain yn amrywio o anhwylderau corfforol fel llid y cymalau a namau ar y golwg i broblemau iechyd meddwl lefel isel fel gorbryder. Roedd gan gyfran ychydig bach yn uwch o'r dynion na'r menywod salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, ac yn arbennig o ran anhwylderau iechyd corfforol.

4.15 Roedd gan nifer fechan o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym rwystrau sy'n gysylltiedig â cham-drin cyffuriau a/neu alcohol, er yn y mwyafrif o achosion roeddent wedi rhoi'r problemau hyn y tu cefn iddynt. Mewn ambell i achos, roedd staff CaW yn rhagweithiol wrth annog y cyfranogwyr yr oeddent yn eu cyfeirio am hyfforddiant i ymatal rhag defnyddio cyffuriau pleser, o leiaf yn ystod cyfnod yr hyfforddiant.

*Rhwystrau uniongyrchol (sgiliau cymdeithasol ac emosiynol ac iechyd meddwl)*

4.16 Roedd y rhwystrau mwy meddal a glustnodwyd gan y cyfranogwyr a staff cyflawni CaW a gafodd eu cyfweld gennym , ac a nodwyd ym mhortffolios y cyfranogwyr, yn cynnwys diffyg hunanhyder a phroblemau iechyd meddwl, ac yn fwyaf cyffredin deimladau o orbryder a/neu iselder.

*Cymhelliant a dyheadau'r cyfranogwyr*

4.17 Er bod yr holl gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym i'w gweld â diddordeb mewn dod hyd i waith wrth ymuno â CaW, roedd hi'n amlwg bod lefelau cymhelliant y cyfranogwyr yn amrywio o un unigolyn i'r llall. Mewn rhai achosion roedd cymhelliant yn gysylltiedig â rhwystrau. Yn aml, roedd y rhai a oedd yn teimlo eu bod yn wynebu rhwystrau llethol yn brin o gymhelliant neu'n ddiobaith. Yn gyferbyniol, roedd y canfyddiad bod modd goresgyn rhwystrau yn cynyddu cymhelliant.

4.18 Mae CaW yn gallu helpu cyfranogwyr i oresgyn rhai rhwystrau yn haws nag eraill. Er enghraifft, gall dalu am yr hyfforddiant, yr offer neu'r dillad sydd eu hangen ar gyfer y gwaith. Fodd bynnag, er mwyn goresgyn rhwystrau eraill rhaid i'r cyfranogwyr ddeall natur y rhwystrau sy'n eu hwynebu a dangos ymroddiad sylweddol i'w goresgyn. Mae esiamplau o hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol er mwyn goresgyn gorbryder cymdeithasol ac ennill profiad, neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrchu swyddi.

4.19 Mewn achosion eraill, nid oedd modd goresgyn y rhwystrau a oedd yn wynebu pobl yn y tymor byr, ond hyd yn oed yn yr achosion hyn, roedd yna dystiolaeth i awgrymu hwyrach bod cymryd rhan yn CaW wedi gosod y sylfeini i'r cyfranogwyr symud ymlaen i waith yn ddiweddarach.

**Astudiaeth Achos: Ellen**

Mam sengl yn ei hugeiniau hwyr yw Ellen. Er iddi wneud yn dda yn yr ysgol, gadawodd Ellen y brifysgol heb gwblhau ei chwrs ei gradd, a ffeindiodd ei hun yn symud yn ddibwrpas o un swydd dros dro i'r llall, cyn mynd yn feichiog ganol ei hugeiniau. Pan ganed babi Ellen, dechreuodd hawlio Cymhorthdal Incwm.

Cafodd Ellen ei chyfeirio at CaW trwy'r JCP, ond nid oedd yn gweld unrhyw ragolygon realistaidd o gychwyn cyflogaeth bryd hynny oherwydd ei chyfrifoldebau gofal plant. Fodd bynnag, siaradodd y cynghorydd CaW ag Ellen am y posibilrwydd o baratoi ar gyfer adeg pan na fyddai'n gymwys i gael Cymhorthdal Incwm ar ôl i'w phlentyn droi'n bump oed.

Ar ôl trafod ei diddordebau gyda'r cynghorydd, penderfynodd Ellen gychwyn cwrs Cyflogadwyedd Lefel 1 a Thystysgrif Gofal Plant, a oedd yn cynnwys treulio un diwrnod yr wythnos yn ennill profiad gwaith mewn ysgol leol. Trefnodd y cynghorydd gymorth i dalu costau gofal plant Ellen trwy CaW er mwyn iddi gyflawni'r profiad gwaith.

Roedd Ellen wrth ei bodd ar y cwrs a chafodd ei hysbrydoli i gofrestru ar gwrs

gradd rhan amser (ar sail ei chymwysterau blaenorol). Cyflawnodd y cynghorydd gyfrifiad gwell eich byd ar gyfer Ellen a ddangosodd y byddai ar ei hennill o godi cymorth ariannol i fyfyrwyr yn hytrach na Chymhorthdal Incwm.

Mae Ellen yn dal i weithio tuag at ei gradd ac mae'n rhagweld y bydd yn symud i mewn i waith pan fydd ei phlentyn yn dechrau yn yr ysgol.

4.20 Mewn llawer o achosion, roedd ymroddiad y cyfranogwyr i ddod o hyd i waith yn amodol, ac ar y cyfan roedd yr amodau'n cysylltu'n ddigon agos â'r rhwystrau a nodwyd. Er enghraifft, roedd rhai unigolion yn awyddus i ddod o hyd i waith a fyddai'n cyd-fynd â'u cyfrifoldebau gofal plant, neu i ddod o hyd i fathau penodol o swyddi. Felly roedd ffocws eu cymhelliant i ddod o hyd i waith yn ddigon cul, ac roedd hyn yn cyfyngu ar eu hopsiynau. Lle nad oedd modd dileu'r rhwystrau, fel cyfrifoldebau gofal plant, yr her i'r cynghorwyr/ mentoriaid oedd newid dyheadau'r cyfranogwyr fel bod modd eu cyflawni er gwaetha'r rhwystrau'r oeddent yn eu hwynebu.

4.21 Ar y cyfan, (ac fel y gellid ei ddisgwyl) roedd y gwaith maes yn awgrymu rhyw lefel o gysylltiad rhwng cymhelliant y cyfranogwyr i ddod o hyd i waith a chyflawni deilliannau o ran swyddi. Yn wir, nododd y staff sy'n darparu'r rhaglen mewn dau glwstwr eu bod yn gallu dweud yn amlach na pheidio pa gleientiaid oedd fwyaf a lleiaf tebygol o symud i mewn i swyddi 'ar unwaith', am fod rhai sydd fwyaf tebygol o ddatblygu'n fwy brwd ar y cyfan, bod ganddynt syniad clir am beth maent am ei wneud, a'u bod wedi cyflawni rhywfaint o waith ymchwil i'w swyddi targed cyn cychwyn. Yn gyferbyniol, mae'r rhai sydd lleiaf tebygol o ddatblygu'n aml yn llai ymwybodol o'r rhwystrau sydd o'u blaenau a/neu mae ganddynt ddisgwyliadau afrealstaidd.

### Cymhelliant pobl i gysylltu â CaW

4.22 Daeth effaith y diwygiadau a'r amodau newydd ar fudd-daliadau[31] i'r amlwg fel ffactor bwysig sy'n dylanwadu ar gysylltiad â CaW. Roedd rhai o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym wedi cael eu sbarduno i gysylltu â CaW yn wreiddiol oherwydd newidiadau yn eu hawl i fudd-daliadau. Ymysg yr

[31] Mae cyfranogaeth yn CaW yn hollol wirfoddol, er y gall cyfranogwyr ddweud eu bod yn cymryd rhan yn rhan o'u hymrwymiad fel hawliwr.

esiamplau roedd cael eu trosglwyddo o Gymhorthdal Incwm i JSA wrth i'w plentyn ifancaf droi'n bump oed, neu gael gwybod eu bod yn debygol o drosglwyddo o ESA i JSA. Nododd y staff a oedd yn darparu’r rhaglen mewn rhai clystyrau eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y mamau a oedd yn cysylltu â'r rhaglen yn sgil newidiadau o ran cymhwyster i gael Credyd Trethi Plant hefyd.

4.23 Gallai effaith y toriadau a'r amodau o ran budd-daliadau ar gymhelliant y cyfranogwyr fod yn ddeublyg. I rai, roedd hi wedi bod yn 'sbardun go iawn' i gymell pobl i gysylltu â CaW am 'nad oedden nhw am seinio ar y dôl' neu am nad oeddent am gael eu 'cosbi' gan JCP. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg, ar ôl i unigolion gychwyn gyda CaW, bod unigolion yn y categori hwn yn aml yn cysylltu'n frwd ac yn ffeindio'u hunain yn datblygu gwir awydd i ddod o hyd i waith. Ar ben arall y sbectrwm fodd bynnag, roedd yna rywfaint o amheuaeth ar ran rhai o'r cynghorwyr a mentoriaid a siaradodd â ni am gymhelliant rhai o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau dros gysylltu â CaW. Dywedodd y staff bod rhai o'r bobl a oedd yn cychwyn ar y rhaglen 'wedi bod rownd y bloc gyda’r rhaglenni cyflogadwyedd o'r blaen' a'u bod yn mynd ati fel mater o drefn, gan gysylltu â rhai gweithgareddau heb unrhyw wir fwriad o symud ymlaen i'r byd gwaith; gan wneud hyn 'dim ond i gael y bobl budd-daliadau oddi ar eu cefnau'.

4.24 Dywedodd y staff sy’n darparu’r rhaglen mewn un ardal yn blwmp ac yn blaen bod yna elfen o ‘flocio gwelyau’ yn digwydd, o ran eu bod nhw'n teimlo bod rhwymedigaeth foesol arnynt weithiau i ddal ati i weithio gyda rhai cleientiaid sydd heb fawr o ragolygon realistaidd o symud ymlaen i waith cyflogedig. Fodd bynnag, roedd yna awgrym cryf bod hyn yn llai o broblem nawr nag yr oedd yn nyddiau cynnar y rhaglen, am fod beichiau gwaith cynyddol y cynghorwyr a'r mentoriaid yn eu gorfodi i fod yn fwy detholgar.

**Astudiaeth Achos: Susan**

Menyw ganol oed yw Susan sy'n byw ar aelwyd heb waith. Bu'n gweithio rhai blynyddoedd yn ôl, ond rhoddodd y gorau i'w swydd i ofalu am berthynas oedrannus. Mae Susan yn dioddef o iselder, a dros y blynyddoedd mae hi wedi ei chael hi'n anodd gwneud rhyw lawer, ac mae hi wedi dod yn fwyfwy tawedog ac ansicr o'i hun.

Cysylltodd Susan â CaW gyda syniad bras o ddod o hyd i swydd gofalu ran-amser, am ei bod hi'n teimlo y byddai hyn yn caniatáu iddi ddefnyddio'r sgiliau sydd ganddi ac y byddai'n rhoi teimlad o bwrpas iddi. Ers hynny, mae hi wedi bod yn cwrdd â chynghorydd pob rhyw bythefnos i 'drafod problemau personol' ac opsiynau posibl. Dywedodd Susan fod y cynghorydd 'yn deall heb feirniadu'.

Gyda chymorth y cynghorydd, gwnaeth Susan gais llwyddiannus am waith gyda darparwr gofal, ond nid oedd hi'n teimlo bod modd iddi dderbyn y swydd am amryw o resymau a oedd yn gysylltiedig â'i hiechyd meddwl.

Yn fwy diweddar, mae Susan wedi dechrau gwirfoddoli mewn cyfleuster yn y gymuned ychydig ddyddiau'r wythnos. Mae hi'n mwynhau'r gwaith, a chyn bwysiced â hynny, mae'n mwynhau rhyngweithio â phobl eraill.

Dywedodd y cynghorydd yn onest, oherwydd y rhwystrau cymhleth sy'n wynebu Susan, 'ei bod hi'n debygol na fydd hi'n cael swydd' yn y dyfodol rhagweladwy, ond roedd y cynghorydd yn gyndyn i 'droi cefn arni'. Dywedodd y cynghorydd bod 'dod i 'ngweld i a gwneud y gwaith gwirfoddol yn rhoi cyfle iddi fynd allan o'r tŷ ... alla'i ddim â jyst troi cefn arni'.

**Y cymorth a ddarparwyd a'r gweithgareddau a gyflawnwyd**

4.25 Mae Tabl 4.1 yn dangos y mathau o gymorth a gweithgareddau y mae'r cyfranogwyr o fewn ein sampl yn eu derbyn/cyflawni amlaf. Mae'n dangos taw'r cymorth oeddent yn ei gael gan eu cynghorwyr/mentoriaid oedd wrth graidd rhaglen CaW i'r mwyafrif o'r cyfranogwyr, gyda rhwng hanner a dau draean yn cael cymorth personol dwys, cymorth i ddatblygu eu CVs a chymorth personol i chwilio am waith.

**Tabl 4.1: Nifer a chyfran y cyfranogwyr sy'n derbyn mathau penodol o gymorth/sy'n cyflawni mathau penodol o weithgarwch**

| | Nifer y cyfranogwyr | Cyfran y cyfranogwyr |
|---|---|---|
| Llunio CV | 45 | 64% |
| Cymorth personol i chwilio am waith | 44 | 63% |
| Cymorth personol dwys | 42 | 60% |
| Hyfforddiant galwedigaethol | 38 | 54% |
| Gwirfoddoli/profiad gwaith | 25 | 36% |
| Paratoi am gyfweliad | 22 | 31% |
| Cymorth gyda materion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith | 21 | 30% |
| Cyfrifiadau gwell eich byd | 16 | 23% |
| Hyfforddiant cymell/magu hyder | 13 | 19% |
| Y Gronfa Rwystrau | 10 | 14% |
| Gofal plant i hwyluso cyfranogiad mewn gweithgareddau CaW | 5 | 7% |
| Pawb | 70 | |

*Ffynhonnell: OB3 Sampl o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym ni*

*Cymorth personol*

4.26 Yn nodweddiadol, roedd y berthynas bersonol/'ddynol' yr oedd gan y cyfranogwyr â'r cynghorwyr/mentoriaid wrth galon y cymorth a ddarparwyd. Roedd perthnasau o'r fath:

- yn caniatáu i'r cynghorwyr/mentoriaid ddod i adnabod a deall dyheadau'r cyfranogwyr mewn perthynas â chyflogaeth, addysg a/neu hyfforddiant a'r rhwystrau oedd yn eu hwynebu a oedd yn eu hatal rhag gwireddu'r rhain eu hunain
- yn galluogi'r cynghorwyr/mentoriaid i feithrin yr ymddiriedaeth a'r hyder angenrheidiol yn y cyfranogwyr i'w galluogi i'w cynghori, eu cynorthwyo, hwyluso cysylltiadau â gwasanaethau cymorth a hyfforddiant, a lle bo'n briodol, eu herio

- yn annog y cyfranogwyr i gysylltu â'r cynghorwyr/mentoriaid mewn ffordd agored a pharchus.

4.27 Er ei bod hi'n ddigon bosibl bod yna gysylltiadau rhwng cymorth o'r math yma a darpariaeth y brif ffrwd sydd ar gael gan JCP, gwelwyd dwyster a hyblygrwydd y cymorth sydd ar gael gan CaW fel mantais benodol dros ddarpariaeth y brif ffrwd. Roedd y cyfranogwyr wir yn gwerthfawrogi'r cymorth yr oedd y cynghorwyr/mentoriaid yn ei gynnig, a bron yn ddieithriad, dywedodd cyfranogwyr oedd â phrofiad o JCP bod yr amser yr oedd cynghorwyr/mentoriaid CaW yn gallu ei neilltuo iddynt yn golygu bod y cynghorwyr/mentoriaid yn datblygu dealltwriaeth go iawn o'u sefyllfa ac o'r rhwystrau sy'n eu hatal rhag dod o hyd i waith. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod dull llai brysiog y cynghorwyr/mentoriaid o fynd ati, a'r ffaith eu bod yn gosod llai o bwysau arnynt i weithredu, yn eu grymuso'n fwy. O ystyried bod cyfranogaeth yn CaW yn wirfoddol, gellid dadlau bod yna berthynas mwy cyfartal o bŵer rhwng y cyfranogwyr a'u cynghorwyr/mentoriaid ac mae'r ddibyniaeth y naill ar y llall y mae hyn yn ei chreu yn golygu fod gan y cyfranogwyr lefelau uchel o ymddiriedaeth a pharch at staff CaW.

4.28 Wrth gwrs, mae'r ffaith fod CaW yn rhaglen wirfoddol yn golygu hefyd ei bod hi'n ddigon posibl y gallai unigolion sy'n cael eu cyfeirio at CaW elwa o gymryd rhan yn y rhaglen, ac nad oes gorfodaeth iddynt gysylltu. Dadleuodd un tîm sy'n darparu'r rhaglen bod 'nifer sylweddol yn cael eu cyfeirio i mewn [gan JCP], ond nid ydynt yn parhau [â'r rhaglen]', a hynny weithiau am eu bod yn methu â chydnabod bod arnynt angen cymorth.

4.29 Fodd bynnag, nid yw'r bondiau sy'n datblygu rhwng y cyfranogwyr a'u cynghorwyr a mentoriaid i'w gweld yn atal y cynghorwyr a'r mentoriaid rhag herio'r cyfranogwyr, gan eu hannog i ystyried opsiynau na fyddent yn eu hystyried fel arall efallai, nac yn eu hatal rhag rhoi 'cic yn eu pen ôl' pan fo angen chwaith. Mae'r ffaith fod y cyfranogwyr yn dal yr awenau o ran beth y maent yn ei wneud a phryd yn rhoi'r amser iddynt feddwl am syniadau, a chymryd rhan mewn gweithgareddau penodol pan maent yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hynny.

4.30 Roedd hi'n glir bod cynghorwyr/mentoriaid CaW yn dod yn rhan greiddiol o fywydau nifer o'r cyfranogwyr, gyda chyfranogwyr unigol yn dweud bod eu cynghorydd/mentor wedi dod yn 'gyfaill' iddynt neu 'fel chwaer fawr'. Roedd traean o'r cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau yn dal i fod mewn cysylltiad â'u cynghorwyr/mentoriaid ar ôl ymadael â CaW, gyda nifer yn dweud eu bod yn teimlo y byddent yn gallu troi at y cynghorydd/mentor pe bai angen cymorth arnynt yn y dyfodol.

**Astudiaeth Achos: Bryn**

Ar ôl cael ei gyfeirio at CaW am gymorth gan hyfforddwr gwaith JCP yn dilyn cyfnod o ddiweithdra ac iselder, dechreuodd Bryn fwynhau cerdded i lawr i'r ganolfan gymunedol leol i gwrdd â'i gynghorydd yn gyson.

Esboniodd y cynghorydd ei bod yn treulio llawer o amser yn dod i adnabod cyfranogwyr, a'i bod hi'n cadw mewn cysylltiad cyson trwy negeseuon testun, e-bost a galwadau ffôn, gan wneud pwynt o holi am y pethau sy'n bwysig i'r cyfranogwyr a chyfeirio at ddatblygiadau diweddar yn eu bywydau. Helpodd y diddordeb gwirioneddol yma i feithrin perthynas gadarn a chadarnhaol rhwng Bryn a'r cynghorydd.

Ymhen ychydig wythnosau, dechreuodd partner Bryn gerdded i lawr i'r ganolfan gydag ef. Ar y cychwyn byddai’n dweud 'helo' wrth y cynghorydd, wedyn dechreuodd aros am sgwrs fer, ac yn y pendraw, penderfynodd ei chyfeirio ei hun at y rhaglen. Ymhen ychydig sesiynau pellach, anogodd partner Bryn ei mab mewn oed i'w gyfeirio'i hun at y rhaglen hefyd.

Llwyddodd pob un o'r tri i gael gwaith cyflogedig ar ôl cael cymorth â gwahanol agweddau ar chwilio am waith. Mae'r tri yn dal i alw heibio i'r ganolfan gymunedol i ddweud helo wrth y cynghorydd ar bob cyfle posibl, ac os oes problem yn codi o ran eu cyflogaeth, maen nhw'n teimlo eu bod yn troi at y cynghorydd am gymorth pellach.

*Hyfforddiant*

4.31 Cyflawnodd hanner y cyfranogwyr yn ein sampl rhyw fath o hyfforddiant galwedigaethol, yn fwyaf cyffredin cyrsiau byr sy'n darparu achrediad sylfaenol sy'n berthnasol i amrywiaeth o weithleoedd e.e. Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch, Hylendid Bwyd. Roedd y cyfranogwyr yn aml yn cael eu cofrestru ar y cyrsiau hyn nid yn unig er mwyn rhoi achrediadau iddynt sy'n berthnasol i waith, ond hefyd er mwyn magu eu hyder, newid eu ffordd o feddwl a'u cychwyn ar y siwrnai tuag at gyflogadwyedd a chyflogaeth. Dilynodd ambell un gyrsiau ychydig bach yn hirach a oedd yn gysylltiedig â mathau penodol o gyflogaeth, fel gofal plant yn bennaf, ond hefyd ffotograffiaeth, dylunio i'r we a gwallt a harddwch.

4.32 Dilynodd naw o gyfranogwyr o fewn ein sampl hyfforddiant a arweiniodd at ddiogelu'r trwyddedau angenrheidiol i weithio mewn diwydiannau penodol (CSCS, SIA). Disgrifiwyd y cyrsiau hyn rhai 'cyflym braf', rhyw bedwar neu bum niwrnod o hyd. Yn wir, roedd staff cyflawni CaW yn eu gweld fel offeryn defnyddiol i recriwtio cyfranogwyr, ac roedd y syniad o gael cymorth i gael cardiau CSCS neu SIA yn rhywbeth a oedd yn apelio at ddynion ifanc yn benodol. Fodd bynnag, wrth gyfeirio cyfranogwyr am hyfforddiant o'r fath, mae staff CaW yn mynnu eu bod yn cysylltu'n ehangach â'r rhaglen, ac yn mynd i'r afael â rhwystrau eraill i gyflogaeth trwy hynny. Roedd y cyfranogwyr yn ein sampl a oedd wedi cyflawni hyfforddiant a arweiniodd at gaffael trwyddedau o’r fath oll yn wynebu rhwystrau eraill i gyflogaeth ac roedd pob un ohonynt wedi gweithio gyda staff CaW i geisio mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny.

*Paratoi ar gyfer cyfweliadau am swyddi*

4.33 Roedd rhyw draean o’r cyfranogwyr yn ein sampl wedi cael cymorth i baratoi ar gyfer cyfweliadau am swyddi. Roedd hyn, fel rheol, yn golygu bod y cynghorwyr/mentoriaid yn siarad â'r cyfranogwyr am y mathau o gwestiynau a allai godi, yn ymarfer ymatebion, yn cynnal ffug-gyfweliadau, yn eu cynghori am sut i ymddwyn a gwisgo'n briodol ar gyfer cyfweliad, ac yn annog y cyfranogwyr i wneud ychydig o waith ymchwil cefndir i sefydliad y cyflogwr. Roedd y cyfranogwyr a gyfrannodd at ein gwaith maes yn teimlo bod yr elfen

yma o’r cymorth yn amhrisiadwy o ran ei bod yn eu paratoi i siarad â’r cyflogwyr a rhoi cyfrif da ohonynt eu hunain.

*Gwirfoddoli neu leoliadau gwaith*

4.34 Mae'r gronfa ddata o gyfranogwyr CaW yn dangos taw cwta pedwar y cant o holl gyfranogwyr CaW oedd yn cyflawni lleoliadau gwirfoddoli, a chwta dau y cant oedd yn cyflawni lleoliadau profiad gwaith. Fodd bynnag, roedd traean o'r cyfranogwyr yn ein sampl wedi cyflawni rhyw fath o waith gwirfoddol neu leoliad profiad gwaith, a allai awgrymu nad yw'r timau cyflawni'n cofnodi cwblhau gwaith gwirfoddol/lleoliadau profiad gwaith yn y gronfa ddata mor drylwyr ag y gallent.

4.35 Roedd y mwyafrif llethol o'r lleoliadau a gyflawnwyd gan y cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym ni’n cynnwys gwirfoddoli neu weithio mewn meysydd a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r mathau o swyddi yr oedd ganddynt ddyheadau i’w cyflawni, ac mewn rhai achosion, roedd hyn yn rhan o gwrs a oedd yn arwain at gymwysterau galwedigaethol penodol. Roedd rhai lleoliadau gwirfoddoli’n llai pendant o ran eu natur fodd bynnag, ond y bwriad oedd iddynt helpu’r cyfranogwyr i gael gwell ffocws galwedigaethol, magu eu hyder, datblygu sgiliau penodol, dangos eu dibynadwyedd neu yn syml i fod â rhywbeth i’w nodi mewn CV.

4.36 Cyflawnwyd rhai o'r cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith gyda sefydliadau a oedd yn cynnig y cyfle i'r unigolion ymgeisio am swyddi ar ddiwedd cyfnod y lleoliad. Sefydliadau’r sector cyhoeddus oedd yn cynnig y lleoliadau hyn yn bennaf (er bod yna eraill hefyd), neu mewn ambell i achos, roedd y trefniadau’n deillio o gymalau budd i'r gymuned o fewn contractau caffael.

**Astudiaeth Achos: Sophia**

Daeth Sophia i'r DU i weithio yn 2012, gan ymgymryd â gwaith asiantaeth mewn cartrefi nyrsio i gychwyn ac wedyn fel gweithiwr gofal cartref. Roedd yr oriau a roddwyd i Sophia'n anghyson ac yn annigonol, ac yn y pen-draw rhoddodd y gorau i waith asiantaeth gan ddechrau hawlio JSA wrth ganolbwyntio ar ddod o hyd i 'swydd reolaidd ag arian rheolaidd... roedd talu'r

rhent a'r biliau'n anodd ac roedd angen rhywbeth parhaol a mwy sefydlog arna'i'.

Cafodd Sophia ei chyfeirio at CaW gan gyfaill, a dechreuodd weithio gyda mentor. Cyflawnodd nifer o weithgareddau o fewn byr o amser, gan gynnwys mynychu cyrsiau hyfforddi, diwygio ei CV, ac yn hanfodol, dysgu sut i deilwra ei cheisiadau wrth lenwi ffurflenni cais i adlewyrchu gofynion y swydd a manyleb y person.

Awgrymodd mentor Sophia y gallai wneud ychydig o waith gwirfoddol gydag asiantaeth yr awdurdod lleol, ond dywedodd yn onest nad oedd y syniad yn apelio rhyw lawer ati a) am fod ganddi brofiad gwaith helaeth eisoes a b) am nad oedd hi'n gweld 'pam y dylai weithio am ddim'. Daliodd y mentor ati fodd bynnag, oherwydd er nad oed oedd gan Sophia unrhyw brofiad o'r math o waith yr oedd asiantaeth yr awdurdod lleol yn ei gyflawni, roedd hi'n teimlo y byddai'r gwaith yn chwarae i'w chryfderau. Yn y pen-draw, cytunodd Sophia i wirfoddoli dau ddiwrnod yr wythnos am gyfnod o dri mis gydag asiantaeth awdurdod lleol.

Ar ddiwedd tri mis y lleoliad, ymgeisiodd Sophia am swydd gyflogedig lawn-amser a pharhaol gyda'r asiantaeth, ac er na berfformiodd cystal â'r disgwyl yn y prawf asesu, llwyddodd i gael y swydd ar sail ei pherfformiad wrth wirfoddoli. Roedd Sophia'n glir bod gwirfoddoli wedi ei chynorthwyo i gael y swydd oherwydd 'Roeddwn i wedi profi fy hun, yn llythrennol, wrth ddefnyddio fy sgiliau... cefais i gymaint o hyder o’r peth'.

Mae Sophia'n dal i fod yn y rôl saith mis yn ddiweddarach, ac er y byddai'n dda ganddi ennill ychydig bach yn fwy o arian, fe'i disgrifiodd fel 'swydd fy mreuddwydion'. Mae hi'n gobeithio parhau yn y rôl yn y dyfodol rhagweladwy, ond mae'n gobeithio ceisio datblygu yn ei gyrfa o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

4.37 Roedd hi'n amlwg, fodd bynnag, nad oedd yr holl gyfranogwyr yn gweld gwirfoddoli neu brofiad gwaith fel ffordd dderbyniol o ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd neu ddod o hyd i waith. Roedd cyfranogwyr unigol yn gyndyn o 'weithio am [eu] dôl' a soniodd staff cyflawni am amharodrwydd rhai cyfranogwyr 'i wneud rhywbeth am ddim'.

*Mathau eraill o gymorth*

4.38 Roedd y cynghorwyr/mentoriaid wedi darparu cymorth i bron i draean (21 neu 30 y cant) o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym i'w cynorthwyo â phroblemau nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â dod o hyd i waith. I bob pwrpas, roedd hyn yn cynnwys delio â phryderon ariannol y cyfranogwyr, ac yn enwedig problemau o ran budd-dal tai a methu â thalu biliau'r cyfleustodau. Mewn sawl achos, roedd y cynghorwyr/mentoriaid yn tynnu ar arbenigedd sefydliadau eraill i helpu cleientiaid e.e. CAB a swyddogion cynhwysiant ariannol CG. Ochr yn ochr â hyn, roedd y cynghorwyr yn benodol yn cyflawni 'cyfrifiadau gwell eich byd' gyda'r cleientiaid, ac roedd hyn i'w gweld yn rhoi rhyw lefel o sicrwydd i'r cyfranogwyr y byddent yn well eu byd yn y gwaith, neu'n bwysicach na hynny'n aml, na fyddent yn waeth eu byd. Fel y dywedodd un cynghorydd, 'mae bod yn gallu siarad â phobl ag awdurdod am beth fydd yn digwydd i'w budd-daliadau os byddant yn dilyn llwybr penodol yn rhoi calondid mawr i bobl'.

*Y Gronfa Rwystrau*

4.39 Roedd rhyw 14 y cant o'r cyfranogwyr (10) o fewn ein sampl wedi elwa ar gymorth y Gronfa Rwystrau. O ystyried y mathau o rwystrau a glustnodwyd gan y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau ac, ar y sail y gallai'r rhwystrau sy'n llesteirio llwybrau'r cyfranogwyr i mewn i waith lesteirio eu cyfranogaeth mewn hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu brofiad gwaith er enghraifft, mae'r defnydd a wneir o'r Gronfa Rwystrau i'w weld yn weddol isel[32]. Fodd bynnag, gallai hyn fod yn adlewyrchiad o allu timau CaW i dynnu ar ffynonellau cymorth eraill i fynd i'r afael â'r rhwystrau, er enghraifft, Cronfa Cymorth Hyblyg DWP (FSF) ac amrywiol ffrydiau ariannu CG. Er nad yw'r Gronfa Rwystrau wedi cael ei

[32] Dylid nodi na ellir defnyddio'r Gronfa Rwystrau i dalu costau teithio i le gwaith ar ôl i'r unigolion symud i mewn i gyflogaeth, er enghraifft.

defnyddio i'r graddau y disgwyliwyd yn wreiddiol hyd yma, disgwylir i'r galw gynyddu nawr am fod y broses o wneud cais wedi cael ei symleiddio ac am fod ffrydiau ariannu eraill wedi dod yn llai hygyrch.

4.40 Yn yr un modd, cafodd rhyw saith y cant (pump) o'r cyfranogwyr yn ein sampl gymorth gyda gofal plant wrth ddilyn hyfforddiant neu gyflawni gweithgareddau eraill CaW. Er bod hyn i'w gweld yn isel, mae'n adlewyrchu gallu timau CaW i dynnu ar yr hyfforddiant a ddarperir o dan adain CG, sy'n dueddol o gael ei ddarparu'n lleol iawn, a hynny'n aml yn ystod oriau ysgol. Ar ôl i CG gau, byddem yn disgwyl gweld mwy o bobl yn troi at yr hyfforddiant a gafaelir trwy ACT, ac o bosibl, mwy o alw am gymorth gyda gofal plant lle nad yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu o fewn milltir sgwâr y cyfranogwyr a/neu lle nad yw'n cael ei ddarparu yn ystod oriau ysgol.

*Y cysylltiad rhwng y rhwystrau a nodwyd a'r cymorth a ddarparwyd*

4.41 Roedd yna gysylltiadau clir rhwng y rhwystrau a glustnodwyd a'r cymorth yr oedd rhai cyfranogwyr yn ei gael neu'r gweithgareddau yr oeddent yn eu cyflawni. Er enghraifft, cyflawnodd nifer o'r rhai a gafodd eu cyfweld gennym hyfforddiant a'u galluogodd i gael y trwyddedau yr oedd eu hangen arnynt i fod yn gymwys i gyflawni'r swyddi roeddent yn dyheu am eu gwneud (e.e. CSCS. HGV a SIA), gwirfoddolodd rhai i ennill profiad gwaith, a gweithiodd nifer fawr gyda chynghorwyr/mentoriaid i ddatblygu'r sgiliau chwilio am waith yr oeddent yn brin ohonynt. Fodd bynnag, yn aml iawn, roedd y cysylltiadau rhwng y rhwystrau (y soniwyd amdanynt yn benodol yn ystod y cyfweliadau â'r cyfranogwyr/mentoriaid neu a glustnodwyd mewn portffolios) a chymorth CaW yn fwy annelwig a chynnil o ran eu natur. Ychydig o gyfranogwyr dihyder a gafodd eu cofrestru ar gyrsiau cymell/magu hyder er enghraifft, ond cafodd hyder a chymhelliant unigolion ei feithrin trwy gyfuniad o lunio CVs, mynychu cyrsiau galwedigaethol byrion, a gweithio gyda chynghorwyr/mentoriaid i fynd i'r afael â rhwystrau, chwilio am, ac ymgeisio am swyddi. Trwy hyn, aed i'r afael â rhwystrau niferus a oedd yn aml yn gydgysylltiedig yr un pryd, heb bwysleisio'r problemau a oedd yn llesteirio datblygiad unigolion tuag at gyflogaeth o reidrwydd. Amgylchiadau a dewisiadau cyfranogwyr unigol oedd yn pennu'r dull a ddefnyddiwyd i bob pwrpas.

4.42 Er ei bod yn fater o farn oddrychol ar ran yr ymchwiliwr, roedd hi'n debyg bod yna berthynas agos rhwng i ba raddau y gellid ystyried bod y cymorth a'r gweithgareddau a gynigiwyd yn cysylltu â'r rhwystrau oedd o dan sylw, ac i ba raddau yr oedd y cyfranogwyr yn cysylltu â'r rhaglen. Lle'r oedd y gweithgareddau a gyflawnwyd i'w gweld yn cysylltu'n gliriach â'r rhwystrau a glustnodwyd, roedd y cyfranogwyr i'w gweld yn cysylltu'n fwy brwd â'r gweithgareddau hynny. Mae'n bosibl bod hynny am eu bod yn gwella cymhelliant y cyfranogwyr (trwy leihau'r rhwystrau) a/neu am eu bod yn hwyluso cysylltiad am fod y cyfranogwyr yn gweld bod y cymorth yn berthnasol/defnyddiol.

# 5. Perfformiad y Rhaglen Hyd yn Hyn - Deilliannau

## Cyflwyniad

5.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried i ba raddau y mae CaW wedi cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd, ac yn trafod perfformiad mewn perthynas â grwpiau penodol o gyfranogwyr. Byddwn ni'n ystyried y tebygolrwydd y bydd y rhaglen yn cyflawni ei thargedau o ran deilliannau erbyn iddi gau ym Mawrth 2020 hefyd.

5.2 Cyflwynir y bennod mewn chwech adran fel a ganlyn:

- perfformiad yn erbyn y targedau o ran deilliannau swyddi
- perfformiad yn erbyn y targedau o ran cymwysterau
- perfformiad yn erbyn targedau o ran symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant
- perfformiad yn erbyn y targedau o ran gweithgarwch chwilio am waith
- y deilliannau canolradd a gyflawnwyd
- y deilliannau meddal a gyflawnwyd

## Perfformiad yn erbyn y proffiliau a'r targedau o ran deilliannau swyddi

5.3 Ers lansio'r rhaglen ym Mai 2015, mae cyfanswm o 3,467 o unigolion wedi symud i mewn i waith ar ôl cysylltu â CaW, 742 ohonynt yn Nwyrain Cymru a 2,725 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn gyfwerth â 30 y cant o'r holl gyfranogwyr. Roedd perfformiad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 (36 y cant) dipyn yn gadarnach na Blaenoriaeth 1 (27 y cant).

5.4 Mae Ffigur 5.1 yn dangos y gyfran o'r proffil o ran deilliannau swyddi a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017, gan wahaniaethu rhwng y cyfranogwyr a recriwtiwyd o dan Flaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3.

*Y deilliannau swyddi a gyflawnwyd gan gyfranogwyr economaidd anweithgar*


5.5 Drwyddi draw, roedd y deilliannau o ran swyddi a gyflawnwyd mewn perthynas â'r holl gyfranogwyr economaidd anweithgar gyfwerth â 99 y cant o'r niferoedd a broffiliwyd. Roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r

Cymoedd (103 y cant) ychydig yn gadarnach na pherfformiad Dwyrain Cymru (91 y cant).

*Y deilliannau swyddi a gyflawnwyd gan gyfranogwyr di-waith tymor hir*

5.6 Roedd perfformiad yn erbyn y proffiliau o ran cyfranogwyr di-waith tymor hir yn cyflawni deilliannau swyddi dipyn yn wannach, ar lefel o 84 y cant o'r deilliannau a broffiliwyd ar draws Cymru gyfan. Eto, roedd perfformiad yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gadarnach, a chyflawnwyd 89 y cant o'r deilliannau swyddi a broffiliwyd yn yr ardal hon, o gymharu â 73 y cant yn Nwyrain Cymru.

**Ffigur 5.1: Y gyfran o ddeilliannau swyddi a gyflawnwyd yn ôl blaenoriaeth a grŵp targed**




*Ffynhonnell: Pecyn Gwybodaeth Monitro CaW, Tachwedd 2017*


*Y deilliannau a gyflawnwyd gan bobl ifanc a oedd yn NEET*

5.7 Roedd cyflawniad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 (pobl ifanc sy'n NEET) yn sylweddol uwch (192 y cant) na'r lefel a broffiliwyd ar draws Dwyrain Cymru (180 y cant) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (194 y cant) fel yr oedd pethau'n sefyll yn Hydref 2017. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai'r perfformiad cadarnach o ran deilliannau swyddi ymysg cyfranogwyr ifanc fod yn ddyledus i ryw raddau i'r ffaith fod mentoriaid ieuenctid arbenigol yn gweithio ar y rhaglen.

*Y rhagolygon ar gyfer cyflawni targedau'r rhaglen o ran deilliannau swyddi yn 2020*

5.8 Yn yr un modd â chysylltiadau â CaW, mae'r proffiliau a bennwyd yn rhagdybio y gwelir cynnydd mawr mewn cysylltiadau rhwng canol 2017 a diwedd y rhaglen yn 2020. Mae Ffigur 5.2 yn dangos bod y deilliannau swyddi a gyflawnwyd hyd yn hyn ar draws Blaenoriaeth 1 dipyn yn brin o'r niferoedd sydd eu hangen i gyflawni'r targedau cyffredinol o ran deilliannau swyddi erbyn 2020. Erbyn Hydref 2017, roedd y deilliannau swyddi wedi cyrraedd 56 y cant o'r lefel yr oedd angen ei chyflawni er mwyn iddi gyflawni targedau 2020, o gymryd y dilynir proffil llinell syth ar draws oes y rhaglen. Yn yr un modd â'r proffiliau o ran deilliannau swyddi, mae perfformiad mewn perthynas â thargedau 2020 wedi bod yn gadarnach ymysg y cyfranogwyr economaidd anweithgar na'r rhai a oedd wedi bod yn ddi-waith tymor hir (60 y cant o feincnod Hydref 2017 o gymharu â 48 y cant). Wrth ystyried perfformiad yng nghyd-destun y targedau o ran deilliannau swyddi ar gyfer 2020, mae perfformiad wedi bod ychydig bach yn gadarnach yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan amlygu'r gwahaniaethau yng nghromlin y proffiliau o ran deilliannau swyddi ar gyfer y ddau ranbarth.


**Ffigur 5.2: Nifer y deilliannau swyddi Blaenoriaeth 1 a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a'r proffil llinell syth o ran deilliannau swyddi ar draws oes y rhaglen**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2018*

5.9 Mae Ffigur 5.3 yn dangos bod y sefyllfa mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 ychydig yn fwy cadarn, gyda 76 y cant o'r deilliannau o ran swyddi sydd eu hangen ar draws oes gyfan y rhaglen eisoes wedi eu cyflawni. Mae perfformiad mewn perthynas â thargedau 2020 wedi bod yn gadarnach o dipyn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (196 y cant o feincnod Hydref 2017) o gymharu â 110 y cant, sydd eto'n barchus iawn, yn Nwyrain Cymru. Ar sail y lefelau cyflawni cyfredol, mae'n debygol y rhagorir ar y targedau o ran deilliannau swyddi ym Mlaenoriaeth 3 gan o leiaf 75 pwynt canrannol, neu'n fwy yn fwy na thebyg erbyn 2020.

**Ffigur 5.3: Nifer y deilliannau swyddi Blaenoriaeth 1 a gyflawnwyd erbyn Hydref 2017 o gymharu â'r proffil a bennwyd a'r proffil llinell syth o ran deilliannau swyddi ar draws oes y rhaglen**





*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Mawrth 2018*

*Y gymhareb deilliannau swyddi i gysylltiadau*

5.10 Yn dyngedfennol, fel y mae Ffigur 5.4 yn ei ddangos, mae'r gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sy'n symud i mewn i swyddi (y 'gyfradd drosi') yn uwch drwyddi draw nag a ragwelwyd adeg datblygu'r rhaglen.

**Ffigur 5.4: Y deilliannau swyddi a gyflawnwyd o gymharu â'r cyfraddau trosi a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes[33] [34]**




*Ffynhonnell: Pecyn Gwybodaeth Monitro CaW, Tachwedd 2017*

5.11 Symudodd bron i draean (32 y cant) o'r bobl economaidd anweithgar a gysylltodd â CaW yn Nwyrain Cymru ymlaen i gyflogaeth, sy'n sylweddol uwch na'r 17 y cant a ragwelwyd. Roedd y gyfradd drosi ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ymhell yn uwch na'r disgwyliadau ar lefel o 27 y cant.

5.12 Roedd y gyfradd drosi ymysg cyfranogwyr di-waith tymor hir yn uwch na'r disgwyl, er ei bod yn agosach at y 17 y cant a ddisgwyliwyd yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd (21 y cant ac 18 y cant yn y drefn honno).

5.13 Mae'r lefel yma o berfformiad yn cymharu'n ffafriol hefyd â pherfformiad ar draws prosiectau cyflogadwyedd a ariannwyd o dan Raglenni ESF 2007-2014 yng Nghymru, lle cyflawnodd 25 y cant o'r cyfranogwyr yn Nwyrain Cymru a 22 y cant o'r cyfranogwyr yng Ngorllewin Cymri a'r cymoedd ddeilliannau o ran swyddi[35].

---

[33] Pecyn Gwybodaeth Monitro CaW, Tachwedd 2017
[34] Yn seiliedig ar wybodaeth o Achos Busnes Estyniad Gweithredol CaW F2.0. t.24
[35] Gweler OB3 (2017) Papur Adolygu Gwerthuso Terfyn Blaenoriaeth Rhaglen Cymru: Gwella cyflogaeth a lleihau anweithgarwch. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, tt.15-16

5.14 Symudodd dros draean o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 (35 y cant) yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i mewn i swyddi, sy'n sylweddol uwch na'r targed o 28 y cant. Roedd y gyfran o bobl ifanc a symudodd ymlaen i swyddi yn Nwyrain Cymru (30 y cant) yn drech na'r disgwyliadau hefyd, er nad i'r un lefel ag yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

5.15 O gymryd bod disgwyl i CaW weithio gyda phobl sydd gryn bellter o'r farchnad lafur, gellid disgwyl bod y cyfraddau deilliannau o ran swyddi'n is yn ystod misoedd cynnar y rhaglen, eu bod yn adeiladu i gyfnod gwastad yn ystod canol oes y rhaglen, ac yn adeiladu eto tua diwedd oes y rhaglen wrth i gysylltiadau ddirwyn i ben, ond wrth i ddeilliannau o ran swyddi barhau i gael eu cyflawni. O gofio taw dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y rhaglen yn llwyr ym mhob ardal, rydyn ni'n credu bod yna le i fod yn optimistaidd bod modd cynnal y gyfradd galonogol yma o gyflawni deilliannau o ran swyddi neu hyd yn oed gwella arni.

5.16 Un ffactor y credwyd oedd yn help i yrru perfformiad cadarn mewn perthynas â deilliannau swyddi yn ddiweddar oedd y ffaith fod WEFO wedi symud i gyfeiriad dderbyn 'hunan-ddatganiadau' o gyflogaeth gan gyfranogwyr. Dadleuwyd bod y newid yma i'r rhaglen wedi gwneud tystiolaethu deilliannau swyddi’n symlach o lawer, a’i bod wedi rhyddhau amser gwerthfawr CaW i gysylltu a gweithio gyda chyfranogwyr yn hytrach na mynd ar ôl datganiadau cyflogwyr a mathau eraill o dystiolaeth.

*Deilliannau swyddi yn ôl ardal CaW*

5.17 Yn yr un modd â’r cysylltiadau (gweler pennod tri), mae deilliannau swyddi’n amrywio'n sylweddol yn ôl ardal CaW, ond nid oedd y gwerthusiad yn gallu clustnodi'n bendant pam fod cymaint o amrywiad. Mae hi’n debyg bod y ffactorau sy'n gysylltiedig â pherfformiad cadarn yn cynnwys:

- Perfformiad cadarn mewn perthynas â chysylltiadau. Dadleuodd nifer o staff y rheng flaen bod diogelu trwygyrch o gysylltiadau'n hanfodol er mwyn sicrhau y cyflawnir y targedau o ran deilliannau swyddi, ac roedd yna gysylltiad rhwng perfformiad cadarn mewn perthynas â chysylltiadau a pherfformiad cadarn mewn perthynas â deilliannau

swyddi ymysg cyfranogwyr Blaenoriaeth 3. Nid oedd y berthynas mor gadarn yn achos cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, fodd bynnag.

- Bodolaeth marchnad lafur fyw yn lleol, lle mae swyddi ar gael sy'n addas at sgiliau, dyheadau ac anghenion y cyfranogwyr.
- Staff medrus a phrofiadol sy'n gallu cynorthwyo cyfranogwyr i bontio i mewn i waith.
- Gwaith tîm effeithiol rhwng staff y rheng flaen, sy’n golygu bod cyfranogwyr yn cael eu cyfeirio at y person mwyaf priodol, a gwasanaeth mwy di-dor e.e. wrth i gynghorwyr gyflawni cyfrifiadau 'gwell eich byd' er mwyn helpu i argyhoeddi cleientiaid y mentoriaid am fanteision gweithio.
- Partneriaethau cadarn â'r system gymorth ehangach er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau fel problemau tai ac ariannol ac ati.
- Argaeledd darpariaeth hyfforddiant perthnasol a hygyrch e.e. cyrsiau CSCS.
- Staff CaW yn aros yn eu swyddi'n ddigon hir i droi cysylltiadau'n ddeilliannau.

5.18 Fodd bynnag, yn yr un modd â chysylltiadau, y tu hwnt i rywfaint o gydberthynas rhwng cysylltiadau a deilliannau fel a nodwyd uchod, nid oedd unrhyw berthynas systemataidd glir rhwng y ffactorau hyn a pherfformiad. Er enghraifft, roedd ardaloedd lle nad oedd CaW wedi cael ei gyflwyno'n llwyr tan yn gymharol ddiweddar yn ymddangos yn y chwartilau uchaf ac isaf o ran perfformiad deilliannau swyddi. Yn yr un modd, roedd hi'n debyg nad oedd cynghorwyr, gweithwyr brysbennu a mentoriaid mewn rhai ardaloedd a oedd yn perfformio'n gadarn yn nhermau deilliannau swyddi’n gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm.

*Deilliannau swyddi yn ôl yr amser a dreuliwyd ar y rhaglen*


5.19 Mae Ffigur 5.5 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr a symudodd i mewn i waith yn ôl hyd yr amser a dreuliwyd ar CaW. Ar y cyfan, mae'n dangos bod cyfran uwch o'r rhai a fu’n gysylltiedig â CaW am dri mis neu lai wedi symud i mewn i waith na'r cyfranogwyr a arhosodd ar y rhaglen am gyfnod hirach. Mae'n debygol y gellir priodoli hyn i ddau brif ffactor:

- Penodwyd y cynghorwyr, y bwriadwyd iddynt weithio gydag unigolion yr ystyriwyd eu bod llai na 12 mis i ffwrdd o gyflogaeth[36], dipyn cyn y mentoriaid. Yn wir, dim ond yn ddiweddar iawn y penodwyd mentoriaid mewn rhai ardaloedd. Mae hi'n rhesymol disgwyl felly i fwy o gleientiaid cynghorwyr, a ddylai symud i mewn i waith yn gynt, fod wedi gwneud hynny erbyn y pwynt yma yn oes y rhaglen.
- Y bwriad oedd y byddai mentoriaid yn gweithio gyda chleientiaid yr ystyriwyd eu bod 12 mis neu ragor i ffwrdd o gyflogaeth[37]. O ystyried na chafodd y rhan fwyaf o'r mentoriaid eu penodi tan hanner olaf 2016 (a chafodd rhai eu penodi hyd yn oed yn ddiweddarach), nid oes digon o amser wedi mynd heibio i gleientiaid y mentoriaid, sydd, o ran eu natur, angen mwy o amser ar y rhaglen i fod yn barod i'r byd gwaith, fod wedi symud i mewn i swyddi.

5.20 Gallai cynnydd cyflym rhai cleientiaid i mewn i waith awgrymu bod CaW yn cysylltu rhai unigolion a fyddai'n gallu symud i mewn i waith â llai o gymorth ac a allai gael eu gwasanaethu gan ffynonellau'r brif ffrwd fel JCP a Gyrfa Cymru. Wedi dweud hynny fodd bynnag, roedd hi'n glir o'n gwaith ymchwil ansoddol bod y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi ac yn elwa ar ddyfnder a dwyster y cymorth sydd ar gael trwy CaW, ac sy'n rhywbeth na all darparwyr y brif ffrwd ei gynnig.

[36] Cynllun Busnes WWV P1 F1.0, t.32.
[37] Ibid.

**Ffigur 5.5: Y gyfran o gyfranogwyr sy'n symud i mewn i gyflogaeth yn ôl yr amser a dreuliwyd ar CaW**




*Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata o Gyfranogwyr, Chwefror 2018*

*Deilliannau swyddi yn ôl grwpiau cyfranogwyr targed*

5.21 Fel a nodwyd eisoes, nod CaW yw targedu pobl dros 25 oed sy'n economaidd anweithgar neu'n ddi-waith tymor hir a phobl ifanc sy'n NEET. O fewn y grwpiau hyn, ei nod yw targedu is-grwpiau o unigolion sydd o dan anfantais benodol yn y farchnad lafur. Yn yr un modd ag ar gyfer cysylltiadau, ni chafodd unrhyw dargedau penodol o ran deilliannau swyddi eu pennu ar gyfer yr is-grwpiau hyn, sy'n golygu nad oes modd cyflwyno sylwadau am gynnydd o ran deilliannau swyddi mewn perthynas â'r proffil. Fodd bynnag, mae modd cymharu'r gyfran o gyfranogwyr o bob grŵp sy'n cyflawni deilliannau swyddi gyda chyfranogwyr y rhaglen ar led.


*Rhyw*

5.22 Symudodd cyfran uwch o ddynion na menywod (33 y cant o gymharu â 28 y cant) i mewn i gyflogaeth wrth ymadael â CaW, ac ychydig iawn o wahaniaeth oedd yna yn y cyfrannau a ddatblygodd rhwng Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

*Oedran*

5.23 Mae Ffigur 5.6 yn dangos dosbarthiad oedran y cyfranogwyr a gyflawnodd ddeilliannau swyddi ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n dangos, yn gyfrannol, bod mwy o gyfranogwyr yn y grŵp oedran 25-34 oed wedi dod o hyd i swyddi, wedi ei ddilyn yn agos yn Nwyrain Cymru gan gyfranogwyr 35-44 oed. Mae hi'n nodedig bod mwy na 25 y cant o'r holl gyfranogwyr dros 55 oed wedi cyflawni deilliannau swyddi, gyda'r gyfran yn ehangu i 34 y cant ymysg y cyfranogwyr o Ddwyrain Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried lle'r grŵp yma fel grŵp targed ymysg y bobl economaidd anweithgar.

**Ffigur 5.6: Dosbarthiad oedran y cyfranogwyr sy'n cyflawni deilliannau swyddi**




*Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata o Gyfranogwyr, Chwefror 2018*


5.24 Mae Ffigur 5.7 yn dangos y gyfran o gyfranogwyr o grwpiau cyfranogwyr targed CaW a ddatblygodd i mewn i gyflogaeth ar draws Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3. Mae'n dangos hefyd y cyfraddau o ran deilliannau swyddi ar gyfer yr holl gyfranogwyr, a'r lefel meincnod o ran deilliannau swyddi a ymhlygwyd o fewn y cynllun busnes. Fel y gellir ei weld, mae'r deilliannau swyddi ar gyfer bron pob grŵp o gyfranogwyr wedi rhagori ar lefel meincnod y

rhaglen, a hynny o dipyn mewn rhai achosion. Trafodir perfformiad mewn perthynas â phob grŵp targed yn fras isod.

*Prinder neu ddiffyg sgiliau*

5.25 Fel a nodwyd ym mhennod 3, y mesuriad procsi a ddefnyddir ar gyfer cyfranogwyr CaW sydd â phrinder neu ddiffyg sgiliau yw nad oes unrhyw gymhwyster ganddynt uwch lefel 2. Drwyddi draw, llwyddodd 26 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1, a 36 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3, a gychwynnodd CaW heb unrhyw sgiliau neu â phrinder sgiliau, i symud i mewn i gyflogaeth ar ddiwedd y rhaglen. Fodd bynnag, roedd yna gydberthynas agos rhwng y cymhwyster uchaf yr oedd gan y cyfranogwyr wrth ymuno â CaW a symudiad i mewn i waith. Cyflawnodd rhyw 43 y cant o'r rhai a oedd yn cychwyn y rhaglen â chymwysterau lefel 3 neu'n uwch ddeilliannau o ran swyddi, o gymharu â 32 y cant o'r rhai â chymwysterau ar lefel 2 neu'n is, ac 17 y cant o'r rhai oedd heb unrhyw gymwysterau o gwbl.

**Ffigur 5.7: Y gyfran o gyfranogwyr o grwpiau targed CaW a symudodd i mewn i gyflogaeth**




*Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata o Gyfranogwyr: Chwefror 2018*

*Salwch sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio*

5.26 Roedd perfformiad mewn perthynas â’r cyfranogwyr â salwch sy’n cyfyngu ar eu gallu i weithio yn wannach o dipyn, gydag 18 y cant o’r cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn symud i mewn i swyddi (sy'n dal i fod yn un pwynt canrannol yn uwch na'r meincnod o 17 y cant) a 24 y cant o'r cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, o gymharu â ffigur meincnod o 28 y cant.

5.27 O gymharu â'r cyfraddau cyflawni deilliannau swyddi ar draws holl gyfranogwyr CaW, y perfformiad o ran y cyfranogwyr â salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio sydd wannaf, sy'n awgrymu bod rhwystrau o'r fath anos mynd i'r afael â nhw nag eraill.

*Grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig*

5.28 Roedd y gyfran o gyfranogwyr o gefndiroedd BME a symudodd i mewn i waith yn arbennig o drawiadol, gyda 35 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 (mwy na dwywaith y ffigur meincnod), a 45 y cant o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn cychwyn cyflogaeth. Er bod y ffigurau symud i waith hyn yn galonogol iawn, rhaid pwyllo wrth ddehongli'r data o ystyried bod niferoedd y cyfranogwr o grwpiau BME yn gymharol fach.

*Cyfrifoldebau gofalu neu ofal plant*

5.29 Drwyddi draw, symudodd 29 y cant o'r cyfranogwyr â chyfrifoldebau gofalu neu ofal plant i mewn i waith, o gymharu â 30 y cant o'r holl gyfranogwyr. Eto, roedd perfformiad mewn perthynas â chyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn drawiadol, ar lefel o 29 y cant o gymharu â 27 y cant o'r holl gyfranogwyr yn y rhaglen a ffigur meincnod o 17 y cant. Er bod y gyfradd deilliannau swyddi ar gyfer Blaenoriaeth 1 yn debyg iawn ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, roedd perfformiad mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 yn gadarnach yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd, ar lefel o 29 y cant o gymharu â 24 y cant yn Nwyrain Cymru.

*Aelwydydd heb waith*

5.30 Drwyddi draw, symudodd 27 y cant o'r cyfranogwyr o aelwydydd heb waith i mewn i gyflogaeth, o gymharu â 30 y cant o'r holl gyfranogwyr. Roedd y gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 3 o aelwydydd heb waith a ddatblygodd i

mewn i swyddi (31 y cant) fymryn yn uwch na'r gyfran o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 ar lefel o 25 y cant. Mae'r ddwy gyfradd drosi yma'n cymharu'n dda â'r gyfradd drosi meincnod a nodwyd yn y cynlluniau busnes (17 y cant i Flaenoriaeth 1, a 28 y cant i Flaenoriaeth 3). Roedd perfformiad ar draws y ddwy Flaenoriaeth fymryn yn well yn Nwyrain Cymru nac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Roedd y gyfran o gyfranogwyr o aelwydydd heb waith a ddatblygodd i mewn i waith fymryn yn is yn Nwyrain Cymru (37 y cant) o gymharu â 40 y cant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

*Ansawdd a chynaliadwyedd y deilliannau swyddi a gyflawnwyd*

5.31 Rhagwelwyd adeg dylunio'r gwaith ymchwil y byddai data'r Arolwg o Gyfranogwyr ESF ar gael i ddangos y gyfran o gyfranogwyr a oedd wedi symud i mewn i swyddi a oedd yn dal i fod mewn cyflogaeth chwe mis yn ddiweddarach. Rhagwelwyd y byddai hyn yn rhoi syniad o gynaliadwyedd y deilliannau o ran swyddi dros amser, ac y byddai hynny'n caniatáu ar gyfer casgliadau am effeithiolrwydd CaW wrth baratoi unigolion ar gyfer gwaith.

5.32 Yn niffyg data arolygu dibynadwy, aethom ati i geisio canfod statws cyflogaeth yr unigolion a gafodd eu cyfweld gennym yn rhan o'n gwaith maes ansoddol. Fodd bynnag, rhaid cofio y detholwyd ein sampl yn bwrpasol i dargedu nifer anghyfartal o unigolion a oedd wedi datblygu i mewn i gyflogaeth, ac felly ni ellir ystyried bod canfyddiadau ein gwaith yn gynrychiadol. Yn amodol ar y cafeat yma, fodd bynnag, mae'r gwaith maes yn dangos ambell i ganfyddiad digon diddorol.

5.33 Roedd mwyafrif sylweddol (35) o'r cyfranogwyr a gyfwelwyd gennym a oedd wedi cychwyn cyflogaeth (40) yn dal i fod mewn gwaith chwe mis yn ddiweddarach. Roedd dau arall yn dal i fod mewn cyflogaeth adeg cyflawni'r gwaith maes, ond nid oeddent wedi cyrraedd y garreg filltir chwe mis eto. Dywedodd dros dri chwarter o'r rhai a oedd wedi symud i mewn i waith (33) eu bod yn fodlon ar eu swyddi a dywedodd bron i ddau draean (25) eu bod yn fodlon ar lefel eu hincwm ers cychwyn gweithio. Roedd gan dri o bob pump o'r rhai a oedd wedi cychwyn cyflogaeth (24) obeithion i ddatblygu o fewn eu swyddi. Byddai hynny'n awgrymu bod cyflogaeth yn ddeilliant cynaliadwy i bron i hanner y cyfranogwyr a gafodd gyfweliadau.

5.34 Roedd traean (10) o'r rhai a oedd yn dal i fod mewn gwaith wedi symud ymlaen i swyddi eraill ers ymadael â CaW. Roedd dau wedi symud i swyddi oedd yn well yn eu barn nhw, ac roeddent yn teimlo'n fwy bodlon naill ai â'r swydd neu â'u hincwm yn sgil symud. Roedd pump wedi symud o swyddi dros dro i rai parhaol, a dau wedi symud o swyddi rhan-amser i rai llawn-amser. Mewn un achos, roedd hyn wedi golygu symud o swydd 'banc' o fewn y GIG i gontract parhaol a oedd yn gwarantu incwm rheolaidd, sy'n rhywbeth nad oedd y swydd 'banc' yn gallu ei wneud. Mae hi'n nodedig yn y cyd-destun hwn bod y swydd banc i bob pwrpas yn 'gontract dim oriau', ac mae hyn yn rhywbeth y mae Canllawiau Gweithredol CaW yn glir nad yw'n dderbyniol at ddibenion deilliannau swyddi. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roedd y swydd 'banc' yn gam tuag at gyflogaeth barhaol gyda'r un cyflogwr, a oedd yn ddeilliant dilys at ddibenion y rhaglen[38].

5.35 Mae'r pwynt yma'n dangos y ddeuoliaeth sy'n wynebu timau CaW. Er eu bod yn gefnogol iawn i bolisi LIC mewn perthynas â deilliannau swyddi a chontractau dim oriau, ac er eu bod am helpu cleientiaid i ddod o hyd i'r 'swydd gywir', roedd yna deimlad nad yw marchnadoedd llafur lleol yn aml yn cynnig llawer mwy na gwaith asiantaeth ansefydlog neu dymor byr. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn sectorau fel gofal, adwerthu a chroeso ac o ran y swyddi ar lefel gymharol isel y mae cyfranogwyr CaW yn dueddol o fynd amdanynt. Nododd lond llaw o gyfranogwyr y gallai cyflwyniad y Credyd Cynhwysol liniaru'r problemau sydd ynghlwm wrth swyddi ag oriau amrywiol yn nhermau cyfaddawdu cymhwyster unigolion am rai mathau o fudd-daliadau a lleddfu anghysonderau o ran incwm.

5.36 Roedd saith unigolyn wedi ymadael â'r swyddi yr oeddent wedi eu sicrhau, ond nid oeddent wedi mynd ymlaen i ddod o hyd i swyddi eraill. Roedd y rhesymau dros ymadael â'r swyddi'n amrywio, ond roeddent yn cynnwys y ffaith fod y swyddi a sicrhawyd yn rhai dros dro, bod problemau iechyd meddwl wedi dychwelyd, eu bod wedi colli trwydded yrru, ac mewn un achos, nid oedd yr unigolyn o dan sylw'n teimlo bod yr incwm ychwanegol yr oedd yn ei ennill yn ddigon i wrthbwyso'r straen yr oedd y swydd yn ei achosi. Roedd

[38] Canllawiau Gweithedol CaW (2017) t.45.

pawb ond un o'r unigolion hyn yn gobeithio dod o hyd i waith yn y dyfodol agos.

5.37 Er bod cynghorwyr/mentoriaid yn gweithio'n galed i lywio'r cyfranogwyr tuag at swyddi y gallant ymdopi â nhw, mae hi'n anochel y bydd cyfran o'r cyfranogwyr yn eu ffeindio'u hunain mewn swyddi anaddas na allant eu cynnal. Dadleuodd y staff sy'n darparu'r rhaglen bod angen i CaW ganiatáu'r hyblygrwydd i unigolion o'r fath ail-gydio yn y rhaglen os oes angen, ac i gydnabod goblygiadau hyn ar faich gwaith y cynghorwyr/mentoriaid[39].

5.38 Yn wir, roedd tri o'r cyfranogwyr a oedd wedi ymadael â'u swyddi am ail-gydio yn y rhaglen. Mewn dau o'r achosion hyn, bu staff CaW yn gweithio gyda'u cyn-gleientiaid i'w cynorthwyo i ddod o hyd i swyddi eraill, er nad oeddent 'yn gallu hawlio deilliannau swyddi' pan fyddai'r cyfranogwyr hyn yn dod o hyd i waith arall. Yn wir, roedd yr anallu i hawlio mwy nag un deilliant o ran swyddi mewn perthynas â chyfranogwyr unigol yn achos rhwystredigaeth i sawl aelod o staff rheng flaen CaW, er y nododd swyddogion Llywodraeth Cymru nad oes modd caniatáu hyn o dan reolau'r ESF. Yn y cyd-destun hwn, soniwyd y gallai ailgysylltiadau ddod yn nodwedd fwy cyffredin o'r rhaglen wrth iddi aeddfedu, ac wrth i fwy a mwy o gyfranogwyr symud ymlaen i gyflogaeth[40].

5.39 Lle'r oedd cyfranogwyr wedi ail-gysylltu â'r rhaglen, roedd lefel y cymorth yr oedd ei hangen arnynt i ddod o hyd i gyflogaeth amgen yn sylweddol is mewn gwirionedd na'r cymorth yr oedd ei hangen arnynt i ddiogelu'r swydd gyntaf. Mewn ambell i achos, roedd hi'n debyg nad oedd ar y cyfranogwyr angen llawer mwy nag anogaeth a sicrwydd eu bod nhw'n mynd ati yn y ffordd gywir i chwilio ac ymgeisio am swyddi.

[39] Rydyn ni'n deall y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno Cymunedau am Waith a Mwy yn Ebrill 2018 a fydd yn sicrhau bod staff yn eu lle yn yr holl dimau i gyflawni'r gwaith yma.
[40] Yn ogystal, disgwylir i CaW+ gryfhau'r timau gyda staff sy'n gallu cyflawni'r gwaith yma.

**Astudiaeth Achos: Steve**

Roedd Steve, sy'n ddyn sengl yng nghanol ei bedwardegau, wedi treulio'r rhan fwyaf o'i oes yn gweithio yn y byd diwydiant. Roedd cyfuniad o'r ffaith fod ei gwmni'n symud ac afiechyd corfforol wedi peri i Steve golli ei swydd ar ôl dros naw mlynedd. Treuliodd Steve gyfnod ar ESA, wrth gael triniaeth i'w anhwylder.

Rhyw flwyddyn ar ôl colli ei swydd, dechreuodd Steve fynychu clwb gwaith yn agos at ei feddygfa, a daeth i gysylltiad â'r mentor oedolion yno. Bryd hynny, roedd yn glir ei fod 'jyst eisiau swydd', er ei fod yn cydnabod hefyd hwyrach y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant arno i adnewyddu ei drwydded cerbydau fforch godi. Am ei fod wedi bod yn yr un swydd ers blynyddoedd mawr, nid oedd gan Steve CV cyfoes, roedd ei sgiliau TG yn gyfyngedig iawn ac nid oedd fawr o syniad ganddo ymhle y dylai ddechrau chwilio am waith ar-lein na sut i fynd ati.

Roedd Steve yn teimlo bod y mentor yn deall ei sefyllfa, a gwnaeth hyn iddo deimlo'n gyffyrddus. Aeth y mentor ati i'w gyflwyno i nifer o wefannau chwilio am swyddi ar lein, ei gynorthwyo i ddiweddaru a gwella ei CV a'i gynorthwyo i baratoi a chyflwyno ceisiadau am swyddi. Nid oedd Steve yn teimlo ei fod o dan bwysau i wneud dim nad oedd yn teimlo'n gyffyrddus yn ei wneud, ond anogodd y mentor iddo feddwl am bosibiliadau nad oedd wedi eu hystyried o'r blaen (fel chwilio am swyddi mewn canolfannau galwadau a mynychu hyfforddiant TG). Dywedodd Steve ‘ei bod hi'n braf iawn cael siarad â rhywun oedd yn gwrando ... rhywun nad oedd yn edrych arnoch chi fel rhif … oedd yn gwneud amser i sgwrsio … i ofyn sut ydych chi’.

Cysylltodd Steve â'r mentor yn frwd, a chafodd gynnig am swydd ran-amser cyn pen chwech wythnos, lle byddai’n gweithio 24 awr yr wythnos. Er y byddai wedi hoffi cael mwy oriau, derbyniodd y swydd a gadawodd CaW. Ymhen ychydig wythnosau, fodd bynnag, daeth yn amlwg i Steve nad oedd y swydd yn iawn iddo, oherwydd nad oedd digon o oriau, ac am fod y gwaith codi yn

rhy drwm. Pan ddychwelodd anhwylder meddygol Steve, doedd dim dewis iddo ond troi nôl at fudd-daliadau salwch.

Naw mis yn ddiweddarach, ar ôl cael triniaeth i'w anhwylder meddygol, dywedodd staff JCP wrth Steve ei fod yn debygol o gael ei drosglwyddo o ESA i'r Credyd Cynhwysol. Sylweddolodd y byddai hyn yn golygu gostyngiad yn ei incwm, ond yn bwysicach i Steve, roedd e'n gyndyn i'r syniad o fynd ar CC - 'Rwy'n dioddef o orbryder ac iselder ... ac [roedd y pryder] am a fydden nhw'n fy sancsiynu ... yn malu 'mhen'. Dyna pryd penderfynodd fynd ati i chwilio am waith a throdd nôl at ei fentor am gymorth.

Er ei fod eisoes wedi ymadael â CaW, rhoddodd y mentor gymorth iddo eto (o gymryd ei fod yn gymwys oherwydd hawliad ESA gweithredol) i ddiweddaru ei CV a chwilio am swyddi ar lein. Ochr yn ochr â hyn, rhoddodd Steve gopïau o'i CV i nifer o gyflogwyr lleol, ac arweiniodd un o'r rhain at ganlyniad llwyddiannus o fewn cyfnod cymharol fyr. Roedd Steve yn sicr bod gweithio gyda'r mentor wedi gwella ei gymhelliant i ddod o hyd i waith ac wedi rhoi'r 'hwb' iddo fod yn fwy rhagweithiol wrth chwilio am waith am yr eildro.

Mae Steve yn dal i fod yn yr ail swydd nawr bum mis yn ddiweddarach, gan ei ddisgrifio fel 'jobyn da' ac un sy'n darparu lefel o incwm y mae'n fodlon arni.

5.40 Er na ddaethom ar draws unrhyw esiamplau o gyn-gyfranogwyr yn cael eu troi i ffwrdd wrth geisio ail-gysylltu â CaW[41], mae hi'n bosibl y daw staff darparu'r rheng flaen yn llai parod eu cymwynas wrth i'w beichiau achosion gynyddu[42]. Dadleuodd sawl un o staff cyflawni'r rheng flaen y dylid ildio'r maen prawf cymhwyster o 12 mis i gyfranogwyr sydd wedi ymadael â'r rhaglen, ond sy'n dychwelyd am gymorth pellach, dyweder, cyn pen tri mis.

5.41 Mae diffyg data o'r Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF yn golygu na fu modd ystyried effeithiau CaW ar incwm cyfranogwyr sy'n symud i mewn i waith. Er bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr a ddaeth i'n cwrdd a oedd wedi symud i mewn

[41] Mae rhai yn gymwys am gymorth oherwydd eu statws hawlio budd-daliadau.
[42] Wedi dweud hynny, o Ebrill 2018 ymlaen, bydd CaW+ yn cyflwyno staff ychwanegol i'r holl dimau, a dylai hyn helpu i leddfu'r pwysau posibl.

i gyflogaeth yn fodlon ar eu lefelau o incwm yn y gwaith ar y cyfan, byddai ein gwaith maes yn awgrymu bod y rhan fwyaf wedi symud i mewn i swyddi â chyflogau isel ac a oedd weithiau'n ansicr. Mae hyn yn gyson iawn â'r disgwyliad a bennwyd yn y Theori Newid sy'n sail i CaW bod 'cyfranogwyr [CaW] yn fwy tebygol o symud i mewn i swyddi â chyflogau isel/cychwynnol, o leiaf ar y cychwyn'[43]. Mae hyn yn codi pryderon am gynaliadwyedd tymor hwy deilliannau swyddi, yn enwedig lle bo rhwystrau eraill i gyflogaeth[44].

**Astudiaeth Achos: Sharon**

Mam sengl yng nghanol eu hugeiniau yw Sharon. Mae hi wedi cyflawni amrywiaeth o swyddi di-grefft ers ymadael â'r ysgol, ond mae hi wedi treulio cyfnodau ar ESA a JSA hefyd.

Ar ôl mynychu nifer o gyrsiau byr yn gysylltiedig â gwaith (Diogelwch Tân, Hylendid Bwyd ac ati) a gweithio gyda chynghorydd am ryw 19 mis i ddatblygu ei CV a'i sgiliau chwilio am waith, llwyddodd Sharon i sicrhau swydd ran-amser mewn bwyty bwyd brys lleol. Symudodd ymlaen wedyn i weithio i gadwyn o fwytai am fod yr oriau gwaith yn cyd-fynd yn well â'i chyfrifoldebau gofal plant.

Roedd Sharon yn teimlo bod ei bywyd wedi gwella trwy fod mewn gwaith: 'Roeddwn i'n arfer dioddef o iselder a gorbryder. Nawr fy mod i'n gweithio, rwy'n gallu gweld gwelliant anferth ynof fi fy hun. Ar un adeg, nid oedd unrhyw sgiliau pobl gen i, ond nawr rwy'n minglo ac yn delio â phobl pob dydd ac rwy'n llawn sgwrs eto'.

Er ei bod wedi cynyddu ei hincwm trwy symud i mewn i waith, mae pethau'n anodd ar Sharon yn ariannol. Dywedodd 'mae hi'n anodd, a phan edrychwch chi ar y darlun ehangach ... yn y pen-draw rydw i gwta £20 yr wythnos yn well fy myd, yn enwedig ar ôl talu costau teithio ... mae angen mwy arnaf i fyw mewn gwirionedd'.

[43] Llywodraeth Cymru (2017), Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymunedau am Waith, Rhan 1: Theori newid a model rhesymeg, t.24.

[44] Fodd bynnag, mae hi’n bosibl y bydd CaW+ yn lliniaru hyn i ryw raddau am y bydd yn caniatáu ar gyfer cysylltiad mwy parhaus.

5.42 Dadleuodd nifer o staff cyflawni'r rheng flaen y dylai CaW ddarparu elfen o gymorth yn y gwaith, lle bo angen hynny. Roedd dau ddimensiwn i hyn:

- Cymorth cymhellol parhaus, a chymorth i ddatrys materion a allai fod yn rhwystrau i gyflogaeth barhaus am gyfnod ar ôl i'r cyfranogwyr gychwyn gwaith. Ystyriwyd y gallai hyn helpu i gadw unigolion mewn swyddi lle y gallent ffeindio'u bod wedi eu gorlethu fel arall.
- Cymorth parhaus i helpu unigolion i ddatblygu o fewn eu swyddi, a lliniaru effeithiau tlodi yn y gwaith trwy hynny.

5.43 Tynnodd cyfranwyr unigol sylw at y ffaith fod cymorth yn y gwaith yn nodwedd o raglenni cyflogadwyedd eraill mwy newydd, ac y dylid addasu CaW i adlewyrchu ffyrdd diweddarach o feddwl[45].

**Astudiaeth Achos: Ffion**

Mae Ffion yn fam sengl a chanddi ddau blentyn. Bu hi’n gweithio fel cynorthwyydd dosbarth, ond collodd ei swydd pan gaeodd yr ysgol lle'r oedd hi'n gweithio. Cofrestrodd Ffion gydag asiantaeth addysgu, ond roedd hi'n anodd cysoni'r gwaith a oedd yn codi â'i chyfrifoldebau gofal plant. Yn groes i'r graen, trodd Ffion at Gymhorthdal Incwm, yn ofni'r dyfodol fel menyw dros ddeugain oed heb waith.

Cyfeiriodd y Ganolfan Byd Gwaith Ffion at gynghorydd CaW. Nid oedd nod clir ganddi mewn golwg ar y cychwyn. Ar y dechrau, roedd ei thrafodaethau â'r cynghorydd yn canolbwyntio ar edrych ar ffyrdd o barhau i weithio gyda phlant, ac er ei bod hi'n gallu gweld y byddai hyn yn gwneud synnwyr er mwyn defnyddio ei sgiliau, roedd hi'n teimlo bod angen iddi roi cynnig ar rywbeth arall. Ar ôl tipyn o drafod gyda'i chynghorydd, penderfynwyd y byddai gwaith derbynfa neu ysgrifenyddol yn addas iddi, ac aeth Ffion a'i ymgynghorydd ati i chwilio am gyfleoedd.

Roedd Ffion yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd un i un gyda'i chynghorydd ac roedd hi'n teimlo eu bod wedi helpu i feithrin ei hyder ac wedi gwella ei gorbryder a'i hiselder: 'Fe waethygais i ac roeddwn i'n teimlo'n isel ac yn ddi-

45 Rhagwelir y bydd CaW+ yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yma.

werth, ond roedd y sgyrsiau un i un o gymorth mawr'.

Llwyddodd Ffion i gael swydd mewn gwesty lleol a chafodd ei dadgofrestru o CaW. Fodd bynnag, ar ôl dechrau gwaith, roedd Ffion yn ffeindio'r holl broses o ddeilio â’r gwaith papur am drethi a budd-daliadau yn y gwaith yn straen aruthrol a chysylltodd â'r cynghorydd am gymorth. Dywedodd Ffion y bu'r cynghorydd 'ar y ffôn gyda fi bob dydd ar y dechrau, yn dweud wrtha'i i beidio â mynd i banig, ac yn sortio llawer o'r gwaith papur. Roedd hi'n ffab!’

Mae Ffion wedi bod yn ei swydd ers dros flwyddyn bellach, ond mae'n annhebygol y byddai wedi llwyddo i ymdopi â phontio i waith heb gymorth parhaus y cynghorydd ar ôl iddi ymadael â'r rhaglen. Yn wir, dywedodd 'weithiau, ar ôl i chi gael swydd, mae angen mis neu ddau o gymorth arnoch i'ch helpu chi i barhau i lawr y ffordd yna ... rwy'n credu y dylen nhw ganiatáu ychydig bach o amser wedyn i gadw llygad... jyst ambell i alwad ffôn i gadw mewn cysylltiad'.

*Priodoli deilliannau swyddi i CaW*

5.44 Fel a nodwyd uchod, roedd 40 o'r unigolion a gafodd eu cyfweld gennym ni yn ystod ein gwaith maes wedi symud i mewn i gyflogaeth ac roedd hi'n glir bod CaW wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu pob un ohonynt i ddod o hyd i waith. Roedd cymorth CaW wedi bod yn allweddol wrth helpu cyfranogwyr i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth yr oeddent yn eu hwynebu ac wrth eu hannog i gymryd camau tuag at gyflogaeth na fyddent wedi eu cymryd eu hunain. Fel y dywedodd un cynghorydd ‘rydyn ni wedi helpu pob un ohonyn nhw i sortio rhywbeth allan.’

5.45 Er y derbynnir ei bod hi'n anochel y bydd yna elfen o ddifrwythedd ar unrhyw raglen o'r natur yma, roedd y rheolwyr gweithredol a staff y rheng flaen yn mynnu bod unrhyw ddifrwythedd sy'n gysylltiedig â CaW wedi bod yn fach iawn oherwydd natur y grŵp o gleientiaid a dargedir. Yn wir, dadleuodd y staff sy’n darparu’r rhaglen mewn un ardal, o'r holl raglenni cyflogadwyedd a gyflwynwyd yno dros y blynyddoedd, hon, yn fwy na thebyg, oedd y lleiaf

tebygol o fod â chyfranogwyr a fyddai wedi dod o hyd i waith a chadw gwaith heb ymyrraeth oherwydd natur gymhleth y rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu.

5.46 Dadleuodd staff y rheng flaen na fyddai hyd yn oed y cyfranogwyr hynny a allai fod wedi ffeindio swyddi eu hunain wedi gwneud hynny o fewn yr un amserlenni, ac mae'n ddigon posibl y byddent wedi eu ffeindio eu hunain yn cymryd swyddi llai addas na'r rhai a gawsant go iawn, nid lleiaf am nad oedd ganddynt yr hyder, y cysylltiadau na'r wybodaeth i fynd ati i chwilio am waith e.e. i baratoi CV da neu ymgeisio am swyddi ar-lein.

**Perfformiad yn erbyn y targedau o ran cymwysterau**

5.47 Nod CaW yw cynorthwyo cyfranogwyr i ennill cymwysterau neu unedau tuag at gymwysterau sydd wedi eu diffinio o fewn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW). Cyfeiriodd y Theori Newid a oedd wrth wraidd y rhaglen at y rôl allweddol sy'n cael ei chwarae gan gymwysterau wrth alluogi mydendiad at 'gyflogaeth gynaliadwy'[46] ac yn achos pobl ifanc yn benodol, fel ffordd o gychwyn 'hyfforddiant fel cam hanfodol tuag at gael a chadw cyflogaeth'. [47]

5.48 Fodd bynnag, erbyn Hydref 2017, nifer gymharol fechan o'r bobl a oedd yn ymadael â'r rhaglen (783) oedd wedi ennill cymwysterau. Yn achos Blaenoriaeth 3 (y pennwyd targed deilliant penodol o ran cymwysterau ar ei chyfer), roedd 454 o unigolion wedi ennill cymwysterau, sef 20 y cant o'r targed cyffredinol ar gyfer 2020, a hynny ar bwynt dros 40 y cant o'r ffordd trwy oes y rhaglen. Gallai'r lefel ddigon gwylaidd yma o berfformiad fod yn ddyledus i ryw raddau i'r ffaith fod cyfranogwyr wedi manteisio ar yr hyfforddiant a ddarparwyd dan adain CG, yn enwedig yn ystod diwrnodau cynnar CaW, a bod y cymwysterau a gyflawnwyd wedi cael eu priodoli i'r rhaglen honno yn hytrach na CaW. Fodd bynnag, er y gallai fod yn rhesymol disgwyl rhywfaint o oedi wrth gyflawni a chofnodi deilliannau o ran

[46] Llywodraeth Cymru (2017), Gwerthusiad o'r Rhaglen Cymunedau am Waith: Rhan 1: Theori newid a model rhesymeg.
[47] Ibid, t.44.

cymwysterau[48] (er mwyn caniatáu amser i'r cyfranogwyr ddilyn hyfforddiant), rhaid i lefel y perfformiad hyd yn hyn blannu elfen o amheuaeth o ran y tebygolrwydd y bydd y rhaglen yn cyrraedd ei tharged mewn perthynas â deilliannau cymwysterau ar gyfer Blaenoriaeth 3 yn 2020.

5.49 Roedd rhyw 44 y cant o'r cyfranogwyr a oedd wedi ennill cymwysterau wrth ymadael â CaW wedi ennill cymwysterau islaw lefel 1, a dim ond pump y cant a oedd wedi ennill cymwysterau uwch na lefel 2. Roedd gan y mwyafrif o'r rhai a gafodd gymwysterau uwchlaw lefel 2 eisoes gymwysterau lefel 3 neu'n uwch wrth ymuno â'r rhaglen. Fodd bynnag, waeth beth fo lefelau cymwysterau blaenorol y cyfranogwyr, mae hi'n ddigon bosibl bod y cymwysterau a gafwyd gyda chymorth CaW yn fwy perthnasol i ddyheadau'r unigolion o ran swyddi nag unrhyw gymwysterau a oedd ganddynt eisoes.

5.50 Yn ogystal â chymwysterau sy'n dod o fewn cwmpas CQFW, mae CaW yn cynorthwyo cyfranogwyr i ennill achrediad sy'n berthnasol i waith fel cardiau CSCS neu dystysgrifau hylendid bwyd. Erbyn Hydref 2017, roedd 1,163 o'r holl gyfranogwyr wedi cyflawni ardystiadau o'r fath wrth ymadael â CaW.

5.51 Pennwyd targed penodol ar gyfer y nifer o gyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sy'n ennill cymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith wrth ymadael â CaW. Yn Hydref 2017, roedd 875 o ymadawyr wedi gwneud hyn, gyda 241 yn ennill cymwysterau CQFW, a 634 yn ennill ardystiadau eraill sy'n berthnasol i'r gwaith. Mae hyn i gyfrif am gwta 11 y cant o darged 2020. Eto, mae hi siŵr o fod yn rhesymol disgwyl rhywfaint o oedi wrth gyflawni deilliannau o ran cymwysterau ac ardystiadau sy'n berthnasol i waith, ond ar sail perfformiad hyd yn hyn, mae hi'n annhebygol y cyflawnir targed deilliant Blaenoriaeth 1 erbyn diwedd y rhaglen. Wedi dweud hynny, mae'n bosibl y gellir adennill rhywfaint o dir ar darged 2020 yn dilyn y gwelliannau i'r system ar gyfer bwcio cyrsiau hyfforddi, a hefyd o ganlyniad i dynhau cyffredinol ar yr amrediad o gyrsiau anachrededig sy'n agored i gyfranogwyr yn sgil cau CG.

[48] Dim ond wrth ymadael â CaW y cofnodir cymwysterau yn y gronfa ddata, felly mae hi'n bosibl bod cyfranogwyr wedi ennill y cymwysterau, ond nad ydynt wedi cael eu cofnodi hyd yn hyn.

**Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer symud i mewn i addysg neu hyfforddiant**

5.52 Fel a nodwyd uchod, gwelir cychwyn hyfforddiant fel cam ar y ffordd i gyflogadwyedd a chyflogaeth i bobl ifanc NEET. Ar y sail honno, pennwyd targed ar gyfer niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 sy'n symud i mewn i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â CaW.

5.53 Erbyn Hydref 2017, roedd cyfanswm o 161 o gyfranogwyr wedi symud i mewn i addysg neu hyfforddiant wrth ymadael â CaW, sef rhyw 11 y cant o darged 2020. Er y gallai fod yn rhesymol disgwyl i gyflawniadau gynyddu rhyw fymryn yn erbyn y targed hwn wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen, mae hi'n annhebygol y cyflawnir y targed cyffredinol erbyn diwedd y rhaglen.

5.54 Er na chafodd unrhyw dargedau eu pennu ar gyfer y cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 sy'n symud i mewn i addysg neu hyfforddiant, roedd ein gwaith maes yn awgrymu bod yna esiamplau lle mae hynny'n digwydd. Roedd yr esiamplau'n cynnwys unigolion yn cofrestru ar gyrsiau'r Brifysgol Agored neu'n cymryd rhan ym Mhrosiect E-Ddysgu Ymddiriedolaeth Ynni Am Ddim Nwy Prydain (sy'n agored i bobl sy'n derbyn budd-daliadau lles).

**Cynnydd yn erbyn y targedau gweithgarwch chwilio am waith**

5.55 Pennwyd targedau ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a oedd yn cyflawni gweithgarwch chwilio am waith wrth ymadael â CaW (gan gynnwys unigolion sydd newydd gofrestru fel ceiswyr gwaith), wedi ei dystiolaethu gan ddatganiad wedi ei lofnodi gan y cyfranogwr. Erbyn Hydref 2017, roedd rhyw 37 y cant o darged 2020 wedi cael ei gyflawni, sy'n rhoi achos i fod yn optimistaidd y cyflawnir y targed cyffredinol erbyn diwedd oes y rhaglen.


**Y deilliannau canolradd a gyflawnwyd**

5.56 Fel a nodwyd ym mhennod 1, yn niffyg data'r Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF, aethom ati i gasglu safbwyntiau'r cyfranogwyr a ddaeth i'n rhan yn ystod ein gwaith maes ansoddol er mwyn creu darlun o effeithiau ehangach CaW ar unigolion. Er bod angen trin canfyddiadau'r elfen hon o'r astudiaeth â phwyll, maent yn cynnig darlun o effeithiau ac effeithiolrwydd y rhaglen.

5.57 Mae Ffigur 5.8 yn dangos y gyfran o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau penodol ar eu hagwedd at neu eu ffordd o fynd ati i chwilio am waith. Mae'n dangos bod y cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn am effeithiau'r rhaglen ar y cyfan.

5.58 Mae ffrwyth ein cyfweliadau'n awgrymu bod CaW wedi cael yr effaith fwyaf ar hyder y cyfranogwyr o ran eu rhagolygon ar gyfer cyflogaeth a gyrfaoedd ac o ran eu gallu i gyflawni swyddi penodol. Cafodd effaith nodedig ar gysyniadau pobl am eu dealltwriaeth o’r hyn y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, ac am y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael iddynt. Mae'n debyg y cafwyd yr effaith leiaf ar gymhelliant cyfranogwyr i ddod o hyd i waith a'r ymdrech yr oeddent yn ei roi i ddod o hyd i swyddi yn sgil cymryd rhan yn CaW. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r ffaith fod 57 y cant o'r rhai a gafodd gyfweliadau gennym wedi symud i mewn i gyflogaeth ac felly nid oedd y cwestiynau'n berthnasol iddynt. Mae'n ddyledus hefyd i'r ffaith fod CaW yn rhaglen wirfoddol, sy'n golygu bod gan o leiaf rai o'r cyfranogwyr lefelau rhesymol o gryf o gymhelliant wrth ymuno.

**Ffigur 5.8: Y gyfran o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi peri iddynt fod yn...**



5.59 Roedd yna wahaniaethau amlwg o ran i ba raddau yr oedd dynion a menywod yn credu bod cymryd rhan yn CaW wedi effeithio arnynt, gyda chyfran uwch o’r menywod yn cysylltu'r rhaglen â mwy o eglurder am beth i'w wneud mewn bywyd ac am eu hamcanion gyrfaol. Roedd cyfran fwy o fenywod yn teimlo hefyd bod cymryd rhan yn CaW wedi eu cynorthwyo i fagu hyder yn eu galluoedd ac yn eu rhagolygon o ran cyflogaeth, ac wedi codi eu cymhelliant i ddod o hyd i waith. Ar y llaw arall, roedd cyfran uwch o ddynion yn cysylltu CaW â bod yn fwy gwybodus am beth y mae cyflogwyr yn chwilio amdano, defnyddio technegau mwy effeithiol wrth chwilio am waith a bod yn fwy medrus.

5.60 Dywedodd nifer anghymesur o gyfranogwyr iau (16-34 oed) bod CaW wedi peri iddynt fod yn fwy gweithredol wrth chwilio am waith, ac roedd y cyfranogwyr dros 55 oed yn llai tebygol o gyfeirio at y ffaith fod y rhaglen wedi cael unrhyw effaith ar ddwyster eu gweithgareddau chwilio am waith.

**Y deilliannau meddal a gyflawnwyd**


5.61 Archwiliodd ein trafodaethau â chyfranogwyr yr effeithiau ehangach yr oedd unigolion yn teimlo bod cymryd rhan yn CaW wedi eu cael arnynt. Roedd trywydd y cwestiynu'n adlewyrchu'r cwestiynau am ddeilliannau meddal y bwriadwyd i Arolwg Cyfranogwyr yr ESF fynd ar eu hôl.

5.62 Mae Ffigur 5.9 yn dangos y gyfran o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau ehangach ar eu bywydau. Mae'n awgrymu bod y rhaglen wedi cael effaith fesuradwy ar ymdeimlad y cyfranogwyr o les, a’u gwytnwch wrth ddelio â'r rhwystrau i waith yr oeddent yn eu hwynebu.

5.63 Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod CaW wedi cael yr effaith fwyaf ar sut y mae cyfranogwyr yn ei deimlo amdanyn nhw eu hunain, eu gallu i ymdopi â sialensiau, a faint o reolaeth y maent yn teimlo sydd ganddynt dros eu bywydau eu hunain. Roedd cyfran lai, ond arwyddocaol, o'r cyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym ni’n teimlo bod cymryd rhan yn CaW wedi peri iddynt deimlo'n fwy iach, a hynny'n aml am eu bod yn teimlo bod eu bywydau'n mynd i rywle. Dywedodd nifer fechan o'r rhai a gafodd eu cyfweld gennym eu bod wedi dechrau chwarae rhan fwy yn eu cymunedau eu hunain

yn sgil cymryd rhan yn CaW, er, yn wrthgyferbyniol, nododd rhai unigolion eu bod wedi lleihau eu cysylltiad â gweithgareddau cymunedol am nad oedd amser ganddynt ers dechau gweithio.

**Ffigur 5.9: Y gyfran o gyfranogwyr a gafodd eu cyfweld gennym a ddywedodd fod CaW wedi peri iddynt...**




5.64 Fel yr oedd yn wir yn achos y deilliannau canolradd, roedd yna wahaniaeth o ran i ba raddau yr oedd cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd yn teimlo bod CaW wedi effeithio ar eu bywydau ehangach. Roedd y menywod yn fwy cadarnhaol na'r dynion ynghylch effeithiau'r rhaglen, er, yn gyfrannol, roedd y dynion yn fwy tebygol o ddweud bod CaW wedi eu gwneud yn fwy abl i ymdopi â'r rhwystrau a oedd wedi eu gwneud yn anodd iddynt ddod o hyd i waith, a'i bod wedi eu cynorthwyo i ddod â mwy o strwythur i'w bywydau.

5.65 Nid yw'n syndod, efallai, bod cyfranogwyr a oedd wedi symud i mewn i gyflogaeth yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn dal i fod yn ddi-waith o ddweud bod CaW wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau, yn arbennig yn nhermau darparu mwy o strwythur i'w bywydau a theimlo'n fwy iach. Roedd y rhai a oedd mewn swyddi'n fwy tebygol hefyd o gysylltu cymryd rhan yn CaW â bod yn fwy abl i ymdopi â'r pethau a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt ddod o hyd i waith, ac â theimlo bod ganddynt well rheolaeth ar eu bywydau.

5.66 Roedd hi'n glir bod swydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i’r ffordd yr oedd rhai cyfranogwyr yn eu gweld eu hunain a'u bywydau’n gyffredinol. Fodd bynnag, mae hi'n annhebygol y gellir priodoli'r effeithiau cadarnhaol ar hunan-ganfyddiadau unigolion yn llwyr i CaW: cyfrannodd bod mewn swydd a phopeth sy'n dod yn sgil hynny yn nhermau ennill cyflog, rhyngweithio â phobl eraill, dilyn trefn ddyddiol ac ati, at fod â rhagolygon mwy cadarnhaol hefyd. CaW oedd dechrau'r siwrnai yn hytrach na'r daith gyfan.

**Astudiaeth Achos: Jackie**

Menyw ifanc groyw a medrus yw Jackie ac mae ganddi gefndir ym maes gofal plant ac arlwyaeth. Cafodd brofiad o gyd-reoli ei busnes ei hun am ychydig flynyddoedd hefyd.

Roedd Jackie wedi treulio'r ychydig flynyddoedd diwethaf yn magu ei phlant, a gyda’r ifancaf ohonynt yn dechrau ysgol lawn-amser, roedd hi'n gwybod bod rhaid iddi wneud newidiadau, ond roedd hi'n teimlo ei bod hi allan o’r arfer o weithio ar ôl treulio cymaint o amser allan o'r byd gwaith. Cafodd ei chymell i gysylltu â CaW gan y posibilrwydd o gael ei symud o Gymhorthdal Incwm i'r Lwfans Ceisio Gwaith.

Treuliodd Jackie dros 22 mis ar y rhaglen yn gweithio gyda mentor i ddod o hyd i swydd a oedd yn addas iddi hi ac a oedd yn cyd-fynd â'i chyfrifoldebau gofal plant. Yn y pen-draw, ffeindiodd waith fel cynorthwyydd cegin mewn ysgol uwchradd, swydd a oedd yn defnyddio'r sgiliau a oedd ganddi eisoes ac a oedd yn caniatáu iddi fod gartref gyda'i phlant y tu hwnt i oriau ysgol.

Mae Jackie wir yn mwynhau ei swydd newydd: mae hi'n tynnu mlaen yn dda â'i chydweithwyr ac mae hi'n teimlo ei bod hi'n dysgu pethau newydd o hyd. Mae hi'n mynd i mewn i'r gwaith yn gynnar ac yn aros yn hwyr i helpu, ac yn cael pleser mawr o'r cyfeillgarwch y mae'n ei gael o weithio gyda phobl eraill. Mae perthyn i gymuned ehangach yr ysgol wedi rhoi ymdeimlad o bwrpas i Jackie hefyd. Yn fwy na dim, mae'n mwynhau'r 'teimlad braf o fod ag arian yn [ei] phwrs i'w wario ar y plant.'

5.67 Soniodd staff CaW am fanteision ehangach cyfranogaeth i unigolion penodol. Ymhlith yr esiamplau penodol roedd:

- Unigolion yn 'ail-gysylltu' â'r gymdeithas ar ôl bod 'yn gaeth i'r cartref'.
- Pobl ifanc yn ymatal rhag cymryd cyffuriau 'am fod yr hyfforddiant wedi rhoi cymhelliant' iddynt.
- Unigolion yn cael 'hwb newydd i roi trefn ar eu bywydau mewn ffordd sy'n unigryw iddyn nhw' nid lleiaf o weld eu nodweddion i lawr ar bapur mewn CV.
- Rhieni'n dod 'yn hapusach [ac] yn mynd â'u plant allan'.
- Unigolion yn teimlo 'yn fwy bodlon eu byd'.

5.68 Trodd un cynghorydd drafodaeth am fanteision cymryd rhan ar ei phen trwy ddweud, mewn 20 mlynedd o gynorthwyo pobl i mewn i waith, nad oedd neb wedi dod nôl ati a dweud 'ei bod yn beth ofnadwy' i'w cynorthwyo i mewn i waith.

## 6. Costau'r Rhaglen a Gwerth am Arian

### Cyflwyniad

6.1 Yn y bennod hon, rydyn ni'n ystyried costau'r rhaglen hyd yn hyn a sut mae'r rheiny'n cymharu â'r disgwyliadau. Rydyn ni'n ystyried hefyd sut mae CaW yn cymharu â mentrau cyflogadwyedd eraill yn nhermau cost y dangosyddion allweddol o ran allbwn a deilliant.

6.2 Cyflwynir y bennod mewn dwy adran fel a ganlyn:

- Gwariant y rhaglen hyd yn hyn o gymharu â'r cyllidebau
- Y dangosyddion gwerth am arian[49].

### Gwariant ar y rhaglen o gymharu â'r cyllidebau

6.3 Mae Tabl 6.1 yn dangos dadansoddiad o'r costau ar draws y ddwy flaenoriaeth fel yr oedd pethau’n edrych yn Hydref 2017. Mae'r costau a ddangosir dipyn yn brin o'r costau y gellid eu disgwyl ar hyn o bryd, o dybio y dilynir proffil gwariant llinell syth ar draws oes gyfan y rhaglen. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, cymerodd CaW fwy o amser i'w sefydlu nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, ac mae hi'n debygol y bydd y costau'n cynyddu'n gynt wrth i'r rhaglen gael ei chyflwyno ar lefel ehangach.

**Tabl 6.1: Dadansoddiad o'r costau yn ôl blaenoriaeth yn Hydref 2017**

| | Dwyrain Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Cyfanswm | % y Gyllideb a Ymhlygwyd hyd Hydref 2017[50] | % o Gyllideb 2020 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenoriaeth 1 | £3,073,274 | £9,994,930 | £13,068,204 | 59% | 25% |
| Blaenoriaeth 3 | £1,161,729 | £4,119,936 | £5,281,665 | 62% | 27% |
| Cyfanswm | £4,235,003 | £14,114,866 | £18,349,869 | 60% | 26% |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Chwefror 2018*

[49] Mae’r cyfrifiadau sy'n sail i'r dangosyddion gwerth am arian yn Atodiad 1.
[50] Yn seiliedig ar gyllideb 2020 ac o gymryd y dilynir proffil gwariant llinell syth.

**Dangosyddion gwerth am arian**

6.4 Am fod CaW yn dal i fod yn weithredol, nid yw'r gwerthusiad hwn yn ceisio cyflawni unrhyw ddadansoddiad o'r elw ar fuddsoddiad y mae'r rhaglen yn ei gynnig e.e. yn nhermau gostyngiad yn y budd-daliadau sy'n cael eu hawlio neu'r cynnydd mewn refeniw trethiant o gymharu â chostau'r rhaglen. Fodd bynnag, gellir cael rhyw syniad o'r gwerth y mae CaW yn ei chynhyrchu trwy gymharu costau'r dangosyddion allweddol o ran allbwn a deilliant o ran cyflogaeth/cyflogadwyedd â'r rhai sy'n gysylltiedig ag ymyraethau eraill. Fodd bynnag, yn hynny o beth, dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Dim ond nawr y mae CaW yn cyrraedd llwyr weithrediad ac mae'n debygol y bydd y gymhareb costau i allbwn/deilliannau'n newid wrth i'r rhaglen aeddfedu.

- Mae yna wahaniaethau arwyddocaol rhwng ymyraethau cyflogadwyedd, er enghraifft yn nhermau'r grwpiau o gyfranogwyr targed, dyluniad y rhaglen a graddfa'r ymyrraeth.

- Nododd y Papur Blaenoriaeth 'cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch' a gynhyrchwyd yn rhan o Werthusiad Terfyn Rhaglenni'r ESF yng Nghymru 2007-13[51] bod ymyraethau'n mabwysiadu dulliau gwahanol iawn o fynd ati i ddiffinio beth a gynhwysir yn y costau cyflawni' [52], ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu prosiectau'n uniongyrchol.

6.5 Er gwaetha'r hyn a ddywedwyd uchod, dangosodd Papur Blaenoriaeth y Gwerthusiad Terfyn Rhaglen fod yna amrywiadau arwyddocaol ar draws prosiectau cyflogadwyedd a ariennir gan ESF yn nhermau'r costau fesul cyfranogwr, gyda'r costau'n amrywio o £1,097 i £4,451 ar draws y gwahanol brosiectau a adolygwyd. Ar gyfartaledd, fodd bynnag, roedd y costau fesul

[51] Tynnodd y Papur Blaenoriaeth ynghyd ganfyddiadau'r gwerthusiadau o brosiectau wedi eu hariannu gan ESF â'r nod o gynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch economaidd yn ystod cyfnod rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewrop 2007-13. Roedd y papur yn cymharu dangosyddion allweddol o ran cost/gwerth am arian ar draws nifer o brosiectau ESF ag uchelgeisiau tebyg i CaW yn nhermau symud pobl ddi-waith ac economaidd anweithgar i mewn i waith.

[52] OB3 (2017) Papur Adolygu Gwerthusiad Terfyn Rhaglen Blaenoriaeth Cymru: Cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch, t.19.

cyfranogwr a gysylltwyd 'ychydig dros £1,700' yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd[53].

6.6 Roedd y gost gyfartalog yma'n gysylltiedig â phrosiectau a ariannwyd o dan:

- Flaenoriaeth 2 Rhaglen Cydgyfeiriant yr ESF
- Blaenoriaeth 1 Rhaglen Gystadleurwydd a Chyflogaeth Ranbarthol ESF

Nod y blaenoriaethau hyn oedd 'codi lefelau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd a diogelu mwy o gyfranogaeth yn y farchnad lafur'[54] ac felly, maent yn adlewyrchu'n glos uchelgeisiau Blaenoriaeth 1 rhaglenni ESF 2014-20 yn Nwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

6.7 Y gost a ragwelwyd fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 1 ar gyfer CaW (fel yr oedd yr achos busnes estynedig yn ei ymhlygu) oedd £1,146 ledled Cymru, er y disgwyliwyd i'r gost ar gyfer Dwyrain Cymru fod rhyw fymryn yn uwch na'r gost ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae hyn i'w gweld yn ddarbodus iawn ar lefel o ryw 67 y cant o gost gyfartalog fesul cyfranogwr prosiectau cyflogadwyedd eraill a ariannwyd o dan raglenni ESF 2007-14.

6.8 Rhagwelwyd y byddai'r gost fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 3 rhywfaint yn uwch na'r gost fesul cyfranogwyr Blaenoriaeth 1, ar gyfartaledd o £2,589 ledled Cymru. Gellir priodoli hyn yn rhannol i gymhareb uwch o fentoriaid CaW i gleientiaid Blaenoriaeth 3.

6.9 Mae Ffigur 6.1 yn cymharu'r gost a ragwelwyd fesul cyfranogwr â'r gwir gost ar gyfer pob blaenoriaeth ar draws y ddau ranbarth fel yr oedd pethau'n sefyll yn Hydref 2017.


6.10 Ar y pwynt yma yn oes y rhaglen, mae'r costau fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 1 rhywfaint yn uwch na'r costau meincnod a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes. Mae hyn yn arbennig o wir yn Nwyrain Cymru, lle'r gost hyd yn hyn yw £1,717 y cyfranogwr, o gymharu â ffigur meincnod o £1,311. Y gost gymharol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd oedd £1,695 o gymharu â

[53] OB3 (2017) Papur Adolygu Blaenoriaeth Gwerthusiad Terfyn Rhaglen Cymru: Cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch, t.19

[54] Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (2009) 'Rhaglen Cydgyfeiriant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd - Rhaglen Weithredol ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2007-2014' t.127

meincnod o £1,151. Gellir priodoli'r costau uwch yma fesul cyfranogwr i'r ffaith fod cysylltiadau hyd yn hyn wedi bod ymhellach y tu ôl i dargedau cyffredinol y rhaglen nag y mae'r costau hyd yn hyn y tu ôl i gyllideb y rhaglen. Gellir disgwyl i'r costau fesul cyfranogwr ddod yn nes at y disgwyliadau wrth i recriwtio fagu momentwm ac wrth i gostau gweithredu'r rhaglen (e.e bod â staff yn eu swyddi heb faich achosion cyflawn) gael eu hamsugno dros amser.

**Ffigur 6.1: Cymhariaeth o'r gost a ragwelwyd a'r gwir gost fesul cyfranogwr**




*Ffynhonnell: Pecyn gwybodaeth monitro CaW, Tachwedd 2017*

6.11 Roedd y gost fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 3 yn is na'r gost meincnod ar lefel o £1,440 fesul cyfranogwr yn Nwyrain Cymru o gymharu â meincnod o £2,771, a £1,088 fesul cyfranogwr yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn erbyn meincnod o £2,596.

6.12 Gellir priodoli'r gwahaniaethau hyn ar draws y blaenoriaethau yn rhannol i'r perfformiad sylweddol cadarnach o ran cysylltiadau Blaenoriaeth 3 ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

*Cost fesul deilliant*

6.13 Cyfeiriodd y Papur Blaenoriaeth Gwerthusiad Terfyn Rhaglen at amrywiadau sylweddol yn y gost fesul deilliant swyddi ar draws prosiectau cyflogadwyedd a ariennir gan yr ESF hefyd, gyda 'chostau uwch fesul deilliant... yn aml yn

cael eu priodoli i'r ffaith fod prosiectau'n gweithio gyda'r cyfranogwyr sydd pellaf o'r farchnad lafur ac sydd angen cymorth dwys i oresgyn rhwystrau cymhleth i waith'[55]. Roedd y costau fesul deilliant swydd yn amrywio o £5,768 i £22,000, er taw £6,574 oedd y cyfartaledd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, a £6,782 yn Nwyrain Cymru. Dangosodd adolygiad o lenyddiaeth ynghylch ymyraethau cyflogadwyedd a'r sgiliau hanfodol yn Lloegr fod costau fesul swydd yno'n amrywio o £4,630 i £5,736 ar draws amrywiaeth o brosiectau sy'n cael eu noddi gan awdurdodau lleol[56].

6.14 Ar gyfartaledd o £6,600 ar draws Cymru, mae'r gost ddisgwyliedig fesul deilliant swydd Blaenoriaeth 1 ar gyfer CaW i'w gweld yn gyson ag ymyraethau cyflogadwyedd blaenorol ar gyfer oedolion a ariannwyd gan yr ESF yng Nghymru, er bod hyn ychydig bach yn uwch na'r llond llaw o brosiectau yn Lloegr a amlygwyd yn y lenyddiaeth.

6.15 Roedd y gost a ragwelwyd fesul deilliant swydd a gyflawnwyd ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn uwch na'r disgwyl ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 ar gyfartaledd o £9,407, ond rhaid cofio taw un yn unig o ddau ddeilliant terfyn a bennwyd ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 oedd swyddi.

6.16 Mae Ffigur 6.2 yn cymharu'r gost a ragwelwyd fesul deilliant swydd â'r gwir gost yn Hydref 2017 am bob blaenoriaeth ar draws y ddau ranbarth. Mae'n dangos bod y gost fesul deilliant swydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 1 yn cyd-fynd yn dda â meincnodau 2020. Ar lefel o £6,110, roedd y gost fesul deilliant swydd yn Nwyrain Cymru ychydig bach yn is na'r meincnod o £6,510, tra bod y gost fesul deilliant swydd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ar lefel o £7,232 ychydig bach yn uwch na'r meincnod o £6,631.


6.17 Roedd y gost fesul deilliant swydd Blaenoriaeth 3 yn sylweddol is na'r meincnodau a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes ar draws Dwyrain Cymru (£4,861 o gymharu â £9,656) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (£3,339 o gymharu â £9,318). Gellir priodoli hyn i'r perfformiad cadarn o ran deilliannau swyddi ar draws y ddau ranbarth, a oedd yn golygu bod y gymhareb costau

[55] OB3 (2017) Papur Adolygu Blaenoriaeth Gwerthusiad Terfyn Rhaglen Cymru: Cynyddu cyflogaeth a lleihau anweithgarwch. Caerdydd: Llywodraeth Cymru,t.40.
[56] Cwmni Ymchwil Arad (2015) Adolygiad o lenyddiaeth i fwydo datblygiad y rhaglen cyflogadwyedd newydd i oedolion. Caerdydd, Llywodraeth Cymru. t.35.

staff (sy'n sefydlog i bob pwrpas) i ddeilliannau swyddi'n is na'r disgwyl (ac roedd y gost fesul deilliant swyddi'n is o ganlyniad).

6.18 Yn wir, o ystyried bod symud i mewn i waith neu i mewn i addysg neu hyfforddiant yn ddeilliannau terfyn ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, gellir dadlau bod y gost fesul datblygiad cadarnhaol yn ddangosydd mwy ystyrlon o'r gwerth y mae'r rhaglen yn ei chynnig. Ar gyfartaledd o £6,185 y deilliant swyddi/addysg/hyfforddiant ar draws Cymru, daw cost deilliannau sumudiadau cadarnhaol ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 yn fwy cyson â'r gost fesul deilliant swyddi ar gyfer Blaenoriaeth 1.

**Ffigur 6.2: Cymhariaeth o'r gost a ragwelwyd a'r gwir gost yn ôl deilliannau swyddi**[57]




*Ffynhonnell: Pecyn gwybodaeth monitro CaW, Tachwedd 2017*

6.19 Prif nod CaW yw symud cyfranogwyr yn agosach at waith neu i mewn i waith, ond nod arall y rhaglen yw galluogi cyfranogwyr i ennill ardystiadau a chymwysterau galwedigaethol, ac yn achos cyfranogwyr Blaenoriaeth 3, i symud i mewn i addysg neu hyfforddiant. Gellid defnyddio dull tebyg i'r dull a ddefnyddiwyd i amcangyfrif y gost fesul deilliant swydd i gyfrif y costau a

[57] Mae niferoedd y cysylltiadau a'r deilliannau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r dangosyddion gwerth am arian yn seiliedig ar y wybodaeth reoli ddiweddaraf a gafwyd gan y partneriaid sy'n darparu'r rhaglen, ond mae'r ffigurau gwariant yn adlewyrchu gwir hawliadau ariannol y partneriaid. Gall yr hawliadau ddilyn ar ôl yr adroddiadau am niferoedd y cysylltiadau a'r deilliannau, felly mae hi'n bosibl y bydd y dangosyddion gwerth am arian yn amrywio dros oes y rhaglen. Fodd bynnag, maent yn rhoi syniad o sut y mae'r rhaglen yn perfformio mewn perthynas â'r meincnodau gwerth am arian allweddol ar y pwynt yma yn ei hoes.

ragwelir a'r gwir gostau sydd ynghlwm wrth ennill cymwysterau a symud ymlaen i addysg/hyfforddiant fesul cyfranogwr. Fodd bynnag, mae yna rai ffactorau pwysig sy'n cyfyngu ar werth y rhain fel dangosyddion o'r gwerth am arian y mae CaW yn ei gynnig:

- mae natur, dwyster a chost yr hyfforddiant y mae’r cyfranogwyr yn ei gyflawni i ennill cymwysterau penodol yn amrywio'n sylweddol. Ar naill ben y sbectrwm, gall cyfranogwyr gyflawni ardystiadau sy'n berthnasol i waith trwy fynychu cyrsiau undydd, ac ar y llall, gall cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau a achredir o dan y CQFW (a gyflawnir weithiau ochr yn ochr â lleoliadau gwaith) gymryd sawl mis i'w cwblhau

- mae niferoedd y cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 y disgwylir iddynt symud i mewn i addysg neu hyfforddiant yn gymharol fychan, ac felly bydd y costau fesul cyfranogwr sy'n symud ymlaen i'w gweld yn anghyfartal o uchel.

# 7. Casgliadau ac Argymhellion

## Cyflwyniad

7.1 Pwrpas y drydedd ran o'r gwerthusiad, a'r olaf, oedd asesu effeithiolrwydd cyffredinol rhaglen CaW. Mae'r adroddiad wedi canolbwyntio ar yr allbwn a'r deilliannau a gyflawnwyd ac ar y gwerth am arian y mae'r rhaglen yn ei gynnig. Ystyriwyd y rhwystrau i gyflogaeth sy'n wynebu cyfranogwyr CaW, a natur ac effeithiolrwydd y cymorth y maent yn ei gael, gan dynnu ar y Theori Newid (ToC) sydd wrth wraidd y rhaglen. Mae'r adroddiad hefyd wedi cyflwyno astudiaethau achos ar gyfranogwyr er mwyn amlygu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu ac esiamplau o arfer da.

7.2 Wrth ystyried sail y dystiolaeth ar gyfer canfyddiadau'r adroddiad, mae hi'n bwysig cofio nad oedd data o Arolwg Cyfranogwyr yr ESF ar gael. Disgwyliwyd i'r Arolwg ddarparu tystiolaeth gadarn am nodweddion y cyfranogwyr ac effeithiau'r rhaglen arnynt. Am hynny, mae'r canfyddiadau'n seiliedig i raddau helaeth ar ddadansoddiad o gronfa ddata'r rhaglen ac ar waith maes ansoddol gyda'r staff cyflawni a sampl bach o'r cyfranogwyr. Mae'r ffaith fod y sampl o gyfranogwyr yn fach o ran nifer yn cyfyngu ar y casgliadau y gellir eu gwneud am brofiadau a deilliannau'r cyfranogwyr.

7.3 Mae hi'n werth nodi hefyd, adeg comisiynu'r gwerthusiad y bwriad oedd y byddai CaW yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Ers hynny fodd bynnag, mae CaW wedi cael eu hymestyn i Ragfyr 2020, ac felly mae'n rhy gynnar dod i gasgliadau cadarn am effeithiau cyffredinol y rhaglen a'r gwerth am arian y mae'n ei gynnig ar y pwynt yma yn oes y rhaglen.

7.4 Yn amodol ar y ddau gafeat yma, yn y bennod olaf yma, rydyn ni'n ystyried y canfyddiadau allweddol ac yn dod i gasgliadau am effeithiolrwydd y rhaglen a'i heffaith hyd yn hyn, ac yn rhoi syniad o'r gwerth am arian y gallai ei gynnig. Yn hynny o beth, rydyn ni wedi tynnu ar ac wedi manteisio ar y Theori Newid a oedd wrth wraidd y rhaglen.  Rydyn ni'n tynnu sylw hefyd at yr argymhellion sy'n deillio o'r dadansoddiad yma.

7.5 Cyflwynir y bennod hon mewn chwech adran fel a ganlyn:

- gweithrediad y rhaglen
- perfformiad y rhaglen yn nhermau cysylltiadau
- perfformiad y rhaglen yn nhermau deilliannau
- cyfraniad y rhaglen at y Themâu Trawsbynciol
- Theori Newid y rhaglen
- effeithiau'r rhaglen a gwerth am arian

**Gweithrediad y rhaglen**

7.6 Effeithiodd oedi wrth sefydlu'r rhaglen ac integreiddio timau staff DWP a CCA ar berfformiad yn ystod dwy flynedd cyntaf y rhaglen. O ystyried yr oedi yma, croesawyd yr estyniad a'r ailbroffilio a wnaed mewn perthynas â'r rhaglen, am ei bod yn golygu bod targedau'r rhaglen bellach yn cael eu hystyried yn fwy realistaidd.

7.7 Mae CaW wedi bwrw gwreiddiau yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd o dan sylw erbyn hyn, mae'r perthnasau gwaith rhwng y CCA a DWP wedi gwella ar y cyfan, ac mae dull cadarnach o weithio fel un tîm bellach yn amlwg. Mae JCP yn dal i fod yn ffynhonnell allweddol o ran cyfeiriadau at CaW, ac mae'n ymddangos yn debyg y bydd hyn yn parhau wrth i'r diwygiadau lles barhau i afael. Mae hi'n bwysig felly, wrth i dimau clwstwr CaW barhau i 'normaleiddio', nad yw'r cynghorwyr yn 'ymwahanu' oddi wrth y JCP, ac nad yw eu gwybodaeth am y system fudd-daliadau'n dirywio. Fodd bynnag, daw'n bwysig i'r timau CaW ddal ati i ehangu eu ffynonellau cysylltu a dal ati i weithio'n uniongyrchol yn y cymunedau er mwyn i'r rhaglen gyrraedd y bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

7.8 Ar y cyfan, ystyrir bod CaW yn cael ei reoli'n dda gan Lywodraeth Cymru, y CCA a'r DWP, a bod cyfathrebu rhwng y rheolwyr gweithredol a staff y rheng flaen yn gwella dros amser. Gwerthfawrogir y cyfarfodydd chwarterol sy'n cael eu trefnu gan Lywodraeth Cymru, ac ystyrir bod y Canllawiau Gweithredol

diwygiedig yn adnodd mwy cynhwysfawr a chlir. Awgrymodd y cyfweliadau â staff gweithredol yn ystod rhan olaf y gwaith maes eu bod nhw'n gliriach am eu rolau ac am ddisgwyliadau'r rhaglen hefyd.

7.9 Mae goblygiadau cau CG ar CaW wedi cael eu rheoli'n effeithiol. Er gwaethaf pryderon rheolwyr a staff gweithredol am effaith bosibl colli seilwaith CG, bach iawn o effaith a gafwyd ar y rhaglen hyd yn hyn mewn gwirionedd. Mae rhai o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym wedi gweld cau CG fel cyfle i ddatblygu a chryfhau CaW, gan gyfeirio, er enghraifft, at y cyfleoedd a gaiff eu creu trwy sefydlu Cymunedau am Waith a Mwy[58].

7.10 Mae'r trefniadau sy'n ymwneud â threfnu hyfforddiant a gafaeliwyd yn benodol gan Lywodraeth Cymru i ddiwallu anghenion cyfranogwyr CaW wedi gwella'n nodedig, er bod yna broblemau o hyd gyda'r amserlenni a gydag argaeledd hyfforddiant mewn rhai ardaloedd.

**Perfformiad y rhaglen: cysylltiadau**

7.11 Yn Hydref 2017, roedd nifer y bobl ifanc (Blaenoriaeth 3) a gysylltwyd wedi rhagori ar y lefel a broffiliwyd, ond roedd lefel y cyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith tymor hir (Blaenoriaeth 1) dipyn yn is na'r lefel a broffiliwyd.

7.12 Mae nifer o ffactorau yn helpu i esbonio'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng Blaenoriaeth 1 a Blaenoriaeth 3:

- Mae'r gymhareb o fentoriaid ieuenctid i dargedau cyfranogaeth ym Mlaenoriaeth 3 yn sylweddol uwch na'r gymhareb o fentoriaid oedolion i dargedau cyfranogwyr Blaenoriaeth 1[59]. Mae hyn yn golygu bod targedau a phroffiliau cyffredinol y rhaglen hyd yn hyn yn fwy ymestynnol ar gyfer Blaenoriaeth 1 na Blaenoriaeth 3.

58 Mae hi'n debygol y bydd cyflwyniad CaW+ a'r hyblygrwydd ychwanegol y bydd hyn yn ei gynnig yn helpu i leddfu rhai o bryderon staff y rheng flaen.
59 Er bod cynghorwyr yn gweithio gydag oedolion yn bennaf.

- Yn rhannol am eu bod wedi dechrau'n gynt, mae gan y cynghorwyr feichiau achos Blaenoriaeth 3 uwch na’r disgwyl, er y dylai hyn newid nawr bod yr holl fentoriaid ieuenctid yn eu swyddi.

- Mae hi'n debygol y bydd yna fwy o barodrwydd a chymhelliant ymysg pobl ifanc i gysylltu â'r rhaglen, am nad oes gofyn iddynt fod mor 'datgysylltiedig' o'r farchnad lafur â'r rhai dros 25 oed[60].

- Yn aml roedd gan y mentoriaid ieuenctid gefndir ym maes gwaith ieuenctid (neu faes tebyg) ac roeddent yn gysylltiedig â rhwydweithiau lleol (gan gynnwys partneriaethau YEPF) wrth gychwyn yn eu rolau, mae hyn wedi helpu i 'sianelu' pobl at CaW.

7.13 Mae tanberfformiad mewn perthynas â phobl 25+ oed (Blaenoriaeth 1) i'w gweld yn sialens systemaidd, gyda thystiolaeth gyfyngedig ar lefel rhaglen fod CaW wedi perfformio'n dda gyda rhai grwpiau targed.

7.14 Mae perfformiad cyffredinol y rhaglen yn celu'r amrywiadau sylweddol mewn perfformiad hefyd. Yn benodol, mae perfformiad hyd yn hyn yn erbyn y proffiliau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dueddol o fod yn gryfach nag yn Nwyrain Cymru. Mae yna amrywiadau sylweddol mewn perfformiad rhwng ardaloedd hefyd, a hefyd ar draws gwahanol flaenoriaethau o fewn ardaloedd, gyda rhai ardaloedd, er enghraifft, yn perfformio'n gadarn nhermau cysylltiadau Blaenoriaeth 1, ond yn wael mewn perthynas â chysylltiadau Blaenoriaeth 3.

7.15 Nid oes yna'r un ffactor sy'n esbonio'r amrywiad mewn perfformiad ar draws yr ardaloedd ar ei ben ei hun. Mae cyfuniad o ffactorau wedi chwarae rhan yn hyn o beth. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys maint ardaloedd CaW, a chryfder y marchnadoedd lafur lleol, am ba hyd yr oedd y rhaglen wedi ei sefydlu mewn ardal, ffactorau 'dynol' fel sgiliau aelodau unigol o'r tîm a'r perthnasau rhwng unigolion a phartneriaid.

[60] Rhaid i'r bobl 25+ oed fod naill ai'n ddi-waith tymor hir neu'n economaidd anweithgar.

7.16 Wrth ystyried perfformiad y rhaglen hyd yn hyn, a'i ragolygon i gyflawni targedau 2020, mae hi'n bwysig ystyried effaith newidiadau yn economi Cymru. Yn benodol, dywedodd nifer o'r bobl a gafodd eu cyfweld gennym y byddai'r targedau cysylltu'n ymestynnol i'w cyflawni, am fod y rhaglen mewn man gwahanol yn y cylch economaidd i ble yr oedd adeg ei datblygu yn 2014/15. Mae cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd wedi disgyn ers hynny, felly mae hi'n bosibl na fydd yr un lefel o angen yn 2018 a thu hwnt (gan ei gwneud yn anos cysylltu'r niferoedd o gyfranogwyr a ragwelwyd). Yn gyferbyniol fodd bynnag, mae twf economaidd yn debygol o helpu'r rhaglen i gyflawni ei thargedau o ran deilliannau swyddi (trafodir hyn isod).

7.17 Wrth edrych tua'r dyfodol, o gymryd y bydd y proffil recriwtio'n dilyn llinell syth ar draws oes y rhaglen, mae'r perfformiad hyd yn hyn yn awgrymu y bydd y rhaglen yn rhagori ar ei thargedau cysylltu ar gyfer pobl ifanc (Blaenoriaeth 3) ond y bydd dipyn yn brin o'i thargedau cysylltu mewn perthynas â chyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith tymor hir (Blaenoriaeth 1).

7.18 Fodd bynnag, mae yna optimistiaeth ymysg rheolwyr y rhaglenni y bydd y gyfradd gysylltu ar gyfer cyfranogwyr, yn arbennig rhai Blaenoriaeth 1, yn cyflymu wrth i'r rhaglen godi momentwm oherwydd, newidiadau i fudd-daliadau lles, ac oherwydd newidiadau i bolisi a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru e.e. cyflwyniad Cymru'n Gweithio, y rhaglen gyflogadwyedd sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae effaith y newidiadau hyn yn dal i fod yn ansicr, a gallai effaith newidiadau eraill wrthbwyso'r effaith ar gysylltiadau.

7.19 Er gwaethaf yr ansicrwydd cynhenid am ddarogan perfformiad at y dyfodol, rydyn ni'n bwyllog wrth rannu optimistiaeth rheolwyr y rhaglen y bydd cysylltiadau'n cynyddu. Rydyn ni'n cytuno bod targedau Blaenoriaeth 3 yn debygol o gael eu cyflawni, er ein bod ni'n amau y caiff targedau Blaenoriaeth 1 eu cyflawni'n llwyr. Mae'r farn yma'n seiliedig ar y dystiolaeth ganlynol:

- Mae perfformiad mewn perthynas â chysylltu pobl ifanc (Blaenoriaeth 3) wedi bod yn gadarn hyd yn hyn, ond yn gyferbyniol, mae perfformiad

mewn perthynas â chysylltu pobl dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) wedi bod yn wannach.

- Mae'r rhaglen wedi hen fwrw gwreiddiau yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Gallai rhai o effeithiau hyn, fel y rhai sy'n gysylltiedig â sefydlu timau a phartneriaethau, arwain at gynnydd tymor byr yng nghyfradd y cysylltiadau cyn gwastatáu (e.e. pan fydd timau'n cyrraedd eu capasiti llawn mae cyfradd y cynnydd mewn cysylltiadau'n debygol o arafu). Fodd bynnag, gallai effeithiau eraill, fel enw da a phroffil cynyddol CaW, arwain at gynnydd parhaus yng nghyfradd y cysylltiadau dros amser.

- Mae yna dystiolaeth hefyd bod y diwygiadau lles sydd eisoes wedi dod i rym, fel gostwng oedran plant pan fo rhaid i rieni ddechrau chwilio am waith, wedi cael effaith gadarnhaol ar gysylltiadau. Mae hi'n rhesymol disgwyl y caiff newidiadau pellach effaith debyg (yn fwyaf nodedig cyflwyniad ehangach y Credyd Cynhwysol), er y gallai gymryd amser i deimlo'r effeithiau o ystyried problemau posibl wrth roi'r Credyd Cynhwysol ar waith, er enghraifft.

- Mae hi'n anodd ar y naw darogan effeithiau Brexit, o gymryd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol perthynas y DU. Gallai gael effaith 'gadarnhaol' ar gysylltiadau â'r rhaglen (e.e. os bydd cyfraddau diweithdra'n cynyddu) ac effaith negyddol ar gysylltiadau â'r rhaglen (e.e. os nad yw mewnfudwyr economaidd o Ewrop am ddod i chwilio am waith yng Nghymru).

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro cysylltiadau ar bob lefel (rhaglen ac ardal/rhanbarth a blaenoriaeth) er mwyn sicrhau, os na fydd y gyfradd cysylltiadau'n cynyddu yn ôl y disgwyl, bod hyn yn dod i'r amlwg yn gynnar, fel y gellir cymryd camau sy’n cyd-fynd ag argymhellion yr adroddiad.

Argymhelliad 2

Dylai timau cyflawni lleol ystyried canolbwyntio mwy o amser y cynghorwyr ar gyfranogwyr Blaenoriaeth 1, gan gyfeirio cleientiaid o dan 25 oed at Fentoriaid Ieuenctid fel mater o drefn. Dylai sefydliad timau CaW 'cyflawn' (â chynghorwyr a mentoriaid) yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd hwyluso hyn yn y dyfodol.

Argymhelliad 3

Dylai'r DWP a'r CCA ystyried mabwysiadu trefniadau cysgodi lle bo perfformiad ar draws clystyrau i'w gweld yn amrywio, gyda staff o'r ardaloedd nad ydynt yn perfformio cystal yn cael cyfle i gysgodi cydweithwyr mewn ardaloedd sy'n perfformio'n well.

Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau nad yw'r pwysau i gyflawni targedau pennawd yn dod ar draul ymdrechion i dargedu cyfranogwyr sy'n 'anos eu cyrraedd' (y bwriedir iddynt fod yn fuddiolwyr allweddol i CaW).

Argymhelliad 5

Dylai rheolwyr darparu DWP, rheolwyr CCA a staff cyflawni'r rheng flaen barhau i weithredu ar sail yr argymhellion a wnaed yn adroddiad Gwerthuso'r Broses, er enghraifft:

- cryfhau'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda thimau JCP lleol ac i sicrhau bod cleientiaid yn cael eu cyfeirio at y math priodol o gymorth o fewn y rhaglen CaW
- datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cysylltiadau ystyrlon â phartneriaid eraill a ffynonellau cyfeirio eraill.

### Perfformiad y rhaglen: deilliannau

7.20 Yn rhannol, mae perfformiad y rhaglen mewn perthynas â'r deilliannau yn dibynnu ar berfformiad y rhaglen yn nhermau cysylltiadau. Mae'r perfformiad cadarnach o ran deilliannau swyddi yn erbyn y proffiliau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â pherfformiad Dwyrain Cymru yn adlewyrchiad o'r perfformiad cadarnach yn erbyn y proffiliau hyd yn hyn yn nhermau cysylltiadau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o gymharu â Dwyrain Cymru. Yn yr un modd, mae'r perfformiad cadarnach yn erbyn proffiliau yn nhermau deilliannau swyddi ar gyfer pobl ifanc (Blaenoriaeth 3), o gymharu â'r rhai dros 25 oed (Blaenoriaeth 1) yn adlewyrchiad o'r perfformiad cadarnach yn nhermau cysylltu pobl ifanc.

7.21 Mae'r gwahaniaethau o ran cysylltiadau yn helpu i esbonio rhai o'r amrywiadau yn nhermau deilliannau ar lefel ardal hefyd, er nad pob un. Yn yr un modd â'r cysylltiadau, mae ffactorau cyd-destunol yn chwarae eu rhan hefyd, gan gynnwys, er enghraifft, cyflwr marchnadoedd llafur lleol; ers faint o amser y sefydlwyd y rhaglen; a sgiliau aelodau unigol o dimau.

7.22 Am hynny, mae'r perfformiad gwannach nag y gobeithiwyd amdano yn nhermau cysylltu cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn sialens yn nhermau deilliannau cyflogaeth. Fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei wrthbwyso i ryw raddau gan y 'gyfradd drosi' uwch na'r disgwyl o gyfranogwyr economaidd anweithgar a NEET yn benodol, am fod cyfran uwch na'r disgwyl o'r cyfranogwyr hyn wedi cyflawni deilliannau o ran swyddi.[61] Mae hyn yn gryfder allweddol i'r rhaglen ac mae'n pwyntio at ei heffeithiolrwydd wrth fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth.

7.23 Yn yr un modd â rhaglenni cyffelyb, fel Awyddus i Weithio ac Esgyn, mae cyflawniad deilliannau o ran swyddi’n amrywio rhwng y gwahanol grwpiau o gyfranogwyr, gyda rhai yn fwy tebygol nag eraill o ddod o hyd i waith. Yn nodweddiadol, cyfranogwyr oedd y rhain â llai o rwystrau neu rwystrau llai

[61] Yn gyferbyniol, er bod y gyfradd drosi ymysg cyfranogwyr di-waith tymor hir yn uwch na'r disgwyl, roedd yn agosach at y 17 y cant a ddisgwyliwyd yn Nwyrain Cymru ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd.

difrifol, fel y rhai heb salwch sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio a'r rhai â chymwysterau lefel uwch.

7.24 Mae dadansoddiad o gronfa ddata'r prosiect yn dangos y cafodd cyfran uchel o'r deilliannau swyddi hyd yn hyn eu cyflawni cyn pen tri mis. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth o gyfweliadau â staff a chyfranogwyr y rhaglen sy'n awgrymu nad yw'r rhaglen wedi mynd i'r afael â rhwystrau mwy cymhleth neu ddyfnach hyd yn hyn. Mae lefelau isel o gymhelliant (e.e. ymysg y rhai sy'n gwneud dim ond beth sydd angen ei wneud i gadw'r hyfforddwyr gwaith yn dawel) a'r ffyrdd y gall rhwystrau greu 'ymrwymiad amodol' i waith, i'w gweld yn arbennig o anodd eu goresgyn. Ymysg y rhwystrau mawr eraill mae rhai sy'n ymwneud â sefyllfaoedd pobl, fel gofal plant a chludiant; lefelau isel o sgiliau, cymwysterau[62] a/neu ddiffyg profiad; a rhwystrau cymdeithasol ac emosiynol (fel diffyg hunanhyder ac iechyd meddwl gwael). Nid oes unrhyw un o’r rhwystrau hyn yn absoliwt, ac roedd yna nifer fawr o esiamplau o gyfranogwyr a oedd wedi goresgyn rhwystrau cymhleth gyda chymorth y rhaglen, ac wedi trawsnewid eu bywydau trwy hynny. Fodd bynnag, fel y gellid ei ddisgwyl, ar gyfartaledd roedd y rhai â llai o rwystrau yn fwy tebygol o symud i mewn i waith na'r rhai â rhwystrau mwy cymhleth.

7.25 Mae effaith y rhwystrau (gan gynnwys lefelau isel o gymhelliant) yn cael effaith sylweddol ar bwy sy'n dewis cysylltu â'r rhaglen ac i ba raddau y maent yn derbyn y cymorth y mae CaW yn ei gynnig. Mae'n golygu, er gwaetha'r dyhead i gefnogi'r rhai sydd â'r rhwystrau mwyaf cymhleth, ar adegau mae'r rhaglen wedi ei chael hi'n anodd naill eu cysylltu neu eu cynorthwyo'n effeithiol. Ychydig o dystiolaeth yn unig oedd yna o strategaeth bwrpasol o 'ddethol a pharcio', yn yr ystyr bod y staff yn blaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf parod am waith ac yn rhoi'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur i'r neilltu. Yn wir, roedd y cynghorwyr a'r mentoriaid yn aml yn gyndyn i 'roi'r ffidil yn y to' gyda chyfranogwyr er eu bod yn bell o'r farchnad lafur. Fodd bynnag, y cyfranogwyr cryfaf eu cymhelliant oedd fwyaf tebygol o gysylltu'n gadarn â'r cymorth a gynigiwyd, ac roeddent yn cael eu 'blaenoriaethu' i bob pwrpas felly e.e. am

[62] Roedd hi'n nodedig, er enghraifft, bod y rhai â chymwysterau lefel uwch yn fwy tebygol o gychwyn cyflogaeth na'r rhai heb unrhyw gymwysterau, neu heb fawr o gymwysterau.

eu bod yn cyfarfod â'r cynghorwyr/mentoriaid yn fwy cyson ac yn manteisio ar fwy o'r hyn oedd gan CaW i'w gynnig fel hyfforddiant a chyfleoedd i wirfoddoli.

7.26 Wrth edrych tua'r dyfodol, o gymryd y bydd deilliannau cyflogaeth yn dilyn tueddiad llinell syth ar draws oes y rhaglen, mae'r perfformiad hyd yn hyn yn awgrymu y bydd y rhaglen yn rhagori ar ei dargedau deilliant ar gyfer pobl ifanc (Blaenoriaeth 3) o gymaint â 75 pwynt canrannol, ond bydd rhywfaint yn brin o'i dargedau o ran deilliannau swyddi ar gyfer cyfranogwyr economaidd anweithgar a di-waith tymor hir (Blaenoriaeth 1). Mae'r targedau mwy ymestynnol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn golygu bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig bach y tu ôl i Ddwyrain Cymru ar y pwynt yma yn y rhaglen yn nhermau cynnydd tuag at y targedau o ran deilliannau swyddi ar gyfer 2020.

7.27 Fodd bynnag, mae yna rywfaint o le i fod yn optimistaidd y bydd y deilliannau swyddi ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn parhau i wella, ac er gwaethaf maint yr her, y gwneir cynnydd da tuag at gyflawni targedau 2020. Mae'r farn yma'n seiliedig ar y dystiolaeth ganlynol:

- Y disgwyliad y bydd cysylltiadau'n parhau i gynyddu (a bydd hyn yn hanfodol i gyflawni'r targedau o ran deilliannau swyddi).
- Y gyfradd drosi gadarn y disgwylir iddi barhau. Mae'r timau CaW wedi hen fwrw gwreiddiau erbyn hyn ac maent yn gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ac wrth i'r rhaglen fagu momentwm, mae hi'n rhesymol tybio y cynhelir y gyfradd drosi yma. Gyda mwy o amser, mae hi'n bosibl y gall y rhaglen (a'r cynghorwyr/mentoriaid) helpu mwy o'r bobl hynny sydd â rhwystrau mwy cymhleth i mewn i waith. 63
- Mae newidiadau 'gweinyddol' i'r rhaglen, ac yn fwyaf nodedig, y ffaith fod WEFO yn derbyn 'hunan-ddatganiadau' o gyflogaeth gan gyfranogwyr erbyn hyn, yn ei gwneud hi'n haws tystiolaethu deilliannau swyddi.

[63] Mae'r dystiolaeth o'r amser y mae cyfranogwyr yn ei dreulio ar y rhaglen cyn cychwyn cyflogaeth yn darparu tystiolaeth rhannol yn unig o hyn, gyda'r rhan fwyaf yn cychwyn cyflogaeth cyn pen 3 mis, er bod niferoedd yn parhau i gychwyn cyflogaeth ymhen 4-6, 7-12 a 12+ mis.

7.28 Yn gyferbyniol, mae deilliannau mewn perthynas â chymwysterau neu ardystiad sy'n berthnasol i waith yn arbennig o wan, er y gallai hyn fod yn rhannol am ei bod hi'n cymryd yn hirach i rai deilliannau o'r math yma (ac yn fwyaf nodedig cymwysterau llawn neu lefel uwch) gael eu gwireddu. Gallai cau Cymunedau yn Gyntaf gael effaith hefyd, oherwydd yn nyddiau cynnar CaW, roedd llawer o'r hyfforddiant yr oedd y cyfranogwyr yn ei dilyn yn cael ei ddarparu dan enw CG, ac nid oedd yn cael ei hawlio fel 'deilliannau' CaW felly.

Argymhelliad 6

Dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro deilliannau ar bob lefel (rhaglen ac ardal/rhanbarth a blaenoriaeth) er mwyn sicrhau, os na fydd cyflymdra'r deilliannau'n cynyddu yn ôl y disgwyl, bod hyn yn cael ei glustnodi, fel y gellir cymryd camau sy'n cyd-fynd ag argymhellion yr adroddiad, a hynny'n gyflym.

Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa ddata CaW i ategu neu i gymryd lle'r taenlenni cyfredol. Byddai hyn yn hwyluso rheolaeth dros ddata'r rhaglen (yn enwedig wrth i niferoedd y cyfranogwyr chwyddo eto fyth) ac felly, yn helpu i fonitro perfformiad a chlustnodi patrymau'n gynnar, er enghraifft patrymau o danberfformiad a gor-berfformiad mewn perthynas â gwahanol grwpiau neu ardaloedd.

Argymhelliad 8

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a thrafod gyda WEFO y posibilrwydd o ailbroffilio pellach ar gyllidebau tua diwedd y rhaglen, er mwyn symud adnoddau o feysydd o'r rhaglen sy'n gor-berfformio (Blaenoriaeth 3) i feysydd sy'n tanberfformio (Blaenoriaeth 1) er mwyn cyflawni'r targedau.

*Deilliannau canolradd*

7.29 Mae natur a mathau'r deilliannau canolradd a glustnodwyd gan y gwerthusiad hwn yn debyg, er nad yn union yr un fath â'r rhai a glustnodwyd yn y gwerthusiad o'r rhaglen Awyddus i Weithio[64] (Y Ganolfan Cynhwysiant Economaidd a Chymdeithasol, 2013 a ddyfynnwyd yn Llywodraeth Cymru, 2017[65]). Er enghraifft, mae ein gwaith maes yn awgrymu bod CaW wedi cael yr effaith fwyaf ar y ffordd y mae cyfranogwyr yn ei deimlo amdanynt eu hunain, eu gallu i ymdopi â sialensiau, a faint o reolaeth y maent yn teimlo sydd ganddynt dros eu bywydau eu hunain.

7.30 Nodwyd hefyd yn y Theori Newid y gallai CaW feithrin agweddau a chanfyddiadau mwy cadarnhaol o'r Ganolfan Byd Gwaith ymysg y cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae'r cyferbyniad llym rhwng safbwynt cadarnhaol iawn y cyfranogwyr am CaW a'r safbwyntiau a phrofiadau negyddol yr oedd ganddynt am JCP yn aml, yn awgrymu ei bod hi'n debygol nad yw'r rhaglen wedi gwella eu canfyddiadau.

**Theori Newid y rhaglen**

7.31 Mae'r dystiolaeth werthuso'n cadarnhau bod y Theori Newid sy'n sail i CaW yn gadarn i bob pwrpas. Mae cyfranogwyr wedi dod i'r fei, er nad yn y niferoedd a fwriadwyd ar y cychwyn. Mae model y rhaglen yn cynnig y cwmpas i gynnig cymorth holistig sy'n troi o gylch y person mewn lleoliadau anffurfiol y mae'r cyfranogwyr yn eu gwerthfawrogi, ac mae'r cymorth hwn wedi galluogi'r cynghorwyr/mentoriaid i glustnodi a lleihau'r rhwystrau sy'n eu llesteirio. Mae hyn wedi cynyddu cyflogadwyedd cyfranogwyr, ac yn Nwyrain Cymru, er enghraifft, mae hyn wedi galluogi i ryw draean o'r cyfranogwyr economaidd anweithgar, a thraean o'r cyfranogwyr o blith pobl ifanc a oedd yn NEET, i gychwyn cyflogaeth.

[64] Yn ôl y gwerthusiad, mae cymhelliant pobl i weithio wedi cynyddu diolch i'r cymorth, mae gan y cyfranogwyr syniadau cliriach o ran eu nodau gyrfaol, mae eu hyder o ran dod o hyd i waith wedi cynyddu ac maent wedi dod yn fwy hyderus eu bod yn gallu gwneud gwaith da ohoni. Gwelsant gynnydd yn eu hunan-hyder hefyd. Yn ogystal, dywedodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo'n well amdanynt eu hunain, eu bod yn teimlo bod mwy o gyfleoedd iddynt yn y farchnad lafur nac yr oedd ar gael iddynt cyn cael cymorth, a'u bod wedi ennill gwell sgiliau chwilio am waith a chyfathrebu. Roedd hi'n nodedig, fodd bynnag, taw'r nodweddion a oedd wedi gwella lleiaf oedd llythrennedd, rhifedd a sgiliau TG. (LlC, 2017).

[65] http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/170412-evaluation-communities-work-stage-1-cy.pdf

7.32 Fodd bynnag, nid yw rhai o'r rhagdybiaethau a oedd wrth wraidd Theri Newid y rhaglen wedi cael eu gwireddu'n llwyr, er eu bod yn rhagdybiaethau rhesymol i'w pennu adeg dylunio'r rhaglen. Er enghraifft:

- Cafodd y rhagdybiaeth y byddai'r cyfranogwyr am weithio ac am gysylltu â'r cymorth i'w cynorthwyo i symud tuag ar y farchnad lafur am fod CaW yn rhaglen wirfoddol, ei thanseilio mewn achosion lle'r oedd cyfranogwyr yn cysylltu er mwyn iddynt edrych fel petaent yn chwilio am waith yn ymarferol er mwyn bodloni gofynion eu contract hawlio budd-dâl.

- Cafodd y rhagdybiaethau am effaith ac effeithiolrwydd y trefniadau brysbennu eu gwanhau gan anghysonderau yn rôl y swyddogion brysbennu, ac yn y ffordd yr oedd y broses brysbennu'n cael ei gweithredu.[66]

- Cafodd y rhagdybiaethau y byddai'r mentoriaid yn gweithio gyda'r bobl a oedd mwy na 12 mis o'r farchnad lafur yn unig, eu tanseilio gan densiynau rhwng 'timau' CCA a DWP; oedi wrth sefydlu'r mentoriaid mewn rhai ardaloedd; ac amrywiadau yn nifrifoldeb y rhwystrau ymysg y rhai sy'n cysylltu/yn troi at dimau CaW.

- Mae'r rhagdybiaeth y byddai mwy o bobl ifanc yn ail-gysylltu ag addysg a hyfforddiant er mwyn paratoi ar gyfer cyflogaeth gynaliadwy, wedi cael ei thanseilio gan y niferoedd bychain sy'n ailgysylltu ag addysg a hyfforddiant, gyda'r rhan fwyaf yn dewis gwaith yn gyntaf. Mae ein gwaith maes yn awgrymu bod llawer o gleientiaid Blaenoriaeth 3 wedi colli ffydd mewn addysg neu hyfforddiant erbyn iddynt ymuno â CaW oherwydd profiadau negyddol blaenorol ac mae'r rhaglen wedi ei chael hi'n anodd newid hynny.

- Gwnaed llai o ddefnydd nag a ragwelwyd o hyfforddiant, y gronfa rwystrau a gwirfoddoli.

[66] Er enghraifft, ni chyflawnwyd y disgwyliad am drosglwyddo pobl ifanc rhwng y Mentoriaid Cyflogaeth Ieuenctid a Chynghorwyr Cyflogaeth Arbenigol (SEA) i'w galluogi i oresgyn y rhwystr derfynol i gyflogaeth ac ennill sgiliau gwaith sy'n sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth o'r farchnad lafur, sgiliau chwilio am waith a gweithdrefnau ymgeisio.

- Mae'r rhagdybiaeth y byddai cynyddu sgiliau cyflogadwyedd a lleihau rhwystrau yn arwain at ddeilliannau swyddi cynaliadwy wedi cael ei gwanhau gan natur rhai marchnadoedd llafur (sydd wedi eu nodweddu gan waith ansicr/dros dro).

- Yn olaf, mae yna dystiolaeth nad yw rhai cyfranogwyr yn llwyr gysylltu â'r rhaglen, er enghraifft am eu bod wedi ymuno er mwyn bodloni eu hyfforddwr gwaith yn y GBG er enghraifft, neu am fod eu cymhelliant wedi cael ei danseilio gan y rhwystrau y maent yn teimlo y maent yn eu hwynebu. Canlyniad hyn yw bod y rhagdybiaeth y byddai'r rhan fwyaf yn elwa ar well cyflogadwyedd, hyd yn oed pe na baent yn symud i mewn i waith, yn wannach. Yn ei hanfod, er y gall y rhaglen ddileu rhai rhwystrau, fel cost offer, heb fawr o gysylltiad neu ymdrech ar ran y cyfranogwyr, y cyfranogwyr eu hunain yn unig a all oresgyn y rhan fwyaf o'r rhwystrau, a hynny gyda chymorth y rhaglen.

7.33 Roedd tystiolaeth o raglenni cyffelyb yn awgrymu taw ychydig o ddiddordeb/archwaeth oedd yna ar gyfer cymorth yn y gwaith, ac felly nid oedd hyn yn nodwedd o CaW[67]. Fodd bynnag, roedd llawer o'r staff gweithredol a gafodd gyfweliadau yn rhan o'r astudiaeth hon yn teimlo bod angen cymorth yn y gwaith ar rai o'r cyfranogwyr (er nad pob un), a bod ar rai pobl ifanc yn benodol angen cymorth tymor byr i gynnal cyflogaeth neu hunangyflogaeth.

7.34 Mae yna rywfaint o dystiolaeth hefyd, o ystyried natur dros dro/ansicr rhai mathau o waith, bod yna achos dros alluogi a chymell cynghorwyr/mentoriaid i ail-gysylltu'r rhai sy'n cychwyn cyflogaeth, ond sy'n methu â'i chynnal. Mae hyn yn gallu digwydd mewn rhai achosion, ond nid yw'r cynghorwyr/

[67] Mae hyn yn gyson â'r Theori Newid: "nid oes unrhyw fwriad i ddarparu cymorth mewn gwaith ar sail fwy ffurfiol na chymorth posibl mewn argyfwng ar gais. Mae hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth gyfredol sy'n dangos nad oes gan y cyfranogwyr ddiddordeb mewn cymorth mewn gwaith. Er enghraifft, cafodd y gwerthusiadau o'r rhaglen Awyddus i Weithio nad oedd fawr o alw amdano." Gwelwyd sefyllfa debyg yn y Rhaglen Waith a ddangosodd bod darparwyr y Rhaglen yn defnyddio cymorth yn y gwaith i fonitro deilliannau er mwyn hawlio taliadau yn fwy na dim, a dros amser, eu bod wedi defnyddio cynghorwyr cymorth yn y gwaith mewn canolfan gysylltu, a oedd yn effeithio ar ddilyniant y cymorth cynghorol a oedd yn cael ei ddarparu cyn pontio i gyflogaeth. Yn yr un modd ag Awyddus i Weithio, nid oedd y cyfranogwyr yn awyddus i neb gysylltu â nhw yn ystod oriau gwaith, ac nid oeddent o reidrwydd yn deall pwrpas cysylltiadau o'r fath.

mentoriaid yn gallu hawlio unrhyw ddeilliannau yn sgil y gweithgarwch yma gyda chyfranogwyr dros 25 oed (oherwydd meini prawf cymhwyster tynn y rhaglen).

Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod CaW+ yn cael ei integreiddio'n llwyr i dimau cyfredol CaW er mwyn caniatau i'r rhai dros 25 oed sydd wedi cael cymorth, wedi cychwyn cyflogaeth, ond sy'n methu â'i chynnal gael eu hail-gysylltu o fewn cyfnod penodol o amser.

7.35 Gwireddwyd rhai o'r risgiau a glustnodwyd yn yr adolygiad o Theori Newid y rhaglen hefyd, er enghraifft:

- Roedd anawsterau wrth integreiddio timau DWP a CCA yn llesteirio gwaith mewn rhai ardaloedd.
- Roedd gwahanol dargedau ar gyfer staff DWP a CCA yn tanseilio gwaith partneriaeth mewn rhai ardaloedd.
- Roedd gwendidau mewn partneriaethau lleol, ac mewn ambell i achos canfyddiadau o gystadlu rhwng rhaglenni cymorth cyflogaeth, yn llesteirio cysylltiadau a chyfeiriadau mewn rhai ardaloedd (yn yr un modd â rhaglenni cyffelyb eraill[68]).
- Nid oedd hi'n bosibl alinio dyheadau'r cyfranogwyr â'r cyfleoedd a oedd ar gael yn y farchnad lafur leol bob tro.

---

68 Er enghraifft, cafodd y Gwerthusiad o'r rhaglen Esgyn y bu integreiddio â gwasanaethau eraill, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'i seilwaith, o gymorth wrth ddelio â chyfranogwyr â rhwystrau niferus i gyflogaeth (Wavehill, 2012, t.37). Fodd bynnag, nododd hefyd bod gwendidau mewn partneriaethau lleol yn effeithio ar natur a siâp y cyflawniad a'r cynnydd y gellid ei wneud (Wavehill, ibid).

### Cyfraniad y rhaglen at y Themâu Trawsbynciol

7.36 Ein casgliad ni yw y bydd y rhaglen yn gwneud cyfraniad cadarn at ddwy thema trawsbynciol: Cyfleoedd Cyfartal a Phrif-ffrydio Rhywiol, a Lleihau Tlodi a Dieithrwch Cymdeithasol. Er enghraifft:

- Bydd perfformiad cadarn mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 yn helpu i leihau niferoedd y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae dull y rhaglen o fynd ati sy'n seiliedig ar y person wedi helpu iddo gynorthwyo pobl anabl a phobl o gefndiroedd BME i fanteisio ar gyfleoedd am hyfforddiant a chyflogaeth.
- Mae helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth fel prinder sgiliau, diffyg gofal plant neu ddewisiadau cyfyngedig o ran cludiant, wedi cynorthwyo mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.
- Trwy helpu pobl i mewn i waith, mae CaW wedi helpu i gyfrannu at welliannau o ran iechyd a lles.

7.37 Mae CaW wedi cyfrannu hefyd at ddimensiynau 'cymdeithasol' datblygu cynaliadwy, fel hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfleoedd cyfartal.

### Effeithiau'r rhaglen a’i gwerth am arian

7.38 Mae CaW yn ymdrechu i fynd i'r afael ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a DWP i leihau tlodi trwy waith, ac mae'n fuddsoddiad sylweddol i'r naill sefydliad a’r llall. Mae'n torri tir newydd o ran ei fod yn cwmpasu adrannau o'r llywodraeth sydd wedi eu datganoli a rhai sydd heb eu datganoli, ac mae'n tynnu ynghyd amryw o sefydliadau mewn ffyrdd ac ar raddfa na welwyd erioed o'r blaen. Er bod hyn yn her yn nhermau integreiddio timau ac asio diwylliannau, roedd yr achos o blaid y dull a ddefnyddiwyd yn gadarn, a chafodd ei fwydo gan waith ymchwil i beth sy'n gweithio yn nhermau estyn allan a chynorthwyo'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur.

7.39 Mae'r astudiaethau achos ar gyfranogwyr sydd yn yr adroddiad hwn yn dyst i effaith y rhaglen, sy'n aml wedi trawsnewid bywydau pobl, a'r cyfraniadau pwysig y mae'r rhaglen wedi ei gwneud at wireddu blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru fel lleihau tlodi a dieithrwch cymdeithasol. Ychydig iawn o dystiolaeth oedd yna o 'ddifrwythedd', ac mae CaW ar y trywydd iawn i gyflawni ei nod tymor hir: sef gwireddu gostyngiad yn nifer yr oedolion sydd heb waith, a hefyd, ar wahân i hynny, yn y gyfran o bobl ifanc sy'n NEET ar draws Cymru, trwy eu cynorthwyo i mewn i waith cynaliadwy.

7.40 Fodd bynnag, oni bai bod cyfradd y cysylltiadau a'r deilliannau Blaenoriaeth 1 yn cynyddu, er y bydd yn sylweddol o hyd, bydd maint yr effaith yma'n llai nag y gobeithiwyd. At hynny, mae'r gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth hon yn awgrymu bod yna rywfaint o ansicrwydd ynghylch cynaliadwyedd y deilliannau. O ganlyniad, hyd yn oed lle mae'r rhaglen yn cynyddu cyflogadwyedd, mae natur rhai marchnadoedd llafur, sy'n cynnig swyddi tymor-byr/ansicr yn bennaf, wedi ei gwneud hi'n anodd i rai cyfranogwyr ddiogelu gwaith 'cynaliadwy'. Tystiolaeth gyfyngedig yn unig sydd yna o 'effeithiau gorlif' fel manteision i deuluoedd y bobl a gafodd gymorth, a glustnodwyd mewn gwerthusiadau o raglenni eraill, fel Esgyn[69]. Fodd bynnag, mae'n bosibl fod hynny o ganlyniad i gyfyngiadau ar allu'r gwerthusiad hwn i bwyso a mesur effeithiau o'r math yma (yn fwy na dim oherwydd diffyg data o'r Arolwg o Gyfranogwyr yr ESF), yn hytrach na diffyg effaith.

7.41 Er ei bod hi'n rhy gynnar i fesur gwerth am arian y rhaglen, mae'r arwyddion yn galonogol. Mae yna achos i fod yn bwyllog o optimistaidd y bydd y rhaglen yn cyflawni gwerth pwysig i gyfranogwyr unigol ac i'r gymdeithas. Ar hyn o bryd, mae'r costau fesul cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 yn uwch na'r meincnod a ymhlygwyd yn y cynllun busnes, a hynny'n bennaf am fod cysylltiadau hyd yn hyn wedi bod ar ei hôl hi o ran y targedau gan fwy nag y mae'r costau wedi bod ar ei hi o ran cyllidebau'r rhaglenni. Rydyn ni'n rhag-weld y bydd y gost fesul cyfranogwr yn dod yn fwy cyson â'r disgwyliadau dros y misoedd nesaf fodd bynnag, wrth i gysylltiadau gynyddu a chostau'r rhaglenni wastatáu. Mae'r gost fesul cyfranogwr Blaenoriaeth 3 eisoes yn is na'r gost meincnod,

[69] Llywodraeth Cymru (2016) Gwerthusiad o'r Rhaglen Esgyn: Cam 2 - Astudiaeth o Weithrediad: Ffurf Strwythurol ac Ymarfer Gweithredol Esgyn.

diolch i'r perfformiad cadarnach yn nhermau cysylltiadau Blaenoriaeth 3 ar draws Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

7.42 Prif fwriad CaW yw symud pobl i mewn i waith, ac felly mae'r deilliant cost fesul deilliant swyddi'n ddangosydd o werth ar y cam yma yn oes y rhaglen. Mae hi'n arbennig o galonnog, ar y pwynt yma yn oes y rhaglen, bod y gost fesul deilliant swydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 1 yn cyd-fynd yn dda â'r disgwyliadau, a bod y gost fesul deilliant swydd mewn perthynas â Blaenoriaeth 3 yn sylweddol is na'r lefel meincnod a ymhlygwyd yn y cynlluniau busnes. Rydyn ni'n bwyllog o optimistaidd y bydd codi'r momentwm yn nhermau cysylltu cyfranogwyr, a chyfradd 'drosi' gyson uchel rhwng cysylltiadau a deilliannau (ar gyfer cyfranogwyr Blaenoriaeth 1 a 3), yn caniatáu i'r gwir gostau fesul deilliant swyddi fod yn is na'r disgwyl, gan osod CaW ar wahân i ymyraethau cyflogadwyedd eraill yn nhermau'r gwerth am arian y mae'n ei gynnig.

## Atodiad 1: Sail y Gost fesul Cyfranogwr a Chyfrifiadau Cost fesul Deilliant[70] [71]

| | Dwyrain Cymru | | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | Cymru Gyfan | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb/Targed hyd 2020 | Go iawn hyd Hydref 2017 | Cyllideb/Targed hyd 2020 | Go iawn hyd Hydref 2017 | Cyllideb/Targed hyd 2020 | Go iawn hyd Hydref 2017 |
| Costau | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | £12,798,075 | £3,073,274 | £38,584,486 | £9,994,930 | £51,382,561 | £13,068,204 |
| Blaenoriaeth 3 | £4,871,978 | £1,161,729 | £14,741,289 | £4,119,936 | £19,613,267 | £5,281,665 |
| Cysylltiadau i Hyd 17 | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 11,312 | 1,790 | 33,532 | 5895 | 44,844 | 7685 |
| Blaenoriaeth 3 | 1,758 | 807 | 5,819 | 3787 | 7,577 | 4594 |
| Deilliannau Swyddi i Hyd 17 | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | 1,966 | 503 | 5,819 | 1382 | 7,785 | 1885 |
| Blaenoriaeth 3 | 503 | 239 | 1,582 | 1343 | 2,085 | 1582 |
| Deilliannau Symud i mewn i Addysg neu Hyfforddiant | | | | | | |
| Blaenoriaeth 3 | 169 | 43 | 917 | 127 | 1,086 | 170 |
| Datblygiad Cadarnhaol (i mewn i Gyflogaeth, Deilliant Addysg a Hyfforddiant) ar gyfer Cyfranogwyr Blaenoriaeth 3 | | | | | | |
| Blaenoriaeth 3 | 672 | 282 | 2,499 | 1,470 | 3,171 | 1,752 |
| Cost fesul Deilliant Swydd[72] | | | | | | |
| Blaenoriaeth 1 | £6,510 | £6,110 | £6,631 | £7,232 | £6,600 | £6,933 |
| Blaenoriaeth 3 | £9,686 | £4,861 | £9,318 | £3,068 | £9,407 | £3,339 |
| Cost fesul Datblygiad Cadarnhaol[73] | | | | | | |
| Blaenoriaeth 3 | £7,250 | £4,120 | £5,899 | £2,803 | £6,185 | £3,015 |

[70] Cynlluniau Busnes.
[71] Ffynhonnell: Pecyn Gwybodaeth Monitro CaW, Tachwedd 2017.
[72] Cafwyd y gwerthoedd hyn trwy rannu niferoedd y deilliannau swyddi yr anelir atynt neu a gyflawnir o fewn pob blaenoriaeth gan y gyllideb a bennwyd neu'r costau a dynnwyd r gyfer y flaenoriaeth honno hyd yn hyn.
[73] Cafwyd y gwerthoedd hyn trwy rannu nifer y deilliannau swyddi a'r deilliannau o ran datblygiad i mewn i addysg/hyfforddiant yr anelir atynt neu a gyflawnir o fewn pob blaenoriaeth â'r gyllideb a bennwyd neu'r costau a dynnwyd ar gyfer y flaenoriaeth honno hyd yn hyn.